

Resilient  
Green Spaces  
Mannau  
Gwyrdd Gwydn



# ADRODDIAD GWERTHUSO TERFYNOL MEHEFIN 2023

## CRYNODEB GWEITHREDOL

Roedd Mannau Gwyrdd Gwydn yn brosiect partneriaeth gwerth £1.27m yn cael ei arwain gan Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol (SFG) i beilota systemau bwyd amgen sydd wedi'u hail-leoleiddio gan ddefnyddio cymunedau a'u mannau gwyrdd fel sbardun ar gyfer newid. Bu'n rhedeg rhwng 2021 a Mehefin 2023. Derbyniodd y prosiect gyllid drwy Gymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru - Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020, a ariennir gan Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig a Llywodraeth Cymru. Roedd y bartneriaeth yn cynnwys: Prifysgol Caerdydd, Cyngor Gwynedd, Cymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu Cymru, Gweithwyr y Tir Cymru, Lantra / Tyfu Cymru, Open Food Network UK, Shared Assets a Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau a myfyrdodau allweddol o werthusiad terfynol y prosiect, gan adrodd ar weithgaredd a gyflawnwyd hyd at fis Mai 2023, fel y cafodd eu gwerthuso gan ymchwilyr o Brifysgol Caerdydd ac UWE Bryste.

**Mae'r prosiect Mannau Gwyrdd Gwydn wedi cyflawni manteision eang i gymunedau ac amgylcheddau ledled Cymru, gan wella systemau bwyd, gyda phwyslais ar gynhyrchu lleol a ffermio amaethecolegol. Mae cymunedau wedi datblygu'r hyder a'r sgiliau sydd eu hangen i'w galluogi i roi cychwyn ar newid yn y dyfodol.**

Awduron yr Adroddiad:

Barbora Adlerova  
Dr Hannah Pitt  
(Prifysgol Caerdydd)

Dr Angelina Sanderson Bellamy  
(Prifysgol Gorllewin Lloegr)



### CYFLAWNIADAU MANNAU GWYRDD GWYDN

Mae'r prosiect wedi cyflawni'r holl dargedau allweddol a osodwyd ar y dechrau, ac wedi rhagori ar lawer ohonynt. Hyd at fis Mai 2023, mae'r llwyddiannau hyn yn cynnwys:





Mae amrywiaeth y gweithgareddau a'r dulliau gweithredu yn dangos gwerth mecanweithiau lluosog ar gyfer ymgysylltu cymunedau â mannau gwyrdd. Mae gan lawer botensial clir i gael eu gweithredu'n ehangach, ledled Cymru a thu hwnt. Mae'r partneriaid sy'n cymryd rhan wedi ennill arbenigedd a mewnwediadau newydd a fydd yn gwella eu gwaith yn y dyfodol, ac yn darparu sylfaen gref ar gyfer adeiladu ar waddol y prosiect hwn.

Nododd y gwerthusiad yr effeithiau ar draws y prosiect na fyddai wedi bod yn bosibl fel arall. Cyflawnwyd y rhain yn wyneb heriau sylweddol sy'n gysylltiedig â chyfnod byrrach o gyflawni prosiectau, gan gadw dyheadau uchelgeisiol iawn.

Mae'r prosiect wedi sefydlu asedau diriaethol a fydd yn gweithredu fel gwaddol parhaus i gymunedau, gan gynnwys tir, coed, datrysiadau digidol ac offer. Gall asedau anniriaethol, fel grwpiau cymunedol gwydn a pherthnasoedd rhwng rhanddeiliaid hefyd alluogi gweithgaredd ac effaith yn y dyfodol.

Ymatebodd **FFRWD WAITH 1** ddyheadau cymunedau ar gyfer rhandiroedd, gan eu cefnogi i wella safleoedd presennol a sefydlu rhai newydd. Fe greodd 420 llain newydd, gwella 17 safle a chyflwyno 5 sesiwn hyfforddi i reolwyr safle. Sefydlodd y prosiect Fforwm Rhandiroedd Cymru i gefnogi'r rhai sy'n rheoli rhandiroedd gyda rhwydweithio a chyfnewid arfer gorau, gan amlygu gwerth dulliau a arweinir gan y gymuned.

Cefnogodd **FFRWD WAITH 2** bump o hybiau bwyd newydd gan alluogi cymunedau i brynu bwyd a gynhyrchir yn lleol. Ariannwyd pob un i gyflogi rheolwr, a rhoddwyd cefnogaeth drwy fentora a hyfforddiant i fasnachu ar blatfform masnachu ar-lein arbenigol. Hyd yn hyn mae 443 o gwsmeriaid ac 83 o gynhyrchwyr wedi masnachu gwerth £110,870 o fwyd lleol, gan gynnwys 55,566 kg o ffrwythau a llysiau a 50,782 kg o gig.

Roedd **FFRWD WAITH 3** yn galluogi cymunedau i sefydlu perllannau cymunedol newydd, ac i ddatblygu systemau i gynhyrchu, storio a phrosesu ffrwythau. Hyd yn hyn, mae 1146 o goed ffrwythau a chnau treftadaeth wedi'u plannu mewn 24 o berllannau. Mae hyfforddiant ym maes rheoli perllannau wedi cael ei ddarparu i grwpiau cymunedol, ac mae rhwydwaith wedi'i sefydlu i alluogi dysgu rhwng grwpiau.

Gweithiodd **FFRWD WAITH 4** i wella dull Cyngor Gwynedd o reoli coridorau ar ochr y ffordd i greu cynefinoedd peillwyr. Cefnogodd 14 o grwpiau cymunedol yn y sir i gymryd rhan mewn rheoli mannau gwyrdd fel cynefin dolydd, gan ddarparu offer a chyngor arbenigol. Mae deunyddiau gweledol a grëwyd gydag artistiaid lleol wedi cael eu hyrwyddo i gefnogi cyfathrebu pwysigrwydd coridorau gwyrddach.

Ymchwiliodd **FFRWD WAITH 5** i sut y gall pobl sydd â diddordeb mewn ffermio amaethecolegol gael mynediad i dir ar gyfer ffermio, o safbwynt perchennog tir ac o safbwynt ceiswyr tir, gan rannu'r canfyddiadau mewn adroddiadau. Creodd bartneriaeth ar gyfer dysgu cymheiriaid awdurdodau lleol, a darparodd hyfforddiant i'r rhai sy'n ceisio tir. Mae astudiaethau achos a chanllawiau sy'n seiliedig ar y dysgu hwn yn cael eu datblygu a'u hyrwyddo. Mae gwaith ar y gweill i ddyfarnu £100,000 ar gyfer prynu tir ar gyfer ffermio amaethecolegol gyda budd cymunedol hirdymor.

Datblygodd a threialodd **FFRWD WAITH 6** hyfforddiant mewn sgiliau garddwriaethol mewn partneriaeth â thyfwyr amaethecolegol. Ar draws dwy rownd, cafodd 29 o hyfforddeion eu gwesteia ar 8 fferm, gan gynnwys profiad ar y fferm, gweminarau ac ymweliadau fferm. Nododd ymchwil i'r ddarpariaeth hyfforddiant bresennol fylchau a chyfleoedd yn genedlaethol. Bu ymchwil gweithredu cysylltiedig yn gweithio gyda phobl ifanc i archwilio canfyddiadau cyfredol o gyfleoedd gyrfa, a sut y mae cyswllt â hyfforddeion garddwriaethol yn effeithio ar y rhain.

Mae gweithgarwch ar draws y ffrydiau gwaith wedi'i gofnodi fel mewnbwn data ar lwyfan mapio ffynhonnell agored newydd sy'n darparu cyfleoedd i ddelweddu a dadansoddi gweithgarwch gan amrywiaeth o sefydliadau. Bydd hyn yn cael ei wella y tu hwnt i fywyd y prosiect, a'i rannu gyda chyrrff sydd â diddordeb.

Mae dysgu o'r prosiect hwn yn debygol o fod o ddiddordeb i amrywiaeth o randdeiliaid, grwpiau cymunedol a phenderfynwyr. Mae rhinwedd amlwg bod y partneriaid yn parhau i gyfathrebu'n eang â'r hyn y mae'r prosiect wedi'i gyflawni, a sut y gellir ei ailadrodd.

Mae'r prosiect wedi treialu amrywiaeth o ddulliau sy'n addas ar gyfer gweithredu a chefnogaeth polisi ehangach. Dim ond trwy gefnogaeth barhaus i swyddogaethau allweddol a thrwy gydlynw a chael adnoddau i helpu i rannu dysgu'n ehangach y bydd hi'n bosibl i fanteisio ar yr holl waddol posibl a fyddai'n cyfrannu at newid ehangach.

Mae'r gwerthusiad hefyd yn awgrymu argymhellion penodol i'r bartneriaeth ac i ariannwr y prosiect eu hystyried mewn perthynas â gweithgarwch yn y dyfodol gyda nodau neu ffyrdd o weithio ymochrol.

Gwersi ar gyfer partneriaid y prosiect:

- 1 Manteisio ar ddysgu o bob rhan o'r prosiect fel tystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio, ac o sut y gellid addasu'r gweithgareddau a dreialwyd i ymateb i anghenion sy'n dod i'r amlwg
- 2 Parhau i ddarparu dull 'pecyn cyfan' o weithio gyda chymunedau, gan gynnwys cyllid, gwybodaeth a chyngor, gan gynnig cymorth hyblyg wedi'i deilwra i anghenion buddiolwyr
- 3 Gwneud amcangyfrifon hael yn hytrach na rhai ceidwadol o'r capasiti staff sy'n angenrheidiol i gyflawni prosiectau uchelgeisiol, cymhleth ac i weinyddu partneriaethau mawr

4 Neilltuo amser a chapasiti o fewn prosiectau partneriaeth ar gyfer gweithgaredd i feithrin perthnasoedd rhwng partneriaid, ac iddyn nhw gyfnewid dysgu

5 Ar gyfer partneriaethau mawr, cynlluniwch ar gyfer cyfarfodydd wyneb yn wyneb gyda lle i siarad, yn enwedig ar gyfer sefydliadau sy'n gweithio gyda'i gilydd am y tro cyntaf

6 Cynllun gweithredu sy'n canolbwyntio ar sicrhau tir i berchnogaeth gymunedol fod yn araf ac i fuddiolwyr fod angen cefnogaeth barhaus

7 Ystyried sut i gydbwysu hygyrchedd dull gweithredu ledled Cymru, gyda'r potensial am synergeddau a gweithio mwy effeithlon drwy ganolbwyntio ar ardaloedd daearyddol penodol

Gallai Llywodraeth Cymru a chyllidwyr eraill hyrwyddo rhaglenni tebyg yn y dyfodol:

- 1 Ystyried potensial i gefnogi dyblygu a pharhad gweithgareddau ffrwd waith a ddangosir i fod yn effeithiol ar draws y prosiect hwn
- 2 Hwyluso penderfyniadau ariannu yn gyflym; caniatáu amser ychwanegol ar gyfer cyflwyno yn dilyn penderfyniadau'n cael eu hoedi
- 3 Symleiddio prosesau hawliadau a darparu un pwynt cyswllt ar gyfer prosiectau a ariennir
- 4 Cefnogi gweithgaredd i ledaenu gwybodaeth am yr hyn a weithiodd yn y gweithgareddau peilot, a sut y gellir eu haddasu i leoedd eraill
- 5 Cynghori ymgeiswyr ar gydbwysedd priodol rhwng uchelgais, risg a dichonoldeb, yn enwedig yng ngoleuni'r cydgyssylltiad sy'n ofynnol ar gyfer prosiectau partneriaeth cymhleth
- 6 Meithrin dulliau cydweithredol lle mae gan sefydliadau botensial i gydweithredu ar broblemau cymhleth ac atebion cysylltiedig; galluogi ceisiadau cydweithredol yn hytrach na cheisiadau cystadleuol am arian cyhoeddus



## CYNNWYS

1.0	CYFLWYNIAD	P 8
2.0	METHODOLEG	P 10
3.0	CYFLAWNIADAU ALLWEDDOL	P 13
4.0	<b>FFRWD WAITH 1</b> - RHANDIROEDD	P 14
5.0	FFRWD WAITH 2 - HYBIAU BWYD	P 22
6.0	FFRWD WAITH 3 - PERLLANNAU CYMUNEDOL	P 32
7.0	<b>FFRWD WAITH 4</b> - CORIDORAU MWY GWYRDD	P 42
8.0	FFRWD WAITH 5 - ARCHWILIO MYNEDIAD	P 50
	CYMUNEDOL I FFERMYDD A THIR	
9.0	<b>FFRWD WAITH 6</b> - SGILIAU	P 58
10.0	CYFLAWNIADAU AR DRAWS Y PROSIECT	P 67
11.0	MECANWAITHIAU AR GYFER NEWYDD	P 70
12.0	HERIAU A CHYFYNGIADAU	P 83
13.0	CASGLIADAU AC ARGYMHELLION	P 88

## 1.0 CYFLWYNIAD

Mae Mannau Gwyrdd Gwydn yn brosiect partneriaeth gwerth £1.27m sy'n cael ei arwain gan Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol (SFG) i beilota systemau bwyd amgen sydd wedi'u hail-leoleiddio gan ddefnyddio cymunedau a'u mannau gwyrdd fel sbardun ar gyfer newid ledled Cymru. Cyllidwyd y prosiect hwn drwy Gymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru - Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru 2014-2020, a ariennir gan Lywodraeth Cymru a'r Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig. Rhoddwyd caniatâd i'r bartneriaeth fwrw ymlaen dan risg ym mis Ionawr 2021 a chafodd gymeradwyaeth ym mis Awst 2021, a dyna pryd y dechreuodd y gwaith cyflenwi yn llawn, gan ddod i ben ym mis Mehefin 2023.

### PARTNER

Prifysgol Caerdydd

Cyngor Gwynedd

Cymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu Cymru

Gweithwyr y Tir Cymru

Lantra / Tyfu Cymru

Open Food Network UK

Shared Assets

Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol

Trefnwyd gweithgaredd yn chwe ffrwd waith:

- 1 Adeiladu Tîm Datblygu Rhandiroedd Cenedlaethol
- 2 Hybiau Bwyd Arloesol
- 3 Perllannau Cymunedol Cynhyrchiol
- 4 Coridorau a mannau mwy gwyrdd
- 5 Archwilio Mynediad Cymunedol i Ffermydd a Thir
- 6 Adeiladu Sgiliau Ffermio Garddwriaethol y Dyfodol

Darparwyd ffrydiau gwaith gan bartneriaeth y prosiect, gyda phob un yn cymryd rôl mewn un neu fwy; Gweithredodd SFG fel cydlynnydd y prosiect. (Tabl 1)

### GWEITHGAREDD

Ffrwd Waith 6

Ffrwd Waith 4

Ffrwd Waith 2

Ffrwd Waith 2  
Ffrwd Waith 5  
Ffrwd Waith 6

Ffrwd Waith 6

Ffrwd Waith 2

Ffrwd Waith 5

Ffrwd Waith 1  
Ffrwd Waith 3  
Ffrwd Waith 4  
Partneriaethau a Chydlynnydd Prosiectau

TABL 1: Sefydliadau partner

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau a myfyrdodau allweddol o werthusiad terfynol y prosiect, gan adrodd ar weithgaredd a gyflawnwyd hyd at fis Mai 2023.

Ceisiodd Mannau Gwyrdd Gwydn (RAS) dreialu dulliau o newid systemau bwyd trwy gynnwys cymunedau a'u mannau gwyrdd. Mae sicrhau newid gyda phroblemau mor gymhleth yn fwy tebygol o lwyddo trwy ddulliau a drefnir o gylich effaith ar y cyd. Mae effaith ar y cyd yn ddull o ddeall newid sy'n gysylltiedig â phroblemau cymhleth<sup>1</sup>. Mae'n dechrau o'r cyswll bod mwy yn cael ei gyflawni trwy sefydliadau yn gweithio gyda'i gilydd. Mae dadansoddiad o effaith ar y cyd yn canfod bod rhai amodau sy'n ei gwneud yn fwy tebygol y bydd newid yn dilyn, gan gynnwys rôl sefydliad asgwrn cefn ac agenda cyffredin gan bawb sy'n cymryd rhan. Er nad oedd RGS wedi'i ddylunio o amgylch fframwaith effaith ar y cyd, mae ei gyflawni a'i ethos yn cynrychioli sawl agwedd ar y dull hwn, gan gynyddu'r siawns o gyflawni newid. Fodd bynnag, roedd y prosiect yn gymharol fyr, gan leihau'r cyfle i gyflawni newid trawsnewidiol; Mae'r adroddiad hwn yn tynnu sylw at sut y gellid adeiladu ar y sylfeini gafodd eu gosod i hyrwyddo'r effaith ar y cyd.



<sup>1</sup> Am ragor o fanylion gweler 'Guide to Evaluating Collective Impact' Preskill et al 2013 [www.fsg.org/publications/guide-evaluating-collective-impact](http://www.fsg.org/publications/guide-evaluating-collective-impact)



## 2.0 METHODOLEG

Ymchwilwyr o Brifysgol Caerdydd (Barbora Adlerova, Hannah Pitt) ac UWE Bryste (Angelina Sanderson Bellamy) oedd y tîm gwerthuso annibynnol ar gyfer y prosiect<sup>2</sup>. Cafodd partneriaid cyflenwi eu cefnogi a'u harwain i feddwl am gasglu data i fonitro ac asesu gweithgaredd a chyflawniadau'r prosiect. Roedd y dull gwerthuso yn canolbwyntio ar gyd-gynhyrchu lle mae ymchwilwyr academaidd yn cydweithio â thîm y prosiect, partneriaid a buddiolwyr er mwyn dylunio a chyflwyno ymchwil i ddysgu am effeithiau a phrosesau'r prosiect. Mae hyn yn golygu bod dysgu'n cael ei gasglu yn ystod y prosiect ac yn gallu llywio gweithgaredd sy'n digwydd. Gall y dull hwn hefyd ddatblygu galluoedd a hyder i bartneriaid a buddiolwyr i gasglu tystiolaeth yn y dyfodol. Sicrhawyd cymeradwyaeth foesegol ar gyfer yr holl weithgarwch ymchwil sy'n gysylltiedig â'r prosiect gan Bwyllgor Moeseg Ymchwil yr Ysgol Daearyddiaeth a Chynllunio, Prifysgol Caerdydd.

Amcanion y gwerthusiad hwn oedd:

- Cyflwyno tystiolaeth gadarn, dryloyw o effeithiau'r prosiect.
- Datgelu a dogfennu sut y mae effeithiau'n cael eu cyflawni.
- Cefnogi a hwyluso rhannu dysgu rhwng actorion partneriaeth, a rhyngddynt hwy ac actorion allanol.
- Profi rhagdybiaethau ynghylch sut i gyflawni newid.
- Casglu gwybodaeth am sut i ehangu ac ymestyn effeithiau prosiectau.

Cyflawnwyd y rhain drwy:

- Cymryd rhan mewn cynllunio, datblygu a lledaenu prosiectau,
- Casglu data sylfaenol gan fuddiolwyr a rhanddeiliaid,
- Dadansoddi data eilaidd gan bartneriaid prosiect a rhanddeiliaid.

Rhannwyd canfyddiadau gyda phartneriaid prosiect, a rhanddeiliaid eraill ar adegau allweddol drwy gydol y prosiect, gan gynnwys adroddiad gwerthuso canol tymor ym mis Mai 2022. Nod yr adroddiad hwn yw casglu canfyddiadau o'r gwerthusiad terfynol er mwyn darparu cyfeiriad ar gyfer partneriaid prosiect, a hysbysu rhanddeiliaid o gynnydd prosiectau, tra'n rhannu dysgu ar y prosesau y tu ôl i'w gyflawniadau.

Cadarnhaodd gweithdy gwerthuso cychwynnol ar gyfer partneriaid ym mis Ebrill 2021 Ddamcaniaethau Newid ar gyfer pob ffrwd waith fel sail ar gyfer gweithgarwch gwerthuso. Cynhaliwyd ail weithdy gwerthuso ym mis Chwefror 2023 i gasglu myfyrdodau ar gyflwyno, effaith a chydweithio. Amcanion y sesiwn hon oedd:

- Myfyrio ar gynnydd a darpariaeth ym mhob ffrwd waith.
- Nodi beth sy'n galluogi cyflawni newid cadarnhaol.
- Nodi beth sy'n atal cyflawni newid cadarnhaol.
- Deall gwerth ac effaith dull partneriaeth mawr.
- Nodi cyfleoedd i adeiladu ar y prosiect a'r bartneriaeth.

Roedd y gweithdy hwn yn cynnwys amser i dimau ffrydiau gwaith unigol fyfyrion ar eu gweithgaredd, ac i'r bartneriaeth gyfan archwilio'r pynciau hyn gyda'i gilydd. Trafodwyd hefyd sut y gellid cynyddu neu ymestyn cyflawniadau'r prosiect yn y dyfodol.

Mae'r data a gasglwyd ar gyfer y gwerthusiad terfynol wedi'i grynhoi yn Nhabl 2. Yn ogystal, adolygodd y tîm gwerthuso ddeunydd a gasglwyd wrth gyflwyno'r prosiect i fonitro effaith ac effeithiolrwydd pob ffrwd waith.

<sup>2</sup> Roedd staff Prifysgol Caerdydd ynghlwm wrth y gwaith o ddarparu'r gweithgaredd ymchwil gweithredu o fewn ffrwd waith 6; roedd hwn yn weithgaredd ar wahân i elfen hyfforddi sgiliau y ffrwd waith, sef ffocws y gwerthuso. Cafodd dyletswyddau staff o fewn Prifysgol Caerdydd eu rhannu i osgoi unrhyw wrthdaro buddiannau.

FFOCWS	CYFRANOGWYR	DULL
Cyflwyno ffrydiau gwaith a dysgu a chyflwyno prosiectau a dysgu	6 arweinydd ffrwd waith	Cyfweliadau ansoddol
Effeithiau ffrydiau gwaith	138 o fuddiolwyr ffrydiau gwaith	Cyfweliadau ansoddol Holiaduron ar-lein Grwpiau ffocws Ffurflenni adborth digwyddiadau Cyfranogwr yn arsylwi Ystadegau allbwn
Cyflwyno'r prosiect a'r dysgu	2 bartner ffrwd waith 2 gydlynnydd prosiect	Holiadur ar-lein Cyfweliadau ansoddol
Myfyrdodau prosiectau a ffrydiau gwaith a dysgu	18 partner a chydlynnydd	Gweithdy cyfranogol

TABLE 2: Crynodeb o'r data a gasglwyd ar gyfer y gwerthuso terfynol

	DATA	NIFER YR YMATEBION
FfW1	Adborth ar-lein gan gyfranogwyr Fforwm Rhandiroedd Ffurflenni adborth digwyddiadau Cyfweliadau ansoddol gyda safleoedd wedi'u cefnogi	9 cyfranogwr 15 cyfranogwr 8 cyfranogwr
FfW2	Cyfweliadau ansoddol gyda rheolwyr hybiau bwyd Holiadur hunanasesu gyda rheolwyr hybiau bwyd Cyfweliadau ansoddol gyda mentoriaid	4 cyfranogwr 4 ymateb 2 gyfranogwr
FfW3	Cyfweliadau ansoddol gyda safleoedd wedi'u cefnogi Ffurflenni adborth digwyddiadau	10 cyfranogwr 40 cyfranogwr
FfW4	Cyfweliadau ansoddol gyda safleoedd wedi'u cefnogi	5 cyfranogwr
FfW5	Adborth ar-lein gan gyfranogwyr webinarau Cyfweliadau ansoddol gyda thirfeddianwyr cyhoeddus	15 cyfranogwr 3 chyfranogwr
FfW6	Ffurflenni adborth gan gyfranogwyr yn derbyn hyfforddiant - cyn yr hyfforddiant Ffurflenni adborth gan gyfranogwyr yn derbyn hyfforddiant - ar ôl yr hyfforddiant Trafodaeth grŵp ffocws gyda chyfranogwyr hyfforddiant Cyfranogwr yn arsylwi Cyfweliadau ansoddol gyda chyfranogwyr hyfforddiant	23 hyfforddai 15 hyfforddai, 6 thyfwr 12 hyfforddai 1 ymweliad fferm 8 hyfforddai, 2 dyfwr


TABLE 3: Crynodeb o'r data monitro a gwerthuso a ddadansoddiwyd

## 2.1 CYFYNGIADAU

Fel gydag unrhyw ymchwil gwerthuso, mae'r canfyddiadau'n cael eu cyfyngu gan bwy sy'n barod i gymryd rhan mewn casglu data.

Er i'r tîm geisio cynnwys ystod eang o safbwyntiau, mae'n debygol bod y rhai â safbwyntiau mwy cadarnhaol ar y prosiect yn fwy parod i gymryd rhan - er enghraifft derbynwyr cyllid yn hytrach nag ymgeiswyr aflwyddiannus.

Mae hefyd yn amhosibl bod yn hyderus i ba raddau y gellir priodoli effeithiau i'r prosiect yn hytrach nag i ffactorau eraill. Er enghraifft, roedd buddiolwyr y rhaglen fel arfer yn ymwneud â mentrau eraill a oedd yn cefnogi eu gweithrediadau mewn gwahanol ffyrdd. I gydbwysu hyn, ceisiodd y tîm gwerthuso farn ar yr hyn a allai fod wedi digwydd beth bynnag, ac maent wedi defnyddio eu barn arbenigol wrth gyflwyno cyflawniadau sy'n gysylltiedig â phob ffrwd waith i gyflwyno asesiad rhesymol o briodoliad.



## 3.0 CYFLAWNIADAU ALLWEDDOL

Mae'r prosiect wedi cyflawni'r holl dargedau allweddol a osodwyd ar y dechrau, ac wedi rhagori ar lawer ohonynt. Mae deilliannau allweddol wedi'u crynhoi yn nhabl 4.

DANGOSYDD	TARGED	GWIRIONEDDOL (diwedd Mai 2023)	AMRYWIANT
Gweithgareddau marchnata/gwybodaeth	17	113	+96
Buddiolwyr wedi'u cefnogi	78	143	+65
O swyddi wedi'u diogelu	11	17	+6
O swyddi wedi'u creu	4	5	+1
O gyfranogwyr yn derbyn hyfforddiant	176	317	+141
Gwariant ar hyfforddiant	£47,238	£41,090	-£6,148
O ddyddiau hyfforddi wedi'u cyflwyno	25	46	+21
Rhwydwaith wedi'i sefydlu	4	6	+2
Astudiaeth dichonolrwydd	3	7	+4
O randdeiliaid yn cymryd rhan	1,015	1,205	+190

TABL 4: Deilliannau Prosiect

### 3.1 MAPIO

O ystyried ehangder a chwmpas gweithgarwch ar draws y ffyrddau gwaith, a'r potensial i weithio gydag ystod eang o gymunedau, unigolion a sefydliadau, roedd y prosiect yn cynnwys nod o fapio rhanddeiliaid drwy gydol y cyfnod. Cafodd ymgynghoriaeth allanol ei phenodi i ddarparu arbenigedd mapio i feithrin gallu a helpu i gasglu data cywir. Drwy weithio gyda'r cwmni newydd Digital Commons, cafodd y prosiect ei alluogi i gefnogi eu datblygiad tra'n defnyddio technoleg cod agored. Roedd eu platfform (Land Explorer) yn cynnig potensial i fapio polygonau ac allforio data mewn fformatau sy'n addas i ddeiliaid data eraill, gan ganiatáu rhannu data RGS ag eraill. Cynhaliwyd gweithdy mapio gyda phartneriaid y prosiect, i gyflwyno'r cysyniad, a chychwyn gweithgaredd i ddatblygu casglu data. Roedd Land Explorer yn mewnforyo data presennol yr

oedd SFG yn ei gadw. Yna, cafodd mapio perllannau cymunedol eu blaenoriaethu, gydag ymgynghorydd wedi'i benodi i gefnogi'r gweithgaredd hwn.

Hyd yn hyn, mae'r mapiau canlynol wedi'u cwblhau:

- Data SFG ar berllannau cymunedol, gerddi cymunedol, rhandiroedd, CSAau a safleoedd bwytdwy anhygoel sydd ar gael ar Land Explorer.
- Mae gan bob partner RGS eu gallu mewngofnodi eu hunain i Land Explorer.
- Data a rennir gydag awdurdod lleol i gefnogi polisi seilwaith gwyrdd.

Bydd data a defnydd o'r map yn parhau y tu hwnt i ddiwedd y prosiect.



## 4.0 RHANDIROEDD

Cynullodd Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol (SFG) Dîm Datblygu Rhandiroedd cyntaf Cymru i gefnogi tîrfeddianwyr a rheolwyr i gwrdd â'r galw cynyddol am ddarpariaeth ddigonol o rhandiroedd, ac i wella mynediad i'r rhai sy'n aml yn cael eu gwthio i'r cyrion o fannau gwyrdd a bwyd iach.

Nod y ffrwd waith oedd ymateb i ddymuniadau cymunedau mewn perthynas â rhandiroedd, a darparu cefnogaeth i helpu i'w cyflawni. Roedd ei ffocws felly yn wahanol wrth edrych y tu hwnt i safleoedd statudol, a thu hwnt i flaenoriaethau a gweithgareddau dan arweiniad awdurdodau lleol. Trwy alluogi sefydlu lleiniau newydd roedd yn ceisio cynnig mynediad i fwy o bobl at dyfu a'i fanteision. Er bod y ffrwd waith mewn cysylltiad â Llywodraeth Cymru a'i hymgysylltiad â chyfrifoldebau awdurdodau lleol dros rhandiroedd, roedd ei ffocws yn wahanol ac yn gyflenwol. Roedd yna ddyhead hefyd y gallai ei ddull wedi'i yrru gan y gymuned ysbrydoli awdurdodau lleol i fod yn fwy ymatebol na chyfeiriol yn eu rheolaeth rhandiroedd eu hunain.



## 4.1 GWEITHGAREDD AC ALLBYNNAU

Mae'r ffrwd waith wedi cyflawni (hyd at ddiwedd mis Mai 2023):

**5** cyfarfod o Fforwm Rhandiroedd Cymru gyda chyfanswm o **109** yn mynychu

**17** safle rhandir yn derbyn

**4** sesiwn hyfforddi i grwpiau/cymunedau rhandir

**1** sesiwn hyfforddi i dirfeddianwyr

**420** o blotiau rhandir wedi'u creu

**Adnodd ar-lein wedi'i greu:**

Cyngor i dyfwyr a cheiswyr tir yng Nghymru



Un o brif nodweddion y ddarpariaeth oedd cynnig arian cyfalaf i grwpiau er mwyn eu galluogi i brynu deunyddiau i wella seilwaith rhandiroedd, gan ymateb eto i flaenoriaethau cymunedau.

Yn ogystal â'r cynnig o gyllid, rhoddodd y ffrwd waith gymorth i grwpiau cymunedol, gan gynnwys cyngor arbenigol gan Wasanaeth Cyngori Tir Cymunedol (CLAS) sy'n arbennig o werthfawr wrth drafod mynediad i safleoedd newydd a chysylltu â thirfeddianwyr.

Er mwyn cefnogi'r rhai sy'n rheoli safleoedd rhandiroedd, sefydlodd y prosiect Fforwm Rhandiroedd Cymru sy'n cyfarfod bob chwarter, ar-lein, ac mae amrywiaeth o randdeiliaid yn bresennol, gan gynnwys swyddogion awdurdodau lleol, grwpiau rhandiroedd presennol a darpar grwpiau rhandiroedd a sefydliadau'r trydydd sector sydd â diddordeb mewn darpariaeth bwyd lleol. Hwylusodd tîm SFG y cyfarfodydd hyn a cheisio canolbwyntio trafodaeth a chyfnewid syniadau ar faterion gafodd eu blaenoriaethu gan gyfranogwyr. Fe wnaethant hefyd ddarparu sesiynau hyfforddi i'r rhai sy'n rheoli safleoedd rhandiroedd, a chynhyrchu cyfres o adnoddau ar-lein yn rhannu cyngor ac arweiniad.





## 4.2 EFFEITHIAU A DEILLIANNAU

Mae crynodeb o'r cynnydd yn erbyn canlyniadau arfaethedig y prosiect yn Nhabl 5. Mae canlyniadau diriaethol yn y cymunedau a gefnogir i wella neu sefydlu rhandiroedd. Lle mae grwpiau wedi derbyn cymorth ariannol, mae hyn wedi galluogi gwella safleoedd, er enghraifft sefydlu cynaeafu dŵr a dyfrhau. Mae hefyd wedi golygu y gallai safleoedd newydd gael eu cyflenwi â seilwaith sylfaenol fel cysgod a lleiniau sy'n barod ar gyfer tyfu, gan ei gwneud hi'n haws i ddeiliaid lleiniau ddechrau tyfu. Ar adeg gwerthuso roedd rhywfaint o weithgarwch rhagorol o hyd, ac nid oedd pob grŵp a dderbyniodd gyllid wedi gweithredu eu gweithgaredd eto. Dyrannwyd llawer o'r cyllid yn eithaf diweddar sy'n golygu ei bod yn rhy gynnar i sefydlu sut mae deiliaid lleiniau wedi elwa o safleoedd sydd newydd eu creu neu eu gwella. Mae'r tîm yn bwriadu dilyn detholiad ohonynt yn 2024 i gasglu mewnwelediadau i effeithiau tymor hwy.

Y tu hwnt i'r safleoedd hyn, buddiolwyr uniongyrchol eraill y prosiect yw'r "rhai sy'n gallu darparu'r safleoedd neu eu tyfu" trwy gefnogaeth a rhwydweithio a ddarperir. Mae SFG hefyd wedi elwa mewn dwy ffordd allweddol, yn gyntaf cawsant olwg ar rwystrau ac anghenion cymorth yn y dyfodol a fydd yn hysbysu eu gwaith yn y dyfodol, ac yn y tymor hir felly'n galluogi rheoli rhandiroedd i gael ei arwain yn fwy cymunedol, ac i fwy o leiniau fod ar gael. Yn ail, mae'r tîm yn teimlo bod y sefydliad bellach yn cael ei gydnabod am ei waith mewn perthynas â rhandiroedd, gan ehangu ei gyrhaeddiad.



### DEILLIANT

**O1** Mae tîrfeddianwyr a rheolwyr yn ymwybodol o bwysigrwydd darpariaeth a'r ffordd orau i ateb y galw am ddarpariaeth rhandiroedd digonol.

**O2** D2 Gwella mynediad i fannau gwyrdd a bwyd iach i'r rhai sy'n aml yn cael eu gwthio i'r cyrion o'r rhain, gan gynyddu lles

**O3** Mae gan aelodau'r fforwm hyder yn eu cymunedau ac maent yn caniatáu i rhandiroedd weithredu'n effeithiol

**O4** Mae SFG a WAF wedi'u sefydlu fel arbenigwyr ac actorion blaenllaw mewn perthynas â darpariaeth rhandiroedd yng Nghymru

**O5** Cysylltiadau wedi'u brocera rhwng tîrfeddianwyr/rheolwyr a thimau rhandiroedd sy'n cael eu rhedeg gan y gymuned, gan wella cyfathrebu a galluogi grwpiau rhandiroedd sy'n cael eu rhedeg yn well

**O6** Mae adnoddau rhandiroedd SFG yn ysgogi'r cyflenwad (i ateb y galw)

**O7** Mae WAF ac SFG yn nodi meysydd polisi a deddfwriaeth sy'n cyflwyno rhwystrau neu gyfleoedd mewn perthynas â rhandiroedd

**O8** Codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ar draws sectorau eraill o gysylltiadau rhwng tlodi bwyd a bioamrywiaeth / GI isel

**O9** Cymunedau yn ymgysylltu'n gydweithredol a chyflawni bioamrywiaeth / GI yn cynyddu

### CYNNYDD

Sefydlwyd WAF i ddarparu cefnogaeth, rhwydweithio a chyfnwid arfer gorau

17 o safleoedd rhandiroedd wedi'u gwella  
420 o leiniau rhandir newydd wedi'u creu

Sefydlwyd WAF i ddarparu cefnogaeth, rhwydweithio a chyfnwid arfer gorau

SFG nawr yn cael ei gydnabod am ei waith gyda rhandiroedd, gan ehangu ei gyrhaeddiad

Bu cefnogaeth yn gyfrwng i alluogi 3 safle i sicrhau prydles tir sy'n eiddo cyhoeddus i'w ddefnyddio gan y gymuned

Pecyn cymorth ar gael yn gyhoeddus

Mae SFG wedi adnabod dysgu gan WAF i'w hyrwyddo ar ôl y prosiect

Galluogodd y cyllido grwpiau cymunedol i ddarparu mwy o ofodau bioamrywiol

### TYSTIOLAETH

Adborth cyfranogwr WAF

Cyfweliadau ansoddol

Data monitro

Adborth cyfranogwr WAF

Cyfweliad arweiniol WS

Adborth yn dilyn hyfforddiant

Cyfweliadau ansoddol

Arweinydd WS

Cyfweliadau ansoddol

TABL 5: Cynnydd Ffrwd Waith 1 gyda deilliannau





Er bod gweithgaredd arall yn canolbwyntio ar randiroedd yn digwydd yng Nghymru, mae rhesymau da dros ddisgwyl bod gan y prosiect hwn ganlyniadau unigryw y gellir eu priodoli iddo. Yn gyntaf, roedd darparu cymorth ariannol i safleoedd a grwpiau yn galluogi pryniannau na fyddai wedi bod yn bosibl heb fuddsoddiad o'r fath. Nododd buddiolwyr yn arbennig yr hyblygrwydd yn y cynllun ariannu a oedd yn caniatáu iddyn nhw sicrhau cefnogaeth y mae mawr ei hangen ar gyfer gwaith hanfodol, ond llai 'swynol'. Er enghraifft, cyfranogwr a dderbyniodd gyllid i gael gwared ar goncrid, hen bridd a disodli strwythurau pren mewn safle a esgeuluswyd, y bu'n ei chael hi'n anodd denu arianwyr ar eu cyfer, gwell bioamrywiaeth a hygyrchedd. Yn yr un modd, dywedodd llawer o gyfranogwyr sut y gwnaeth yr arian ar gyfer gwelliannau hanfodol i safleoedd eu galluogi i wneud eu safleoedd yn hygyrch i gymunedau newydd:

*“Mae'r mynediad presennol i'r safle waelod i lawr grisiau, ond gyda'r arian roedd modd i ni greu llwybr cerdded graddedig i lawr. Felly gall pobl sydd ddim mor ffit neu ddim mor iach neu ddim mor sionc gael mynediad i'r safle cyfan, yn hytrach na dim ond yr un uchaf.”*

(Buddiolwr 2 FfW1)

I rai buddiolwyr, roedd y gefnogaeth hefyd yn galluogi gwelliant i'w dull ecogyfeillgar o dyfu:

*“Mae wedi caniatáu i ni ei ymgorffori i mewn i adeiladu'r rhandiroedd. Roedden nhw'n laswellt wedi gordyfu, felly ddim yn arbennig o amrywiol. Felly lle rydyn ni wedi creu neu adnewyddu rhai o'r rhandiroedd a chreu'r rhai eraill, mae wedi caniatáu i ni wneud mwy [o ran bioamrywiaeth], ond nid wyf yn gwybod a yw wedi newid y ffordd yr ydym yn meddwl amdano felly.”*

(Buddiolwr 3 FfW1)

Dywedodd llawer fod y cyllid wedi cyflymu eu gwaith yn sylweddol, cyfraniad allweddol o'r ffrwd waith hon:

*“Oherwydd ein bod ni'n griw o wirfoddolwyr, rydyn ni'n gwneud yr hyn rydyn ni awydd ei wneud, yn hytrach na'r hyn a fyddai ar y cyfan, yn well bwriad. Felly trwy gael y peth hwn i ganolbwyntio arno, wedi dweud hynny, dyma'r peth sydd gennym i adeiladu arno. A dyma beth sydd gennym ni ein £5000 ar ei gyfer, mae wedi golygu ein bod ni wedi gallu canolbwyntio ar brosiect cyfanswm, yn hytrach na gwneud llawer o bethau neis yn unig. Felly rwy'n credu mai'r fantais yn y pen draw yw cyflymder, bydd llawer mwy o ymgysylltu â'r gymuned ar lawr gwlad”*

(Buddiolwr 4 FfW1)

Mae cefnogaeth gwybodaeth a sgiliau a ddarparwyd drwy WAF a hyfforddiant wedi galluogi buddiolwyr i ddysgu mwy am fioamrywiaeth a chynnal a chadw seilwaith gwyrdd.



Adroddodd yr holl gyfranogwyr mewn digwyddiadau hyfforddi gynnydd mewn gwybodaeth ar drefnu a chynnal a chadw rhandiroedd. Roedd adborth yn cynnwys:

*“Gwybodaeth gynhwysfawr drwyadl gyda digon o ddolenni i ddatblygu gwybodaeth.”*

(Hyfforddiant sefydlu a rhedeg rhandiroedd (Gorllewin Cymru) cyfranogwr 1)

*“Ar hyn o bryd rydym wrthi'n sefydlu Cymdeithas Rhandiroedd ac yma cawsom lawer o wybodaeth bwysig a syniadau da i'w hymgorffori.”*

(Hyfforddiant sefydlu a rhedeg rhandiroedd (Gorllewin Cymru) cyfranogwr 2)

Yn ail, mae poblogrwydd cyfarfodydd WAF yn awgrymu bod y rhwydwaith hwn yn mynd i'r afael ag angen nad yw'n cael ei ateb fel arall. Yn drydydd, mae mwyafrif y gweithgarwch a gefnogir gan y cyhoedd ar randiroedd yn canolbwyntio ar gyfrifoldebau awdurdodau lleol tra bod gan y prosiect hwn ffocws amgen ar safleoedd a arweinir gan y gymuned.

Mae arwyddion hefyd bod y prosiect yn cael ei gydnabod fel un sy'n darparu dull unigryw a gwerthfawr: mae rheolwyr rhandiroedd a thirfeddianwyr o Loegr wedi cymryd rhan mewn digwyddiadau hyfforddi, ac mae'n ymddangos eu bod yn cydnabod bod “Cymru'n bendant yn arwain y ffordd yn y gwaith hwn”.





## 4.3 HERIAU

Arweiniodd oedi wrth ddechrau gweithgaredd prosiect at oedi yn yr alwad am geisiadau am gymorth ariannol, a'r canlyniad oedd bod dyraniad y gronfa wedi'i ganolbwyntio yn ddiweddarach yn y prosiect na'r bwriad. I ymgeiswyr llwyddiannus yn rownd dau, arweiniodd hyn at amserlenni tynn iawn i wneud cais ac i wario'r cyllid. Awgrymodd buddiolwyr dri pheth a helpodd:

**A** Cael 'rhestr ddymuniadau' wedi'i chyd-ddylunio'n barod i droi'n gais yn gyflym (Buddiolwr 3 FfW1)

**B** ar ôl sefydlu perthynas ag SFG sy'n rhoi ymwybyddiaeth am y gefnogaeth barhaus unigryw trwy gydol y broses ymgeisio, a

**C** pherthynas ag SFG neu fod yn ymwybodol bod hyn yn rhywbeth y gallant ei ddefnyddio

I leiafrif o gyfranogwyr a allai fod wedi arfer â gwahanol berthnasod gwaith gyda chyllidwyr, roedd diffyg eglurder ynghylch y gefnogaeth barhaus y mae SFG yn ei darparu. Er enghraifft, awgrymodd un cyfranogwr newydd iawn i sefydlu safle rhandiroedd a heb berthynas flaenorol ag SFG er bod ganddynt syniad bras o'r hyn y maent yn ei wneud, byddent yn croesawu mwy o gyngor.

*"Yn syml, fe wnes i anfon rhestr o bethau a dweud, dyma beth ydyn ni'n meddwl amdany'n nhw. Ydy hynny'n swnio'n iawn? Ac fe ddaethon nhw'n ôl a dweud, Ydy. Felly doedd y cysylltiad ddim yn mynd y tu hwnt i hynny. Ond efallai pe bawn i'n ceisio gofyn y cwestiynau iawn, efallai y byddwn yn cael gwell atebion, ond doeddwn i ddim yn gwybod y math o help y gallwn ymgysylltu ag ef."*

(Buddiolwr 4 FfW1)

Roedd ymatebion i'r alwad gyntaf hefyd wedi canfod nad oedd grwpiau â diddordeb mor bell ymlaen gyda'u cynlluniau â'r disgwyl, gan olygu nad

oedden nhw'n barod i dderbyn arian. Roedd y ddau ffactor yn ei gwneud hi'n fwy heriol i gwrdd â'r targed a osodwyd, oedd eisoes yn heriol, ar gyfer nifer y lleiniau newydd a grëwyd.

Parhaodd yn heriol i sicrhau diddordeb gan dirfeddianwyr oedd eisiau galluogi rhandiroedd newydd; nid oedd yr alwad gyntaf am ddatganiadau o ddiddordeb yn nodi unrhyw safleoedd addas ar gyfer buddsoddiad cyfalaf. Awgrymodd y tîm y gallai'r cyd-destun deddfwriaethol sy'n gysylltiedig â rhandiroedd atal awdurdodau a deiliaid tir rhag cynnig safleoedd. Roeddent hefyd yn ei chael hi'n anoddach na'r disgwyl i ymgysylltu â thirfeddianwyr preifat, o ran ymgysylltu â'r gynulleidfa briodol, a deall beth allai eu cymell i droi rhywfaint o dir yn rhandiroedd. Er enghraifft, canfuwyd bod gan gymdeithasau tai sydd â safleoedd a diddordeb mewn darparu mannau gwyrdd i denantiaid fwy o ddiddordeb mewn gerddi cymunedol na lleiniau rhandiroedd i'w dal gan unigolion. Pan oedd tirfeddianwyr yn ymgysylltu, roedd prosesau o drefnu caniatâd a phrydles yn araf, gydag oedi wedyn ar weithgarwch arall. Roedd cefnogaeth arbenigol gan CLAS yn werthfawr ar gyfer negodi'r prosesau hyn, ond ni all camau gweinyddol hanfodol ddigwydd yn gyflymach o reidrwydd.

Nododd y tîm fod holl sesiynau WAF wedi'u cynnal ar-lein oherwydd cyfyngiadau cysylltiedig â Covid-19 i ddechrau, yna er mwyn galluogi cyfranogiad ledled Cymru. Canfuwyd bod hyn yn amharu ar drafodaeth mewn rhai achosion, ac awgrymwyd y gallai cyfarfodydd wyneb yn wyneb fod yn fwy buddiol. Roeddent hefyd yn cydnabod y gellid bod wedi cyfathrebu'r dysgu a'r profiadau o'r ffrwd waith yn ehangach, ond disgwylir y bydd hyrwyddo'n cael ei wella yn ystod y cyfathrebu terfynol ynghylch y prosiect RGS. Roedd y tîm ar gyfer y ffrwd waith hon yn cael trafferth gyda'r capasiti i gyflawni'r holl ddyheadau, ac yn ei chael yn anodd rheoli'r llwyth gwaith, yn enwedig wrth weithio ar draws rhannau eraill o'r prosiect.

## 4.4 GWERSI A GWADDOL I'R DYFODOL

Gwaddol cliraf y ffrwd waith hon yw'r arbenigedd a'r enw da y mae SFG wedi'i sefydlu ar gyfer gweithio ar randoedd. Mae ymateb cymunedau i'r prosiect yn awgrymu nad ydynt wedi cael cefnogaeth o'r blaen i gael dweud eu dweud mewn safleoedd rhandiroedd, a'u bod yn croesawu gwaith i ymgysylltu â nhw. Nid yw hyn heb risg oherwydd efallai eu bod wedi creu'r galw am gefnogaeth y gellir ei ddarparu y tu hwnt i'r prosiect hwn dim ond os ydynt yn canfod cyllid pellach ar gyfer capasiti o fewn y sefydliad. Mae'r tîm yn hyderus bod eu gwaith wedi dangos bod dull o reoli rhandiroedd sy'n canolbwyntio ar fod yn ymatebol i gymunedau yn un effeithiol. Maen nhw wedi hyrwyddo'r neges hon i Lywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill, ac maen nhw'n cael eu defnyddio ganddyn nhw i gynghori ar gynlluniau awdurdodau lleol. Mae SFG yn gobeithio y bydd hyn yn dylanwadu ar eu dull gweithredu, gan annog awdurdodau lleol *"i siarad â chymunedau yn hytrach na dyfalu"* yr hyn y mae cymunedau ei eisiau, gan arwain at fuddsoddi mwy effeithiol. Bydd y negeseuon hyn a gwersi eraill a ddysgwyd drwy'r prosiect yn cael eu datblygu drwy waith eiriolaeth a chyfathrebu gan SFG. Maent hefyd yn disgwyl chwilio am gyllid i alluogi parhad cefnogaeth debyg i gymunedau, y tu hwnt i'r gwasanaeth CLAS sy'n parhau.

Mae'r tîm yn gweld angen parhaus am drafodaethau'r fforwm, ond dydyn nhw ddim yn disgwyl bod mewn sefyllfa i barhau i weithredu'n annibynnol. Maen nhw'n gobeithio adnabod capasiti i ddarparu hwyluso cyfarfodydd fforwm y tu hwnt i ddiwedd y prosiect.





## 5.0 HYBIAU BWYD

Bu gweithio gyda Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol (SFG), Open Food Network UK (OFN), Cymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu Cymru (DTA) a Chynghrair Gweithwyr y Tir (LWA) yn gyfrwng i helpu sefydlu pump o hybiau bwyd mentrus a chynaliadwy mewn cymunedau yng Nghymru. Mae pob hyb yn ceisio darparu bwyd sy'n dda i bobl, yn dda i'r amgylchedd ac yn dda i fusnesau lleol drwy hybu cadwyni cyflenwi byr.

Yn dilyn proses ymgeisio gystadleuol a dderbyniodd 37 o geisiadau, dewiswyd pum sefydliad i dderbyn cefnogaeth i'w gweledigaeth:

- Siop Griffiths, Penygroes
- Partneriaeth Ogwen, Bethesda
- Canolfan Maerdy, Rhydaman
- EcoDewi, Tyddewi
- Hyb Bwyd Cwm sydd wedi'i lleoli yn Croeso i'n Coedwig, Rhondda

Mae'r pum hyb bwyd bellach wedi'u sefydlu ar blatfform masnachu ar-lein OFN sy'n golygu y gallant hyrwyddo cynnyrch lleol i ddefnyddwyr, a chydlynu danfoniadau neu bryniant cwsmeriaid.

Y nod yn y pen draw yn ôl OFN yw *"cael bwyd sy'n cael ei gynhyrchu'n fwy lleol i gartrefi a phrydau pobl"* (Arweinydd FfW2). Y bwriad hefyd yw y bydd sefydlu hybiau newydd yng Nghymru yn bwydo rhwydweithiau fydd yn eu tro yn datblygu i fod yn hybiau a chefnogaeth bellach i gynhyrchwyr lleol.



## 5.1 GWEITHGAREDD AC ALLBYNNAU

Mae'r ffrwd waith wedi cyflawni:

Dyfarnu **£80,581** i'r pum Hyb Bwyd

Mae hybiau wedi gwerthu i **443** o gwsmeriaid, gan werthu cynnyrch gan **83** o gynhyrchwyr gwerth **£110,870**

**5** sesiwn mentora OFN gyda'r pum hyb bwyd, a sesiynau gyda DTA i ddilyn

**13** sesiwn hyfforddi ar-lein ar gyfer hybiau bwyd ac eraill sydd â diddordeb mewn sefydlu hybiau yng Nghymru

**2** gweminar cymheiriad i gymheiriad ac **1** sesiwn dysgu wyneb yn wyneb

Wedi cynhyrchu fideo am yr hybiau bwyd:  
<https://vimeo.com/796652065/60d0878223>

Cyfieithiad Cymraeg o blatfform masnachu OFN sy'n caniatáu i gwsmeriaid brynu yn Gymraeg

Cynhyrchwyd **3** astudiaeth achos ddwyieithog

Sesiwn yng Nghynhadledd Gwir Fwyd a Ffermio Cymru: 'Bwyd cymunedol: iechyd, cydraddoldeb a dathlu mewn cyfnodau anodd'

Dechreuodd y gwaith cyflenwi gyda'r angen i adnabod yr hyn a alwdd y tîm yn *"egino hybiau bwyd posibl"*, dod i adnabod y sefydliadau y tu ôl iddynt, a sut y byddent yn cyfrannu at nodau'r prosiect. Ar ôl eu dewis, cafodd y pump eu cefnogi gyda'r hyn yr oedd ei angen arnynt i ddod yn hybiau hyfyw. Roedd cryfder a nifer y ceisiadau a dderbyniwyd yn awgrymu y gellid bod wedi cefnogi llawer mwy na phump i gyflawni'r nodau.

Y gefnogaeth allweddol a gyflwynwyd i'r hybiau oedd: darparu cymorth ariannol i dalu rheolwr hyb a'u galluogodd i gyflogi rheolwr rhan-amser, a phrynu deunyddiau i gefnogi ei weithrediad, gan gynnwys gosodiadau a ffitiadau a deunyddiau marchnata. Roedd yr hybiau hefyd wedi'u cysylltu â rhwydweithiau o hybiau a chyflenwyr eraill. Darparodd y tîm wasanaeth mentora busnes, gweminarau a chanllawiau eraill.





## 5.2 EFFEITHIAU A DEILLIANNAU

Mae cynnydd yn erbyn pob canlyniad a fwriedir ar gyfer y ffrwd waith wedi'i grynhoi yn Nhabl 6. Hyd yn hyn, mae'r hybiau bwyd wedi gweini bwyd i 443 o gwsmeriaid gan 83 o gynhyrchwyr gydag archebion gwerth £110,870.10. Mae hyn yn cynnwys 55,566 kg o ffrwythau a llysiau lleol a 50,782 kg o gig lleol.<sup>3</sup>

DEILLIANT	CYNNYDD	TYSTIOLAETH
<b>O1</b> Mae cartrefi sy'n wynebu diffyg diogeled bwyd yn gallu cael mynediad i fwydydd iach	Gwnaeth hybiau bwyd fwyd lleol ar gael, ond gyda chanlyniadau cymysg i gartrefi â diffyg diogeled bwyd yng nghyd-destun ehangach yr argyfwng costau byw.	Cyfweliadau ansoddol Data'r plattform OFN
<b>O2</b> Mae hybiau bwyd yn cael eu cefnogi'n dda i oresgyn heriau wrth sefydlu eu hunain - cafodd 5 hyb bwyd eu sefydlu	Cafodd 5 hyb bwyd eu sefydlu, 3 yn masnachu erbyn diwedd y prosiect - 1 yn segur ac 1 yn ail-lansio'n fuan mewn fformat gwahanol	Cyfweliadau ansoddol Cyfweliad arweiniol WS Holiadur sefydliad partner ar-lein
<b>O3</b> Hybiau bwyd ychwanegol yn cael eu sefydlu ar draws Cymru gan gynyddu'r cyflenwad a'r defnydd o fwyd wedi'i gynhyrchu'n lleol. Maen nhw'n gallu cael gafael ar gynnyrch i'w werthu	Mae hybiau bwyd wedi gweithio gyda 83 o gynhyrchwyr, yn creu llwybr newydd, mwy effeithlon i'r farchnad	Cyfweliadau ansoddol Data'r plattform OFN Holiadur sefydliad partner ar-lein
<b>O4</b> Mae hybiau bwyd yn gallu monitro, gwerthuso a gwella eu heffaith economaidd	Cynnydd cymysg - mae mynediad i ddata gwerthiant yn bosibl ond mae rhai'n brin o'r capasiti i'w werthuso	Cyfweliadau ansoddol Arweinydd WS
<b>O5</b> Hyfforddi rheolwyr hybiau bwyd mewn sgiliau i reoli hybiau bwyd yn llwyddiannus	Adroddodd pob cyfranogwr gynnydd mewn gwybodaeth ar reoli hybiau bwyd, yn enwedig strategaethau marchnata, y defnydd o gyfryngau cymdeithasol a defnyddio plattform OFN	Cyfweliadau ansoddol Ffurflenni adborth digwyddiadau
<b>O6</b> Cyfrannu at economi cryfach drwy greu swyddi newydd gyda'r hybiau bwyd	Cafodd 5 swydd eu creu	Cyfweliadau ansoddol Data monitro

TABL 6: Cynnydd FfW2 gyda deilliannau

Effaith fwyaf diriaethol y ffrwd waith oedd "y broses o ddod o hyd i bobl sydd angen yr arian a chael yr arian hwnnw atyn nhw" (Arweinydd FfW2). Roedd y rhan fwyaf o'r cyllid hwn yn benodol ar gyfer cyflogi rheolwr ym mhob hyb bwyd.

<sup>3</sup>Data'r plattform OFN adalwyd 12/05/2023

## 5.2.1 RHEOLWYR HYBIAU BWYD

Enillodd rheolwyr hybiau bwyd sgiliau rheoli a thechnegol trwy gefnogaeth a ddarparwyd gan OFN a DTA (gweminarau, sesiynau tiwtorial un-i-un), dysgu gan eraill ac o 'ddysgu wrth fynd ymlaen' (Buddiolwr 3 FfW2, Gogledd Cymru). Roeddent yn gwerthfawrogi cefnogaeth wedi'i theilwra i anghenion y gwahanol hybiau, yn enwedig o ran marchnata, neu gyda 'syniadau darlun mawr' (Buddiolwr 1 FfW2, Gogledd Cymru) ar sut i ddenu mwy o ddefnyddwyr. Er enghraifft, o ganlyniad, llwyddodd un rheolwr hyb bwyd i greu strategaeth farchnata fwy llwyddiannus a gwella'u defnydd o'r cyfryngau cymdeithasol. Roedd cyfranogwyr hefyd yn gwerthfawrogi'r gefnogaeth dechnolegol a ddarparwyd gan OFN i sefydlu a masnachu ar y plattform. Nododd un cyfranogwr fod rhai cynhyrchwyr y maen nhw'n gweithio gyda nhw yn cael trafferth gyda llythrennedd digidol ac efallai na fyddant wedi gallu ymuno fel arall:


*"Mae [enw cyn-gydllynydd hyb] yn llai technegol na fi, o bosib, ac roedd hi'n gwerthfawrogi'n fawr yr help gafodd hi gan bawb oedd yn sefydlu. Rwy'n credu ei fod yn dipyn o waith, oherwydd mae llawer o'n cynhyrchwyr hefyd yn llai technegol. Felly dwi'n credu bod llawer o ddal dwylo wedi digwydd i gael pobl i ddefnyddio'r plattform."*  
(Buddiolwr 1 FfW2, Gogledd Cymru)

Cawsant wybodaeth a sgiliau ychwanegol o rwydweithio gyda heriau cyffredin ar draws clwstwr Cymru a dysgu yn eu sgil, ond hefyd y tu hwnt i Gymru, trwy gyfrwng rhwydwaith OFN. Roedd yn well ganddyn nhw ddysgu o leoedd sy'n debycach iddyn nhw yn sefydliadol, yn hytrach nag yn ddaearyddol. Er enghraifft, ysbrydolwyd un hyb i fynd at gyflogwr sector cyhoeddus i sefydlu manau casglu, ar ôl dysgu am hynny mewn

ymweliad a drefnwyd gan OFN i hyb bwyd Dyffryn Tamar yn Nyfnaint, Lloegr. Cafwyd barn gymysg ar werth y cyngor busnes a ddarparwyd gan y mentoriaid. Ar yr un llaw roedd cyfranogwyr yn eu hystyried yn ddefnyddiol ar gyfer rhoi persbectif gwahanol, "cael rhywun drafod syniadau â nhw" (Buddiolwr 2 FfW2, De Cymru). Ar y llaw arall, nododd yr holl gyfranogwyr fod ganddyn nhw lai o eglurder ar sut i ddefnyddio'r cynnig mentora yn llawn ac nad oedden nhw'n glir ar sut y gallai ddiwallu eu hanghenion penodol nhw:

*"Ro'n i'n meddwl ei bod hi [y mentor] yn help mawr. Mae hi'n dweud - unrhyw beth rydych chi ei eisiau, unrhyw beth y galla i helpu ag ef - ond dwi'n ceisio meddwl am beth y gallai hi roi help i mi arno. Dydw i ddim yn gwybod, achos dwi'n credu mai'r math o help sydd ei angen, chi'n gwybod, yw cael cysylltiadau â gweithleoedd, neu ddod o hyd i ffynonellau ariannu. Fe hoffwn i ddefnyddio eu help, ond dwi ddim yn hollol siŵr sut neu beth y gallan nhw helpu yn ei gylch."*  
(Buddiolwr 1 FfW2, Gogledd Cymru)

Creodd pob hyb swyddi gwirfoddoli newydd hefyd, ond i rai ohonynt cododd hyn gwestiynau ynghylch a yw'n gwneud yr hyb yn gynaliadwy ai peidio.



### 5.2.2 CYNHYRCHWYR A DEFNYDDWYR

Creodd yr hybiau allfeydd i gynhyrchwyr lleol gyrraedd mwy o gwsmeriaid. Heb fod yn rhan o'r prosiect yn uniongyrchol *"dyna'r bobl sy'n derbyn effaith uniongyrchol hyn"* (Arweinydd FfW2). Nododd OFN sut maen nhw'n elwa o werthu cynnyrch trwy'r hybiau yn hytrach na thrwy gadwyni cyflenwi eraill: *"Dwi'n gwybod eu bod yn mynd i gael yr elw gorau posibl wrth werthu drwy hyb bwyd"* wrth i gynhyrchwyr gadw rheolaeth ar osod prisiau.

Nododd y cyfranogwyr fod hybiau'n darparu ffyrdd mwy effeithlon o werthu o gymharu â chyfleoedd gwerthu lleol eraill, megis marchnadoedd ffermwyr, gan gynnwys cael un man gollwng, archebion manwl sy'n rhwystro gwastraff bwyd, a chael mynediad i gwsmeriaid na fydden nhw fel arall:

*"Felly bydden nhw [y cynhyrchwyr] i gyd yn gwerthu ar wahân. Dwi'n gwybod eich bod yn adnabod un fenyw sy'n gwneud brownies drwy'r post. Ond mae hwn [yr hyb bwyd] yn daliad eithaf da o arian i'w busnes yn wythnosol, gwerthiant ychwanegol"*

(Buddiolwr 2 FfW2, De Cymru)

Amlygodd tîm OFN y budd o sefydlu dau hyb yn yr un rhanbarth daearyddol, gan gynnig potensial i ddatblygu rhwydweithiau da o gynhyrchwyr lleol. Maen nhw wedi cefnogi'r hybiau hyn i gysylltu â rhwydwaith rhanbarthol tebyg yn Lloegr i archwilio sut i efelychu eu model dosbarthu rhanbarthol. Mae'r model dosbarthu ar gyfer cysylltu'r hybiau bellach wedi'i sefydlu gan ddau o'n hybiau yng Ngogledd Cymru ac mae cwsmeriaid yn elwa o ddewis ehangach o gynhyrchion.

Roedd hybiau bwyd yn sicrhau bod bwyd lleol ar gael i ddefnyddwyr yn lleol. Awgrymodd tîm OFN mai *"dyma'r bobl sy'n elwa"*. Maen nhw'n hyderus bod cwsmeriaid sy'n defnyddio'r hybiau newydd yn elwa:

*"Dwi'n gwybod bod y cwsmeriaid, bod y bwyd maen nhw'n ei gael yn anhygoel, ac maen nhw'n falch iawn o'r ffaith eu bod nhw'n prynu bwyd lleol, mae'n gwneud iddyn nhw deimlo'n dda"*

(Arweinydd FfW2)

Mae hyn yn arbennig o wir wrth gynnig gwasanaeth dosbarthu mewn ardaloedd gwledig:

*"Mae gennym gwsmeriaid rheolaidd, ac maen nhw'n gadarnhaol iawn am y gwasanaeth. Mae rhai o'r cwsmeriaid hynny yn gaeth i'w cartrefi ac yn methu gadael y tŷ. Felly gyda'r math hwnnw o wasanaeth, ei ollwng wrth y drws iddyn nhw sy'n gwneud gwahaniaeth enfawr"*

(Buddiolwr 3 FfW2, Gogledd Cymru)

Adroddodd pob hyb bwyd am heriau wrth geisio sicrhau bod bwyd yn hygyrch i aelwydydd sy'n profi diffyg diogeled bwyd (gweler isod).



### 5.2.3 EFFEITHIAU NA CHAFODD EU RHAGWELD

Roedd rhai effeithiau annisgwyl yn fuddiol i'r gymuned: adroddodd rhai cyfranogwyr am well cydlynu cymdeithasol drwy hybiau bwyd, gan ddod â gwahanol gymunedau at ei gilydd a mynd i'r afael ag unigedd:

*"Rydyn ni'n cynnal digwyddiadau blasu, ac mae gennym ni fath o gysylltiad lle mae pobl yn cael cwrdd â'i gilydd, ac yna maen nhw'n eistedd o gwmpas a chael sgwrs. Dwi'n hoffi'r elfen o gyswllt cymdeithasol sydd gan yr hyb hwnnw."*

(Buddiolwr 2 FfW2, De Cymru)

O ganlyniad i sefydlu hybiau na fyddai wedi bod yn bosibl fel arall, mae'r prosiect wedi cefnogi cadwyni cyflenwi lleol:

*"Oni bai am yr hyb, byddai pobl yn siopa mewn mannau eraill, a fyddai ganddyn nhw ddim mynediad hawdd i lawer o wahanol fwydydd lleol, achos mae gennych chi gymaint o gynhyrchwyr mewn un lle. Dwi'n meddwl ei fod yn annog pobl i brynu mwy nag y bydden nhw fel arfer, achos mae pawb yn prynu eu llysiau a'r cig. Ac yna'n sydyn, mae siocled, brownies a chacen sbwng, a llawer o bethau eraill yn cael eu hychwanegu hefyd. Felly dwi'n credu ei fod yn helpu gyda faint o fwyd lleol sy'n cael ei fwyta."*

(Buddiolwr 2 FfW3, De Cymru)

Er y gallai rhai o'r hybiau a gefnogir drwy'r prosiect fod wedi datblygu beth bynnag, awgrymodd tîm OFN fod cefnogaeth yn rhoi capasiti iddyn nhw sefydlu beth fydd yn gweithio yn eu hardal, sy'n golygu bod yr hyb yn fwy tebygol o fod yn hyfyw yn y tymor hir.

Awgrymon nhw hefyd, o ystyried effeithiau'r argyfwng costau byw ar ddefnyddwyr a chynhyrchwyr, ei bod yn annhebygol y byddai pawb wedi gallu goroesi'r flwyddyn ddiwethaf heb gefnogaeth allanol. Mae mentora a chefnogaeth gyda chynllunio busnes hefyd yn debygol o fod wedi gwella eu gwydnwch. Fyddai'r hybiau ddim wedi elwa chwaith o gael eu cysylltu â ffrydiau gwaith eraill y prosiect sydd wedi eu helpu i ddatblygu tyfu cymunedol. Mae cyswllt ag SFG drwy'r prosiect hefyd wedi dod â manteision i'r hybiau o ran cyngor a gwybodaeth am gyfleoedd eraill.





## 5.3 HERIAU

Yr her fwyaf amlwg i hybiau bwyd yn ystod cyfnod y prosiect oedd yr argyfwng costau byw a effeithiodd ar gostau cynhyrchu a chyflenwi, yn ogystal â lleihau capasiti gwario defnyddwyr. Arweiniodd hyn at ddau o'r pum hyb yn gweithredu'n fwy fel pantrioedd bwyd, gan ddibynnu ar Fareshare a bwyd dros ben arall, i ateb eu galw lleol. Disgrifiodd tîm OFN hyn fel canlyniad i *"lai o arian yn eu poced a cholli hyder"* (Arweinydd FfW2), y ddau yn gwthio pobl oddi wrth fwyd lleol ac i gyfeiriad archfarchnadoedd. Awgrymodd y rhai oedd yn ymwneud â'r hybiau fod canfyddiad bod bwyd lleol *"ar gyfer pobol posh yn unig"* (buddiolwr FfW3, De Cymru), sy'n eu hatal rhag mynd at rywbeth fel hyb. Nododd un rheolwr hyb, er eu bod wedi gweld mwy o ddi-ddordeb yn ystod pandemig Covid-19, na chafodd hyn ei gynnal:

*"Roedden ni'n cael rhwng 40 a 50 o archebion yr wythnos, a dwi'n meddwl bod pobl yn teimlo ei fod yn gymorth hawdd ei gael tra bod pobl yn ynysu ac yn sownd gartref, a ddim eisiau mynd i'r archfarchnadoedd. Rydyn ni'n bendant wedi colli llawer o gwsmeriaid, ac mae pobl yn ôl yn y gwaith a dydyn nhw ddim gartref i dderbyn y nwyddau ar brynhawn dydd lau. Rydyn ni mewn ardal eithaf tlawd, ac nid hwn yw'r opsiwn rhataf. A nawr bod Aldi yn ôl ar agor, a dyw pobl ddim yn poeni am Covid gymaint... chi'n gwybod."* (Buddiolwr 1 FfW2, Gogledd Cymru)

Ceisiodd gwahanol hybiau bwyd (gyda chefnogaeth OFN a DTA) i oresgyn hyn trwy amrywiol ffyrdd yn dibynnu ar eu hamgylchiadau lleol a'u perthnasoedd presennol, gan gynnwys:

- **Manteisio ar fformat hyblyg yr hyb bwyd sy'n caniatáu gwerthu symiau llai o fwyd a allai fod yn fwy fforddiadwy:** *"(O safbwynt cynhyrchydd) mae'n wych oherwydd gallwch werthu pecyn o 2 olwyth i deulu lleol fyddai'n methu fforddio prynu hanner mochyn, er enghraifft.* (Buddiolwr 2 FfW2, De Cymru)
- **Gweithio gyda dadansoddwr i gymharu data ar gynnyrch hybiau bwyd a chynnyrch archfarchnadoedd, i'w ddefnyddio ar gyfer marchnata.**
- **Integreiddio gwahanol brosiectau y mae'r sefydliadau'n eu cynnig (e.e. gwirfoddolwyr yn symud rhyngddynt, pobl yn cael eu cyfeirio at brosiect gwahanol - hyb bwyd, trafniadaeth gymunedol a phantri bwyd yn gweithio gyda'i gilydd; cyflenwi clwb cinio cymunedol lleol).**
- **Arbrofi gyda sybsideiddio cynnyrch o grantiau eraill neu o gael mynediad i farchnadoedd eraill, er enghraifft pobl ar eu gwyliau.**
- **Yn y dyfodol, roedd hybiau bwyd am roi cynnig ar ffyrdd ychwanegol o wneud eu cynnyrch yn fwy fforddiadwy, gan gynnwys defnyddio 'graddfeydd symudol' ar gyfer cynnyrch neu dudalennau glanio gwahanol ar blatfform OFN.**

Yn ddiweddar, mae OFN wedi cyflwyno nodwedd sy'n caniatáu i reolwyr hybiau bwyd gynnig talebau i siopwyr er mwyn galluogi'r rhai ar incwm isel i archebu'r un bwyd â siopwyr eraill am brisiau is. I ariannu'r hybiau hyn, anogwch siopwyr i wneud cyfraniad gwirfoddol wrth dalu.

Her arall oedd yn wynebu rhai hybiau bwyd oedd diffyg cyflenwyr yn eu hardal leol. O'r pum hyb, llwyddodd tri i sefydlu cysylltiadau parhaus gyda chynhyrchwyr lleol:

*"Rydyn ni wedi profi anawsterau sylweddol gyda nifer gyfyngedig iawn o dyfwyr lleol (ar raddfa gardd farchnad ddibynadwy). Fodd bynnag, mae'r diffygion hyn wedi bod yn wersi pwysig ac wedi codi'r proffil/yr angen i gefnogi mentrau o'r fath yn ein rhanbarth ni."* (Buddiolwr 4 FfW2)

Gyda chefnogaeth OFN a DTA ceisiodd yr hybiau i oresgyn hyn drwy:

- **Weithio mewn partneriaeth ddyfnach i amlygu'r angen i gefnogi'r mentrau hyn yn rhanbarthol ac yn gyfannol (er enghraifft, gan gynnwys canolbwyntio ar sgiliau).**
- **Archwilio manau tyfu amgen ar gyfer cyflenwi cynnyrch – gerddi cymunedol, rhandiroedd.**
- **Annog cyflenwyr 'cegin fach' a swmp brynu cydweithredol..**
- **Cysylltu â hybiau bwyd eraill yn yr ardal, gan greu mwy o bwyntiau casglu i'w gwneud hi'n fwy cyfleus i gwsmeriaid a chynhyrchwyr.**

Awgrymodd y partneriaid y gallai fod wedi bod yn fuddiol ymchwilio i'r ardal leol cyn i hybiau gael eu dewis ar gyfer y prosiect, i fod yn fwy ymwybodol o heriau posibl o ran defnyddwyr a chynhyrchwyr lleol ymlaen llaw.

Roedd yr amgylchedd ariannu ehangach yn golygu bod yr adnoddau a ddarparwyd gan y ffrwd waith (yn enwedig amser rheolwr yr hyb bwyd) yn cael eu defnyddio i gefnogi'r sefydliadau sy'n cynnal yr hybiau bwyd. Nododd tîm OFN fod rheolwyr hybiau bwyd yn brysur iawn ac yn gweithio'n rhan-amser yn bennaf, a bod hynny, ynghyd â chynhyrchwyr prysur iawn yn ei gwneud hi'n anodd cyfathrebu pan fydd angen. Dwysawyd y pwysau ar eu capasiti gan droiant staff, a'r angen i fabwysiadu gweithdrefnau gweinyddol oedd yn ofynnol gan y prosiect, a hynny'n gyflym.

Roedd bod yn brosiect ledled Cymru hefyd yn cyflwyno heriau gan ei fod yn ei gwneud hi'n anodd i'r timau hyb gyfarfod, neu fynd i ymweld ag astudiaethau achos defnyddiol. Teimlwyd bod y ddibyniaeth ar gyfarfodydd ar-lein o ganlyniad yn niweidiol i berthnasoedd; yn ddelfrydol, byddai tîm OFN wedi hoffi mwy o amser wyneb yn wyneb gyda rheolwyr hyb.

## 5.4 GWERSI A GWADDOL I'R DYFODOL

Mae'r pum hyb yn bwriadu parhau y tu hwnt i'r prosiect, a byddant yn cael eu hymgorffori yn y gefnogaeth ehangach sydd ar gael trwy OFN a'i rwydweithiau. Nododd tîm OFN: *"Mae hybiau bwyd yn eithaf gwydn, ac maen nhw'n tueddu i barhau ar ryw ffurf."* Mae'n debyg y byddan nhw'n newid, ond mae OFN yn hyderus yng ngallu'r sefydliadau oedd ynghlwm â'r prosiect i wneud i hyn ddigwydd:

*"Dwi'n credu y byddan nhw'n parhau gyda'r nod o gael bwyd lleol i bobl leol ond gallen nhw edrych yn wahanol."*

(Arweinydd FfW2)

Fel rhan o'r rhwydwaith OFN byddan nhw'n parhau i dderbyn cefnogaeth fel rhan o'r gymuned ehangach o hybiau bwyd ledled y DU. Maen nhw hefyd wedi sefydlu eu rhwydwaith cymheiriad eu hunain a fydd yn eu galluogi i gefnogi ei gilydd a chyfnewid dysgu. Wrth iddyn nhw ddod yn fwy sefydledig, byddan nhw'n trosglwyddo dysgu i hybiau mwy newydd. Mae dod yn rhwydwaith yng Nghymru hefyd yn fuddiol, gan fod gwahaniaethau o ran sut mae hybiau'n gweithredu dros y ffin. Mae sawl sefydliad a wnaeth gais am gymorth ariannol ond na chawsant eu cynnwys yn y prosiect wedi parhau i fod mewn cysylltiad ag OFN ac yn elwa o'u cefnogaeth a'u rhwydweithio.

Nododd tîm OFN fod yr hybiau wedi esblygu mewn gwahanol ffordd, gan ymateb i faterion yn eu hardal, a bod y potensial hwn ar gyfer gwahanol ddulliau yn rhan o'r rhesymeg o ddewis y pum ymgeisydd terfynol. Maent yn cydnabod mai dyma'r ffordd i wneud yr hybiau yn wydn ac yn ymatebol i angen lleol. Mae hyn yn golygu y bydd pob un yn cynnig model o sut y gall hyb edrych y gallai sefydliadau eraill ddysgu ohono yn y dyfodol. Roedd y prosiect hwn yn ddefnyddiol ar gyfer rhoi lle iddyn nhw weithio allan beth y gallan nhw ei wneud i gael bwyd lleol i bobl leol.

Mae dull y prosiect hwn o gefnogi hybiau wedi cael ei hyrwyddo trwy rwydweithiau OFN, gan dynnu sylw ato fel model sy'n werth ei efelychu. O ganlyniad i'w proffil cynyddol yng Nghymru, mae OFN eisoes wedi derbyn dulliau gan awdurdodau lleol ac eraill sy'n ceisio defnyddio'r platform ar-lein. Bydd OFN hefyd yn cadw mewn cysylltiad â phartneriaid y prosiect, a drwy fod yn fwy ymwybodol o'u harbenigedd, bydd yn disgwyl cydweithredu yn y dyfodol pan fydd cyfleoedd addas yn codi.

Mae'r prosiect wedi dangos gwerth sefydliadau sy'n cefnogi'n ariannol i sefydlu hybiau bwyd, felly yn ddelfrydol byddai OFN yn efelychu hyn drwy raglenni cyllido eraill. Byddai buddsoddiad yn cael ei ddefnyddio i gefnogi mwy o hybiau newydd trwy *"arian yn eu pocedi i wneud yr hyn maen nhw am ei wneud"* (Arweinydd FfW2). Byddai cyllid yn uniongyrchol i OFN hefyd yn cynyddu eu gallu i ddarparu cymorth pwrpasol i hybiau newydd.






## 6.0 PERLLANNAU CYMUNEDOL

Nod Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol (SFG) oedd hwyluso datblygiad 10 safle perllan gymunedol newydd a datblygu systemau arloesol ar gyfer cynhyrchu, storio a phrosesu ffrwythau.

Buon nhw'n gweithio gyda chymunedau i beilota, monitro a gwerthuso'r buddion economaidd y mae perllannau cymunedol yn eu darparu yn ogystal â buddion fel cynefinoedd sy'n dal ac yn storio carbon, ac sydd o fudd i beillwyr. Yn ogystal â gwella seilwaith gwyrdd, fe wnaethon nhw geisio sicrhau newid sylweddol mewn cynhyrchu, storio a phrosesu ffrwythau a chynnyrch ffrwythau sy'n eiddo i'r gymuned ar gyfer Cymru.



## 6.1 GWEITHGAREDD AC ALLBYNNAU

Mae'r WS wedi darparu:

Prynu gwerth **£59,529.01** o offer prosesu a storio i **13** o grwpiau cymunedol

Wedi plannu **1,146** o goed ffrwythau a chnau mewn **24** o berllannau

Rhwydwaith Perllannau Cymunedol Cymunedol Cynhyrchiol a fynychwyd gan **158** o gyfranogwyr mewn **16** digwyddiad ar draws Cymru

Rhedeg **10** gweithdy hyfforddi ac ymweliadau astudio.

Rhedodd Ffrwd Waith 3 ddwy rownd o geisiadau i nodi perllannau i'w cefnogi a ble i blannu coed. Nid oedd pob ymgeisydd wedi llwyddo i sicrhau cyllid ar gyfer plannu coed. Yn ogystal â phrynu coed ac offer, cefnogwyd grwpiau i brydlesu offer. Fodd bynnag, roedd y rhwydwaith yn llawer ehangach na'r grŵp o dderbynwyr cyllido.

Cafodd y tîm rheoli perllannau hyfforddiant a chefnogaeth o ar reoli perllannau. Yna cyflwynodd ffrwd waith 3 amrywiaeth o sesiynau hyfforddi ar reoli perllannau, gydag ymweliadau astudio i Bowys. Bu galw di-ben-draw am hyfforddiant tocio. Cafodd safleoedd perllannau eu grwpio gyda'i gilydd yn ôl eu rhanbarth, gyda rhai rhanbarthau'n fwy gweithredol nag eraill. Mewn un rhanbarth, daethpwyd â safleoedd lleol at ei gilydd ar gyfer sesiynau byr ar-lein ac maen nhw wedi parhau i gwrdd wyneb yn wyneb hefyd oherwydd eu bod i gyd yn lleol i'w gilydd.



## 6.2 EFFEITHIAU A DEILLIANNAU

Mae crynodeb o'r cynnydd yn erbyn canlyniadau arfaethedig y prosiect yn Nhabl 7.

DEILLIANT	CYNNYDD	TYSTIOLAETH
<b>O1</b> Mwy o gyfranogiad cymunedol mewn mynediad i dir a'r defnydd ohono	24 perllan newydd wedi'u creu gyda 1146 coeden	Cyfweliadau ansoddol Cyfweliad arweiniol WS
<b>O2</b> Mwy o wybodaeth am reoli perllannau cymunedol a mwy o gysylltiadau gyda mathau eraill o gefnogaeth (adnoddau; sefydliadau eraill)	Nododd mwyafrif helaeth y cyfranogwyr ar draws gwahanol ddigwyddiadau hyfforddi gynnydd yn eu gwybodaeth ar wahanol rannau o reoli perllannau, gan gynnwys tocio neu reoli ar gyfer bioamrywiaeth	Ffurflenni adborth digwyddiadau Cyfweliadau ansoddol
<b>O3</b> Ychwanegu gwerth at gynnyrch Perllan Gymunedol: mwy o gynnyrch / rhagolwg am wneud mwy	Drwy gyflenwi offer, mae'r ffrwd waith wedi galluogi perllannau presennol i gynyddu eu capasiti prosesu	Cyfweliadau ansoddol
<b>O4</b> Cynyddu'r cyflenwad o goed Cymreig i Berllannau Cymunedol Cynhyrchiol Cymru	73% o'r gwariant drwy fusnesau Cymreig £20,772 wedi cael ei wario ar goed ffrwythau a chnau Cymreig  Adroddodd rhai safleoedd fod ganddyn nhw berthynas barhaus gyda'r cyflenwyr coed	Data monitro Cyfweliadau ansoddol
<b>O5</b> Gwerth cefnogaeth cyfoedion i'w gilydd a welwyd gan Swyddogion Cymorth Cymunedol; mwy o gynhyrchiant / rhagolwg o gynnyrch ffrwythau Cymreig	Creodd pob cyfranogwr o leiaf un berthynas newydd gyda sefydliad neu gymuned nad oedden nhw'n eu hadnabod o'r blaen	Ffurflenni adborth digwyddiadau Cyfweliadau ansoddol

TABL 7: Cynnydd Ffrwd Waith 3 gyda deilliannau

Soniodd un sefydliad a dderbyniodd offer prosesu faint yn gyflymach y maen nhw wedi gallu cyflawni eu huchelgeisiau gyda'r gefnogaeth. Gwnaeth un gais i blannu 30 o goed ar dir comin; er nad oedd hyn yn cyd-fynd â'r weledigaeth wreiddiol o ariannu datblygu perllannau, penderfynodd y tîm ariannu'r prosiect. Aeth yn dda a bu'n llwyddiannus iawn yn dod â phobl i'r tir comin.

Gwnaeth y sefydliad gais am gyllid pellach ar gyfer coed ychwanegol, a chreu mwy o lwybrau cyhoeddus drwy'r tiroedd comin. Siaradodd rheolwr y prosiect hwn am eu cyflawniad mwyaf pan gerddodd ar draws afon fach a gweld llanc 16 oed gyda'i gariad, yn eistedd o dan goedden; roedd y prosiect yn gyfrifol am gyflwyno cenhedlaeth newydd i fyd natur.



### 6.2.1 MWY O GYFRANOGIAD CYMUNEDOL MEWN MYNEDIAD I DIR A'R DEFNYDD OHONO

Roedd y cymorth a ddarparwyd trwy'r ffrwd waith yn caniatáu i randdeiliaid gynnwys cymunedau mwy amrywiol gyda rheoli a defnyddio tir. Ar draws y safleoedd roedd y rhain yn cynnwys plant ysgol, pobl yn gadael gofal, pobl ag awtistiaeth neu anabledau dysgu, teuluoedd, y gymuned ffermio, yr henoed a rhai wedi eu hynysu'n gymdeithasol. Roedd sefydlu perllan newydd wedi rhoi cyfleoedd ar gyfer adeiladu cymunedau gyda chymunedau newydd a rhai presennol yn dod at ei gilydd i blannu coed, i ofalu amdanyh nhw ac i ddathlu eu cynnyrch. Gwnaeth llawer o'r cyfranogwyr sylwadau ar sut y cafwyd 'derbyniad cadarnhaol' (buddiolwr 3 FfW3) gan eu cymunedau a'r rhwyddineb o 'gael prynu i mewn' (Buddiolwr 5 FfW3):

*"Dwi'n credu ei fod wir wedi rhoi cyfle da i bobl ddysgu mwy am y math o goed afalau y gallan nhw eu tyfu i gael ffrwythau yn yr hinsawdd hon, ond mae hefyd yn rhoi cyfle i bobl ddod yn nes at eu bwyd ac i gael mwy o wybodaeth ynghylch o ble mae'r bwyd yn dod. Ac ydy, mae wedi dod â gwahanol gymunedau at ei gilydd gyda rhywbeth yn gyffredin; rydyn ni i gyd yn mwynhau bwyta afalau, ac rydyn ni i gyd yn mwynhau gwneud sudd, felly ydy, mae wedi bod yn fuddiol iawn."*  
(Buddiolwr 2 FfW3)



### 6.2.2 MWY O WYBODAETH AM REOLI PERLLANNAU CYMUNEDOL A MWY O GYSYLLTIADAU GYDA MATHAU ERAILL O GEFNOGAETH (ADNODDAU; SEFYDLIADAU ERAILL)

Arweiniodd y gefnogaeth, y gweithgareddau hyfforddi a'r cyllid at gynnydd mewn gwybodaeth am reoli perllannau a bioamrywiaeth. Roedd ymgeiswyr llwyddiannus hefyd yn gwerthfawrogi'n arbennig bod y gefnogaeth yn dod fel pecyn cyfan, yn cyfateb i 'berllan mewn blwch' (buddiolwr 3 FfW3) gyda choed, offer amrywiol, a chyngor arbenigol, a chyfeirio at adnoddau a sefydliadau eraill, gan gynnwys Cadwch Gymru'n Daclus.

Roedd ymateb hyblyg i anghenion penodol cyfranogwyr wedi gweithio'n arbennig o dda. Er enghraifft, os oedd rhanddeiliaid yn wybodus am goed, roedden nhw'n rhydd i fwrw ymlaen â phethau, ond roedd cefnogaeth fwy pwrpasol, ymarferol yn cael ei ddarparu i'r rhai a oedd yn y cyfnod dysgu. Roedd ymweliadau safle yn arbennig o effeithiol yn cynyddu gwybodaeth pobl a chefnogi cyfranogiad cymunedol mewn rheoli tir:

*"Daeth aelod o staff SFG allan, edrych ar ein safle, ac roedden nhw o gymorth mawr a hefyd yn rhoi syniadau am rodfeydd, yn hytrach na chreu perllan ar batrwm arferol, ac roedd hyn yn wirioneddol wych. Ei frwdfrydedd a'i fewnbwn... does dim llawer o arianwyr yn dod allan i siarad â chi. Nawr mae pob un o'n gwirfoddolwyr yn rhan o benderfynu pa gynigion rydyn ni am geisio amdany'n nhw, maen nhw'n ein helpu ni i benderfynu. Roedd cwrdd â pherson go iawn oedd yn siarad gyda nhw ac yn gwrando ar eu meddyliau, hyd yn oed pan oedd dim trefn arny'n nhw, yn anhygoel ac fe wnaeth i bobl fod yn gyffrous iawn am y syniad hwnnw."*  
(Buddiolwr 4 FfW3)

Helpodd gweithdai hyfforddi ac ymweliadau safle a drefnwyd fel rhan o rwydweithiau Perllannau Cymunedol Cynhyrchiol i gynyddu gwybodaeth gymunedol ynghylch rheoli perllannau a bioamrywiaeth. Dywedodd mwyafrif helaeth o'r mynychwyr eu bod, o ganlyniad i fynychu, wedi gwella eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o wahanol rannau o reoli perllannau, gan gynnwys tocio, dylunio perllannau neu gynnal a chadw. Roedd mwyafrif hefyd yn teimlo'n fwy hyderus i wneud newidiadau yn eu gwaith. Roedd adborth yn cynnwys:

*"Cyfarwyddiadau ac arddangosiad manwl defnyddiol yn edrych ar goed o wahanol oedrannau."*

(cyfranogwr hyfforddiant Rheoli Perllannau 1, ffurflen adborth digwyddiadau).

*"Rwy'n teimlo'n ddigon hyderus gyda'r hanfodion i docio a gofalu ac yna adeiladu ar y wybodaeth newydd."*

(cyfranogwr hyfforddiant Rheoli Perllannau 2, ffurflen adborth digwyddiadau).

*"Rydyn ni wedi cael diwrnod hyfforddi yma gyda Joey, fe ddaeth i lawr i roi sesiwn hyfforddi i ni gyda 22 aelod arall o'r gymuned i ddysgu sut i docio a pharatoi ar gyfer coed afalau. O ganlyniad, wedyn fe wnes i ymateb a defnyddio ei sgiliau a'i wybodaeth, dwi wedi gwneud y bwydo. Dwi wedi rhoi rhywfaint o amddiffyniad o'u cwmpas a dwi wedi dyfrio'r coed."*

(Buddiolwr 1 FfW3)

### 6.2.3 YCHWANEGU GWERTH AT GYNNYRCH PERLLANNAU CYMUNEDOL

Fe wnaeth y ffrwd waith wella cynhyrchiad perllannau trwy gyllid, offer a hyfforddiant. Mae hefyd wedi helpu i feithrin gallu i berllannau presennol brosesu a storio eu cynnyrch, er enghraifft trwy ariannu oergelloedd neu offer gwneud sudd:

*"Gan mai dim ond gwasg fach iawn oedd gennym ni, dwi ddim yn gwybod faint o dunelli o afalau wnaethon ni bwyso llynedd, ond roedd hi'n anodd ei wneud, ac fe gymerodd fwy o amser nag oedd ei angen. Felly, gyda'r offer newydd gobeithio y byddwn ni'n gallu ei wneud mewn llai o amser gyda llai o bobl. Bydd yn ein gwneud ni'n fwy effeithiol."*

(Buddiolwr 7 FfW3)

Mae gwerth a budd yr offer hwn wedi'i luosi trwy ei rannu gyda'r gymuned ehangach, y tu hwnt i'r buddiolwr uniongyrchol. Helpodd hyn hefyd i gryfhau'r cysylltiadau rhwng gwahanol berllannau a chymunedau. Gwnaeth ychydig o gyfranogwyr sylw ar y broses lletchwith o fod angen les-llogi offer (yn amodol ar reoliadau Llywodraeth Cymru) a'r ffaith fod hyn yn eu rhwystro rhag caffael offer rhatach, ail-law yn lleol.

Nid yw hi'n glir i ba raddau y gwnaeth y ffrwd waith uwchsgilio'r buddiolwyr gyda chreu cynnyrch i'r farchnad oherwydd bod gan y rhan fwyaf o randdeiliaid gafodd eu holi ar gyfer y gwerthusiad eisoes yn meddu ar gysylltiadau â'r farchnad, neu eu bod newydd blannu'r coed ac felly ddim yn ystyried prosesu ar hyn o bryd. Mae angen dysgu arall i'w ystyried yn y dyfodol. (gweler isod)

*"Nid yw [y berllan] yn rhywbeth rydyn ni wedi'i gynllunio i fod yn fasnachol, ond yr hyn y mae'n ei wneud yw dod ag elw i rannau eraill o'r sefydliad, mae'n cynyddu'r hyn y gallwn ei gynnig i'r gymuned ac felly mae'n cynyddu sut y gallwn godi arian gydag arian grant, yr hyn y gallwn ei gynnig i bobl sy'n dod i'r safle, a'r hyn y gallwn ei roi yn ôl a thrwy hynny wneud ein busnes yn fwy hyfyw yn fasnachol yn yr ystyr hwnnw."*

(Buddiolwr 6 FfW3)

Awgrymodd prosiectau cymunedol llai (er enghraifft heb fentrau tyfu presennol yn rhedeg ochr yn ochr â nhw) oedd newydd blannu'r coed ei bod hi'n rhy gynnar i feddwl am greu a gwerthu cynnyrch. Roedd rhai yn teimlo efallai na fydd potensial masnachol - hyd yn oed ar raddfa fach - yn briodol gan eu bod am ganolbwyntio ar rannu'r cynnyrch gyda'u cymuned am ddim, gan gynyddu argaeledd bwyd iach am ddim i'r rhai nad ydyn nhw'n gallu cael mynediad ato fel arall.

### 6.2.4 CYNNYDD YN Y CYFLENWAD O GOED CYMREIG

Roedd y rhaglen yn galluogi rhanddeiliaid i sicrhau coed treftadaeth Cymreig na fydden nhw'n gallu cael gafael arnyn nhw fel arall oherwydd eu cost:

*“Mae llawer o archfarchnadoedd yn gwerthu rhyw wreiddgyffion moel. Ond does dim label arnyn nhw, dim ond coed ydyn nhw, a dydych chi ddim yn siŵr pa fath o goeden ydy hi nes ei bod yn dechrau cynhyrchu ffrwythau. Felly mae'r syniad o gael mathau penodol o goed, wedi eu henwi, a'r ffaith eu bod yn goed treftadaeth hefyd, mae hynny'n ticio blychau, ac ychydig yn fwy anarferol, ac mae rhai ohonyn nhw'n gynhenid i Gymru hefyd sy'n beth da.”*

(Buddiolwr 6 FfW3)

Fodd bynnag, nododd lleiafrif hefyd, o ystyried pa mor dynn oedd yr amser ar gyfer cyflwyno ceisiadau yn y rownd gyntaf, nad oedden nhw'n derbyn coed cystal neu mor iach ag y bydden nhw pe gallen nhw archebu yn gynharach. Roedd y cyfranogwyr yn gwerthfawrogi'r cysylltiadau a grëwyd gan y rhaglen rhyngddyn nhw a chyflenwyr. Er enghraifft, roedd cyfranogwr o Ganolbarth Cymru yn gallu cysylltu â chyflenwr y gwnaeth hi gyfarfod mewn ymweliad astudio fel rhan o'r Rhwydwaith Perllannau Cymunedol Cynhyrchiol i ofyn am help i ymateb i fandaliaeth ddigwyddodd ar ei safle gan ddifrodi coed.

### 6.2.5 CYSYLLTIADAU RHWNG GWAHANOL SAFLEOEDD PERLLANNAU

Helpodd y ffrwd waith i feithrin perthnasoedd rhwng perllannau a sefydliadau cymunedol eraill sydd wedi arwain at rannu rhagor o ddysgu ac offer:

*“Dwi'n gweld [y Rhwydwaith] yn gynhyrchiol iawn ac yn werth chweil. Oherwydd bod yr holl bobl hyn, pan fyddwn yn mynd o gwmpas y grŵp gyda diweddariad, byddwn yn gofyn i'n gilydd i ddweud beth mae pawb wedi'i wneud. Felly pan fydd pobl yn dilyn arferion tebyg, rydyn ni'n dysgu gan rywun wedi bod yn gwneud sudd afal, neu'n prosesu neu rywbeth, ac mae popeth y mae'r bobl hyn yn ei wneud yn golygu y gallen ni fod yn eu gwneud, neu gallwn ofyn cwestiynau, neu byddan nhw'n rhannu eu pryderon a rhannu beth sydd wedi mynd yn dda”*

(Buddiolwr 1 FfW3)

Awgrymodd rhai cyfranogwyr nad oedden nhw wedi creu unrhyw gysylltiadau newydd gyda pherllannau, ond yn hytrach wedi dyfnhau'r cysylltiadau presennol, yn enwedig yn lleol.



### 6.2.6 EFFEITHIAU YCHWANEGOL

Yn ogystal â'r canlyniadau a ragwelwyd adeg cychwyn y prosiect, roedd rhai effeithiau annisgwyl o fudd i'r gymuned. Awgrymodd y cyfranogwyr fod y gefnogaeth wedi cynyddu mynediad i fwyd iach mewn cymunedau â diffyg diogeled bwyd. Soniodd sefydliadau sy'n gweithio gydag unigolion bregus yn benodol am y gwelliant yn eu hiechyd corfforol a meddyliol, gan gynnwys hyder:

*“Mae'n weithgaredd ystyrlon. Felly efallai y bydd gennyhych ryw 10 i 15 o bobl y dydd yma gyda math gwahanol o anghenion cefnogaeth. Felly pan fyddwn ni'n plannu'r coed a'r clymau coed, gall rhai o'r dynion sy'n llai abl i balu, osod y clymau coed neu'r amddiffyniad coed, neu gatalogio'r coed neu wneud cynllun fel bod pawb yn cymryd rhan, yn cael ymdeimlad o gyflawniad. Ac wedyn mae'r budd o gael y ffrwythau.”*

(Buddiolwr 6 FfW3)

Mae hefyd wedi helpu i greu perllannau fel safleoedd ar gyfer dysgu am ddeietau iach, bioamrywiaeth a sgiliau bywyd ehangach.





## 6.3 HERIAU

Roedd cael hysbysiad o gychwyn y prosiect RGS ym mis Awst yn golygu mai ychydig iawn o amser oedd ar gael i weinyddu'r rownd gyntaf o gyllido mewn pryd i blannu coed rhwng mis Tachwedd a mis Mawrth. O ganlyniad, dim ond saith safle gafodd eu hariannu. Gwnaeth buddiolwyr sylwadau ar yr amserlen dynn yn rownd un ond roedden nhw'n deall amgylchiadau ehangach yr oedi yn sgil y pandemig a chwblhau cytundeb y cyllidwr. Roedd pryder bryd hynny ynghylch a fydden nhw'n gallu cyrraedd eu targedau terfynol ai peidio. Fodd bynnag, roedd yr ail rownd yn fwy effeithiol.

Fel gydag unrhyw waith tebyg, gwnaeth rhai buddiolwyr sylwadau ar yr heriau sy'n deillio o weithio gyda natur. Er enghraifft, amodau anodd pan oedd angen plannu coed, ac roedd amserlenni cywasgedig ar gyfer rownd un o'r cyllid hefyd yn ddylanwad. Cafodd hyn ei liniaru gan gyfathrebu da gyda'r SFG a gwerthfawrogiad eu bod yn deall yr heriau felly roedden nhw'n hyblyg.

Roedd rhai cyfranogwyr heb fynychu hyfforddiant gan nad oedden nhw'n ei weld yn berthnasol iddyn nhw ar y pryd.

*"Dwi'n meddwl ei bod hi'n eithaf cyffredin bod prosiect yn cael ei gyllido am amser cyfyngedig, a phan fyddwch chi'n cyrraedd diwedd yr amser hwnnw mae pethau braidd yn anodd achos fe fyddech chi'n cyflawni cymaint mwy pe byddai'n parhau'n hirach ac yn ddefnyddiol, a byddai'n dda ymhen tair blynedd pe byddai ganddyn nhw gwrs tocio pan fyddai hi'n amser tocio eu coed."*  
(Buddiolwr 2 FfW3)

Byddai tîm y prosiect wedi hoffi datblygu'r Rhwydwaith Perllannau ymhellach. Fodd bynnag, roedd capasiti cyfyngedig o fewn y tîm a phartneriaid y safleoedd yn gwneud hyn yn anodd. Bydden nhw'n dal i hoffi adeiladu rhwydwaith cenedlaethol, ond mae angen mwy o ffocws i barhau i ddatblygu'r rhai lleol. Mae ambell rwydwaith lleol sy'n gweithio'n dda, yn bennaf yn Ne Cymru; hoffai'r tîm efelychu'r llwyddiant hwn yng Ngogledd Cymru.



## 6.4 GWERSI A GWADDOL I'R DYFODOL

Hoffai Ffrwd Waith y Perllannau Cymunedol barhau i siarad gyda rhai grwpiau buddiolwyr am gydweithio pellach. Maen nhw'n bwriadu parhau i gydweithio gyda'r Orchard Project a phrosiect Ffrwythau a Bownti Cwm Arian i ddarparu cefnogaeth ar gyfer rheoli perllannau, a phrosesu ffrwythau.

Mae mwy o bobl eisiau ymgysylltu â'r math hwn o gefnogaeth, ac mae dymuniad cyffredin i sicrhau bod yr offer prosesu cywir ar gael i grwpiau, trwy berchnogaeth gydweithredol a'r defnydd o offer. Mae rhywfaint o hyn eisoes yn digwydd yn Llandeilo lle mae offer yn cael ei rannu.

Bydd y partneriaid yn ystyried sut y gallan nhw barhau i gefnogi perllannau, yn enwedig oherwydd ei bod yn cymryd tua phum mlynedd o'r adeg pan fydd y coed yn cael eu plannu nes eu bod yn dwyn ffrwyth. Felly, ymhen pedair blynedd, bydd y perllannau'n dechrau cynhyrchu ffrwythau a bydd angen cymorth arnyn nhw ar gyfer cam nesaf y daith: prosesu'r ffrwyth er budd eu cymuned. Mae'r tîm yn chwilio am gyllid i barhau'r gweithgareddau hyn.



Mae hyn hefyd yn gysylltiedig â dysgu am weithdai hyfforddi. Er gwaethaf eu llwyddiant o ran eu derbyniad brwdfrydig a'u heffeithiau ar wybodaeth cyfranogwyr, efallai nad ydyn nhw wedi cyrraedd llawer o bobl. Roedd rhwystrau cyffredin i gyfranogiad a nodwyd gan fuddiolwyr y prosiect yn cynnwys capasiti cyfyngedig, ymlediad daearyddol, a hyfforddiant nad oedd yn briodol i anghenion dysgu presennol. Roedd cyfranogwyr yn fwy gwerthfawrogi o'r berthynas barhaus â'u cysylltiadau SFG a'r cyfeirio at adnoddau a chysylltiadau yn ôl yr angen, gan gynnwys trefnu dyddiau hyfforddi ar eu safle. Yn y dyfodol, efallai y bydd cefnogaeth yn canolbwyntio ar glystyrau neu rwydweithiau lleol a'i ddarparu trwy bartneriaethau sefydledig, er enghraifft trwy'r Orchard Project yn Abertawe neu Rwydwaith Mother Orchards yn Sir Benfro.





## 7.0 CORIDORAU MWY GWYRDD

Roedd Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol (SFG) mewn partneriaeth â Chyngor Gwynedd (GCC) yn cefnogi cymunedau i reoli lleiniau ymyl ffordd a mannau gwyrdd cyhoeddus eraill, megis tiroedd a pharciau canolfannau cymunedol, fel cynefin dolydd.

Yn wreiddiol, bwriad y gwaith hwn oedd treialu dull o reoli lleiniau ymyl ffordd yr awdurdodau lleol y gellid ei ailadrodd yn genedlaethol. Ond cafodd hyn ei ddisodli gan weithredu cenedlaethol i hyrwyddo pwysigrwydd peillwyr, a chydlynu gweithgarwch Llywodraeth Cymru i ddylanwadu ar gyfundrefnau torri.

Ceisiodd y ffrwd waith fod o fudd i foamrywiaeth drwy newid rheolaeth i wella cynefinoedd peillwyr, a chreu coridorau cynefin. Roedd hefyd yn anelu at gynnig cyfleoedd i gymunedau gymryd rhan mewn rheoli mannau gwyrdd. Bwriad hyn oedd darparu addysg am beillwyr a chynefin dolydd, a materion ehangach argyfwng natur. Trwy wirfoddoli i reoli mannau lleol roedd disgwyl y byddai pobl leol yn elwa o deimlo'n perchnogaeth mewn perthynas â'r her.



## 7.1 GWEITHGAREDD AC ALLBYNNAU

Canolbwyntiodd y ffrwd waith ar ddau llyn gweithgaredd: newid arferion Cyngor Gwynedd, a gweithio gyda grwpiau cymunedol i reoli mannau gwyrdd ar gyfer peillwyr. Yn ystod y broses gyflwyno, daeth yn amlwg bod gwaharddiadau ynghylch ymgysylltu â'r gymuned wrth reoli mannau ar ochr y ffordd, gan arwain at newid ffocws i fannau gwyrdd cyhoeddus eraill a allai ddarparu cynefin dolydd.

Mae'r ffrwd waith wedi cyflawni:

Newid trefn dorri o fewn Cyngor Gwynedd sydd bellach yn dilyn canllawiau Plantlife ar reoli ymylon ffyrdd.

Animeiddiad sy'n esbonio sut a pham i reoli mannau gwyrdd ar gyfer peillwyr


'Life on the Verge' - dogfen ganllaw a chwestiynau cyffredin ar gyfer cymunedau ar reoli ymylon ffyrdd a mannau gwyrdd cymunedol eraill

Deunyddiau hyrwyddo #NoMowMay

Canllawiau i gymunedau yng Ngwynedd ar gyfer gweithio'n ddiogel ar ymylon ffyrdd

Cefnogaeth i **14** o grwpiau cymunedol gydag offer ar gyfer rheoli dolydd, cyngor, hadau a phlygiau planhigion, mynediad i gyrsiau am drwydded i reoli ymylon ffyrdd, ac arwyddion yn esbonio'r dull rheoli newydd.

Does dim digon o amser wedi mynd heibio ers y cychwyn i alluogi asesu effeithiau ôl-weithgarwch ar y gofodau gwyrdd. Mae'n bosibl nodi maint yr ardal o ofodau gwyrdd sydd bellach yn cael eu rheoli gan gymunedau ar gyfer peillwyr, ac yn destun trefn dorri well.





## 7.2 EFFEITHIAU A DEILLIANNAU

Mae crynodeb o'r cynnydd yn erbyn y deilliannau bwriedig yn Nhabl 8.

DEILLIANT	CYNNYDD	TYSTIOLAETH
<b>O1</b> Gwrthdroi dirywiad bioamrywiaeth - planhigion ac infertebratau	Mae Cyngor Gwynedd wedi sefydlu trefn newydd o reoli ar gyfer cynefin dolydd sy'n cynnig cynefin gwell i beillwyr	Ardal dan drefn newydd
<b>O2</b> Mae 5 - 7 o grwpiau cymunedol yn cael gwybodaeth fanylach a hyder am reoli ymylon ffyrdd ar gyfer bioamrywiaeth	14 o grwpiau cymunedol yn ymgysylltu Nododd yr holl gyfranogwyr lefel uwch o wybodaeth a hyder mewn rheoli ymylon ffyrdd.	Cyfweliadau ansoddol
<b>O3</b> Y sir gyfan - cynyddu dealltwriaeth o bwysigrwydd ymylon ffyrdd fel cynefin dolydd a'r angen i leihau toriadau yn ystod misoedd y gwanwyn/haf	14 o grwpiau cymunedol yn ymgysylltu Timau ac uwch reolwyr Cyngor Gwynedd yn deall ac yn cefnogi'r dull gweithredu	Cyfweliadau ansoddol  Holiadur partneriaid

**TABL 8:** Cynnydd FfW4 gyda deilliannau

Cyn y prosiect, nid oedd Cyngor Gwynedd yn rheoli ymylon ffyrdd yn y dull mwyaf buddiol i beillwyr. Drwy newid eu trefn dorri yn unol ag arfer da mae manteision bioamrywiaeth ar draws yr ardaloedd y maen nhw'n eu rheoli. Mae'r cyngor hefyd wedi meithrin dealltwriaeth o'r ffordd orau o reoli mannau ar gyfer peillwyr, gyda thimau perthnasol bellach wedi'u cysylltu'n well ac yn rhannu blaenoriaethau yn y maes hwn. Mae aelodau staff allweddol bellach yn meddu ar sgiliau priodol i gyflawni'r gwaith hwn. Ar hyn o bryd maen nhw'n ymchwilio sut i reoli torion o safleoedd sydd wedi'u torri yn y ffordd fwyaf cynaliadwy. Awgrymodd aelod staff Cyngor Gwynedd oedd yn rhan o'r prosiect fod y bartneriaeth wedi gwneud uwch reolwyr yn ymwybodol o'r "cyfleoedd sydd bellach ar gael i weithio'n gadarnhaol gyda sefydliadau sy'n hyrwyddo bioamrywiaeth yn gyffredinol." Bellach mae gan SFG a'r awdurdod

lleol well dealltwriaeth o ymarferoldeb ymgysylltu â gwirfoddolwyr i reoli gofodau wrth ochr priffyrdd cyhoeddus.

Mae'r grwpiau cymunedol sy'n ymwneud â'r ffrwd waith wedi derbyn cyngor a pheiriannau arbenigol ar sut i'w ddefnyddio i reoli gofodau. Mae'r ffrwd waith wedi creu'r canllawiau cyntaf ar gyfer cymunedau sy'n canolbwyntio ar y gweithgaredd hwn. Roedd cyfranogwyr yn gwerthfawrogi'n arbennig y ddarpariaeth o offer ac offer na fydden nhw wedi gallu eu fforddio fel arall o bosibl, fel mentrau cymunedol bach. Roedd hyn yn eu galluogi i gynyddu eu gwaith a rheoli ardaloedd mwy ar gyfer bioamrywiaeth. Yn yr un modd, awgrymodd rhai cyfranogwyr fod rhannu'r offer hyn rhwng gwahanol gymunedau yn rhoi gwell gwerth am arian ac yn caniatáu i wahanol gymunedau elwa.

Roedd y cyngor a'r cymorth wedi rhoi hyder i grwpiau cymunedol sy'n rheoli safleoedd ac wedi cynyddu eu gwybodaeth. Roedd y cyfranogwyr yn gwerthfawrogi rhywun yn dod i'w safle, gan ddarparu cyngor wedi'i deilwra. Yn yr un modd, bu trefnu sgysiau a gweithdai lleol yn fodd i alluogi rhannu gwybodaeth yn ehangach, yn hytrach na dim ond uwchsgilio cydlynwyr y prosiect:

*"Pan oedd gennym ni ddeiliaid plot yn dod [i weithdy ar safle] hefyd, nid fi ac [arbenigwr] yn unig oedd yno. Cawsom nifer dda yn mynychu. Felly i lot o'r bobl ddaeth i hwnnw, dwi'n meddwl ei fod yn newydd iawn iddyn nhw. Felly yn yr ystyr hwnnw, roedd wedi cynyddu gwybodaeth a dealltwriaeth pobl yn eithaf sylweddol."*  
(Buddiolwr 2 FfW4)

Ar wahân i fwy o wybodaeth, nododd cyfranogwyr fwy o gydlyniant cymdeithasol, lles meddyliol a chorfforol yn deillio o fod yn rhan o'r ffrwd waith hon:

*"Rwy'n credu bod pobl yn teimlo ymdeimlad o rymuso y gallwn wneud pethau'n wahanol gyda'r mannau hyn yng nghanol ein pentrefi. Does dim rhaid iddo fod yn laswellt yn unig. Gallwn ddewis. Gallwn ei wneud yn rhywbeth gwahanol. Gallwn ei wneud yn fwy lliwgar."*  
(Buddiolwr 3 FfW4)



Awgrymodd cyfranogwyr hefyd fod gweld newid mewn mannau cyhoeddus yn ysbrydoli pobl i wneud newidiadau yn eu gerddi preifat. Yn yr un modd, nododd pobl fod y gwaith hwn yn ddefnyddiol ar gyfer dod â gwahanol gymunedau at ei gilydd, er enghraifft siaradwyr Cymraeg a Saesneg gan ei fod yn *“fforwm lle mae pobl yn teimlo'n gyfforddus yn dysgu ychydig o eiriau Cymraeg hefyd.”*

Mae'r ffrwd waith wedi galluogi adeiladu perthnasoedd ac ymddiriedaeth gyda rhanddeiliaid eraill - naill ai grwpiau cymunedol lleol neu'r Cyngor:

*“Yn aml mae'n fater o gydweithio, oherwydd roeddwn i'n treialu rhwydwaith hadu naturiol, yn nodi safleoedd rhoddwyr, safleoedd dolydd ym Mhen Llŷn, lle gallen ni gynaeafu hadau o darddiad lleol. Wedyn roeddwn i'n gallu gadael i [aelod staff SFG] gael rhywfaint o hadau y llynedd y gallai hi eu defnyddio ar rai o'i safleoedd, felly roedd yn teimlo fel partneriaeth, mewn gwirionedd.”*  
(WS4 participant 1)

*“Fe wnaeth [staff SFG] fy rhoi mewn cysylltiad â swyddog bioamrywiaeth Gwynedd sy'n darparu rhai peiriannau ar gyfer rhywbeth arall. Felly ie, yn bendant, cysylltiadau defnyddiol.”*  
(Cyfranogwr 3 FfW4)

Wrth gydweithio â'r cyngor, nododd y cyfranogwyr eu bod yn teimlo'n galonogol eu bod yn gwneud y peth iawn. Fodd bynnag, roedd gan un cyfranogwr ddiddordeb mewn mwy o ymgyrchu cymunedol ynghylch rheoli ymylon ffyrdd gan y cyngor cyfan, sy'n awgrymu efallai nad oedd y negeseuon am newidiadau yn cyrraedd pawb.

Mae'n anodd sefydlu i ba raddau y bu newidiadau i reoli mannau gwyrdd yng Ngwynedd yn ganlyniad i'r prosiect yn unig, gan ei fod yn cyd-daro â mentrau eraill fel cyflawni strategaeth peillwyr Llywodraeth Cymru a Phartneriaethau Natur Lleol. Nododd tîm y prosiect eu bod yn gweithio ymhlith “y zeitgeist” oedd â blaenoriaethau a strategaethau tebyg. Cyfrannwyd at hyn drwy ymuno â grwpiau arbenigol cenedlaethol i rannu deiliaid lle cyfrannodd y ddau ohonynt ac elwa o drafodaethau gydag ardaloedd awdurdodau lleol eraill. Ond awgrymodd y partneriaid ei bod yn anodd “cael llais” i'r prosiect oherwydd nifer y mentrau eraill sy'n gweithio ar faterion tebyg ar yr un pryd. Yn yr un modd, nododd buddiolwyr sydd wedi bod yn gweithio yn y maes hwn am nifer o flynyddoedd sut y daeth hi'n haws cael cefnogaeth y gymuned gan fod mwy o ymwybyddiaeth gan y cyhoedd am faterion bioamrywiaeth.

Yr hyn y gellir ei briodoli'n amlwg i'r prosiect yw'r gefnogaeth i reoli mannau gwyrdd yn y gymuned er budd peillwyr, ac anogaeth i awdurdodau lleol ymgysylltu â chymunedau am eu rheolaeth. Bydd tîm Cyngor Gwynedd yn rhannu dysgu ar hyn o fewn eu rhwydweithiau awdurdodau lleol.

## 7.3 HERIAU

Nododd tîm y ffrwd waith heriau yn sgil oedi wrth ddyfarnu cyllid y prosiect. Roedd hyn yn arbennig o broblemus o ystyried natur dymhorol rheoli dolydd a oedd yn ei gwneud yn amhosibl dal i fyny ar y ddarpariaeth a gollwyd yn y flwyddyn gyntaf. Roedd newidiadau hefyd mewn personél o fewn y ddau sefydliad partner, gyda cholli capasiti neu oedi oherwydd hynny. Nododd y tîm y gall fod yn anodd sicrhau newid mewn sefydliad cymhleth mawr fel awdurdod lleol, er bod cynnydd da wedi'i wneud mewn cyfnod cymharol fyr. Yr her fwyaf arwyddocaol i SFG oedd diffyg capasiti i ganolbwyntio ar y llif gwaith, yn enwedig o ystyried cyfranogiad staff mewn sawl ffrwd waith.

Un her allweddol a ddaeth i'r amlwg yn ystod y broses gyflawni oedd yr angen i gadw at ofynion deddfwriaethol ar gyfer arferion gwaith diogel wrth weithio ar briffordd gyhoeddus. Mae'r rheolau yn ei gwneud yn ofynnol i bersonél hyfforddedig fynd gyda gwirfoddolwyr, i ddefnyddio PPE ac arwyddion addas. Roedd y cyfyngiadau hyn yn atal cyfranogiad y gymuned wrth reoli llawer o ardaloedd ar ochr y ffordd a allai fod wedi bod yn addas fel arall. Addaswyd y prosiect drwy ganolbwyntio'r rhan fwyaf o'r gweithgarwch cymunedol ar fannau gwyrdd nad ydyn nhw'n ddarostyngedig i'r gofynion hyn, megis parciau a pherllannau.

Cododd pob cyfranogwr o grwpiau cymunedol y mater o gynnal y gwaith hwn y tu hwnt i amserlenni'r rhaglen hon - nid o reidwydd o ran cyllid ar gyfer offer yn y dyfodol, ond a fydd modd iddyn nhw gael gafael ar y cyngor wedi'i deilwra wrth i'w hanghenion newid wrth i'r dolydd ddatblygu.





## 7.4 GWERSI A GWADDOL I'R DYFODOL

Bydd Cyngor Gwynedd yn bwrw ymlaen â rheolaeth ar gyfer cynefinoedd dolydd yn y dyfodol, ac mae'n disgwyl parhau i wella ei ddull gweithredu, tra hefyd yn dod â mwy o ardaloedd dan reolaeth fewnol. Bydd rhywfaint ohono'n digwydd drwy'r rownd nesaf o Bartneriaethau Natur Lleol.

Bydd y partneriaid arweiniol yn parhau i gymryd rhan yn Is-Grŵp Ymylon Ffyrdd y Tasglu Gweithredu Pryfed Peillio dan arweiniad Llywodraeth Cymru, a fydd yn hwyluso cyfnewid arfer da a dysgu o'r prosiect gyda meysydd eraill. Mae'r prosiect eisoes wedi'i gyflwyno i'r grŵp hwn, ac mae'r adnoddau a grëwyd gan y ffrwd waith wedi cael eu rhannu gyda'r mynychwyr. Mae'r deunyddiau hyn (ffilm wedi'i animeiddio, canllawiau, arwydd ar gyfer mannau a reolir) ar gael i'r cyhoedd i unrhyw un eu defnyddio wrth reoli cynefin dolydd.

Ers i'r gweithgaredd hwn gael ei greu, mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i bob awdurdod lleol a chyngor cymuned adrodd ar sut y maen nhw wedi gwella bioamrywiaeth yn eu hardal. Awgrymodd partneriaid y prosiect fod hyn yn rhoi cymhelliant i weithio ar reoli peillwyr, ac mae eisoes wedi arwain at fwy o sylw i'r mater. Mae gweithgarwch prosiect RGS wedi bwydo i mewn i hyn, gyda'r prosiect ei hun yn dysgu gan eraill sy'n teithio i'r un cyfeiriad. Cysylltodd un awdurdod lleol yn uniongyrchol â phartneriaid y ffrwd waith i gael cyngor yn seiliedig ar eu dull. Disgwylir i'r broses hon o gyd-ddysgu barhau drwy'r fforwm cenedlaethol.

Mae prif waddol y ffrwd waith yn deillio o fod fod wedi sefydlu cyfundrefn reoli newydd o fewn Cyngor Gwynedd. Mae ganddyn nhw gyllid, peiriannau a gwybodaeth a fydd yn eu galluogi i barhau i ddarparu'r dull er budd pryfed peillio. Yn y dyfodol, gall grwpiau cymunedol fynd at dîm Cyngor Gwynedd i gael cefnogaeth mewn perthynas â rheoli ar gyfer peillwyr. Mae deunyddiau, gan gynnwys y canllaw newydd ar ddefnyddio peiriannau, hefyd ar gael i gefnogi grwpiau cymunedol. Mae'r dull hwn yn fuddiol i berllannau cymunedol, felly mae'n debygol y bydd safleoedd newydd a grëwyd gan Ffrwd Waith 3 RGS yn gofyn am gefnogaeth gyda rheoli glaswelltir yn y dyfodol.

Mae SFG yn gobeithio adeiladu ar wybodaeth a gafwyd drwy'r prosiect hwn, er mwyn gallu cefnogi grwpiau perllannau cymunedol gyda chynlluniau rheoli a pheiriannau. Doedd hyn ddim yn ymarferol fel rhan o'r prosiect gan nad oedden nhw'n barod i ddysgu am arferion rheoli fel tocio a rheoli glaswelltir:


*"Allwch chi ddim hyfforddi pobl mewn rheoli perllannau pan rydych chi'n rhoi'r coed i mewn."*  
(Arweinydd FfW4)

Mae hyn yn rhoi agoriad clir i SFG fynd i'r afael ag ef yn y dyfodol.

Disgwylir i grwpiau cymunedol sydd wedi sefydlu rheolaeth o fannau gwyrdd cymunedol ar gyfer peillwyr barhau i wneud hynny:

*"does dim o hynny yn stopio, mae hynny i gyd yn parhau a bydd ond yn gwella wrth i amser fynd heibio ac maen nhw'n parhau i reoli'n well."*  
(Arweinydd FfW4)

Dylai hyn fod yn bosibl heb gefnogaeth barhaus i'r prosiect; gall grwpiau eraill sydd â diddordeb mewn efelychu eu profiadau fynd at Gyngor Gwynedd i gael eu cefnogaeth.





## 8.0 ARCHWILIO MYNEDIAD CYMUNEDOL I FFERMYDD A THIR

Arweiniwyd y ffrwd waith hon gan Shared Assets a'r Cynghrair Gweithwyr Tir. Fe edrychon nhw ar y rhwystrau a'r cyfleoedd i bobl sydd â diddordeb mewn ffermio amaetholegol i gael mynediad i dir sy'n eiddo i'r cyngor, cyrff cyhoeddus eraill ac endidau preifat. Ei nod oedd cefnogi cymunedau neu newydd-ddyfodiaid sy'n ceisio cael mynediad i dir ar gyfer ffermio amaetholegol, a chefnogi tiffeddianwyr sy'n chwilio am gael eu tir wedi'i ffermio yn y dyfodol. Ei nod oedd dod â thirfeddianwyr a chymunedau at ei gilydd i droi mentrau ffermio newydd yn realiti.

Roedd gan ffrwd waith 5 gyfnod ymchwil, pan wnaethon nhw arolygu awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus cenedlaethol, fel Cyfoeth Naturiol Cymru a'r parciau cenedlaethol. Cafodd canlyniadau'r arolwg eu dadansoddi a'u cofnodi. Cynhaliodd arolwg hefyd gyda cheiswyr tir, gan ofyn am wybodaeth am ba mor barod oedden nhw a pha mor fedrus oedden nhw i redeg busnes garddwriaeth. Cafwyd ymateb da gan geiswyr tir. Fe wnaethon nhw hefyd adolygu polisïau Cymru, y DU a rhai rhyngwladol ar fynediad cymunedol i dir.



## 8.1 GWEITHGAREDD AC ALLBYNNAU

Mae'r ffrwd waith wedi cyflawni:

Dyfarnwyd tua **£100,00** i **2** brosiect i gefnogi prynu tir fferm ar gyfer ffermio amaetholegol gyda budd cymunedol hirdymor

**10** cyfarfod o'r bartneriaeth ddysgu ar gyfer awdurdodau lleol

**2** sesiwn hyfforddi ar gyfer ceiswyr tir

**2** ddigwyddiad yn targedu perchnogion tir cyhoeddus, wedi eu cynnal mewn cysylltiad â ffrydiau gwaith eraill

**2** astudiaeth achos yn arddangos arfer da presennol ymhlith amrywiaeth o grwpiau sy'n cael mynediad i dir sy'n eiddo cyhoeddus, gydag eraill yn cael eu datblygu

**2** adroddiad polisi yn amlinellu'r polisïau ar fynediad cymunedol i dir yng Nghymru a'r DU yn ehangach



Ar ôl cynnal yr ymchwil, cychwynnodd y tîm y cyfnod digwyddiadau ac adeiladu perthynas. Roedd y digwyddiad cyntaf wedi'i anelu at berchnogion tir cyhoeddus. Dangosodd llawer o awdurdodau lleol ddiddordeb yn y gwaith hwn, ac roedd ganddyn nhw ddiddordeb i'w drafod. Sefydlwyd partneriaeth ddysgu awdurdod lleol, gyda chyfarfodydd misol. Roedd y ffrwd waith yn cynnig cefnogaeth ac yn cyfeirio at adnoddau, ac yn meithrin amgylchedd dysgu cymheiriaid. Trefnodd y tîm hefyd ddigwyddiadau ar gyfer ceiswyr tir: digwyddiad generig ym mis Medi 2022 i adolygu canlyniadau'r arolwg a chyfeirio cyfranogwyr at adnoddau, ac ail ym mis Mai 2023, gan edrych ar fodolau cyllido cymunedol.

Mae tair astudiaeth achos wedi'u hysgrifennu, gyda disgwyl i un arall gael ei chwblhau erbyn diwedd y prosiect RGS.

Y gweithgaredd terfynol oedd cais i brynu tir, gyda chyfanswm cronfa ariannu o £100,000. Roedd hyn yn gofyn am ymdrech sylweddol rhwng mis Hydref 2022 a mis Ionawr 2023. Cafodd tri chais eu dewis i'w cyllido, ond mae heriau o hyd i gwblhau'r trosglwyddiad cyn dyddiad gorffen y prosiect oherwydd natur marchnadoedd tir.



## 8.2 EFFEITHIAU A DEILLIANNAU

Mae crynodeb o gynnydd y llif gwaith yn erbyn deilliannau yn Nhabl 9.


DEILLIANT	CYNNYDD	TYSTIOLAETH
<b>O1</b> Bydd gan grwpiau cymunedol a newydd-ddyfodiaid sydd am gael mynediad i dir fwy o wybodaeth am dir sy'n eiddo cyhoeddus	4 gweminar a digwyddiadau hyfforddi wedi'u cyflwyno  3 astudiaeth achos wedi'u cyhoeddi	Ffurflenni adborth digwyddiadau
<b>O2</b> Mae gan awdurdodau lleol a chymunedau ddarlun clir o statws tir amaeth sy'n eiddo i awdurdodau lleol yng Nghymru, ac unrhyw fylchau gwybodaeth sy'n weddill, a chyfleoedd ar gyfer dulliau newydd ar y cyd o reoli tir fferm a chefnogi newydd-ddyfodiaid	Partneriaeth ddysgu ar gyfer awdurdodau lleol wedi'i sefydlu ac wedi cwrdd 10 o weithiau	Cyfweliadau ansoddol  Ffurflenni adborth digwyddiadau
<b>O3</b> Mae gan dirfeddianwyr preifat a chymunedau amrywiaeth o enghreifftiau o arfer gorau i gyfeirio atyn nhw wrth ddatblygu trefniadau ffermio cydweithredol yn y dyfodol, a deall yn well y cyfleoedd a'r rhwystrau a allai godi wrth weithio tuag at y rhain	2 astudiaeth achos wedi'u cyhoeddi	Cyfweliadau ansoddol  Ffurflenni adborth digwyddiadau
<b>O4</b> Gall cymunedau/newydd-ddyfodiaid mewn hyd at 4 lle gymryd y camau cyntaf i gael mynediad i dir a/neu sefydlu ffermydd cymunedol / banciau tir newydd (1 ar dir preifat, 3 ar dir sy'n eiddo i awdurdodau lleol)	£100k i gael ei ddsbarthu i 2 gymuned er mwyn sicrhau mynediad i dir	Cyfweliad arweiniol WS
<b>O5</b> Mae tirfeddianwyr preifat a chyhoeddus yn deall potensial eu tir i gefnogi ffermydd cymunedol a/neu fanciau tir, a'r manteision y bydd hyn yn eu cynnig, ac mae gan awdurdodau lleol fwy o syniadau ar gyfer newid polisi er mwyn cefnogi neu gymell y mentrau hyn	2 adroddiad polisi wedi'u cyhoeddi  2 astudiaeth achos wedi'u cyhoeddi  Partneriaeth ddysgu ar gyfer awdurdodau lleol wedi'i sefydlu ac wedi cwrdd 10 o weithiau	Cyfweliadau ansoddol  Cyfweliad arweiniol WS

TABL 9: Cynnydd FfW5 gyda deilliannau

Llwyddodd FfW5 i gyrraedd y targedau a osodwyd ar gyfer y prosiect. Nid oedd rhai gweithgareddau wedi gweithio yn ôl y disgwyl yn wreiddiol, tra bod eraill yn ymateb i anghenion a ddaeth i'r amlwg trwy weithgarwch cychwynnol y prosiect. Yr arolwg o ddaliadau tir oedd y gweithgaredd anoddaf: roedd yn uchelgeisiol i fapio'r holl dir a ddelir yn gyhoeddus. Cedwir data angenrheidiol mewn llawer o wahanol leoedd ar draws pob awdurdod lleol; Does dim rôl benodol ym mhob awdurdod lleol yn cadw'r wybodaeth, ac mewn rhai achosion, nid yw awdurdodau lleol yn fodlon neu'n gallu ei rhannu.

Er gwaethaf mynediad at ddata, mae'r gwaith gydag awdurdodau lleol wedi bod yn effeithiol, gyda pherthnasoedd cryf yn eu lle ar gyfer gwaith yn y dyfodol. Drwy gydweithio ar dir fferm awdurdodau lleol, mewn trefniant sy'n gweithio i awdurdodau lleol a chymunedau fel ei gilydd, efallai y bydd cyfleoedd i newydd-ddyfodiaid arloesol gychwyn ar amaethyddiaeth organig neu amaetholegol, tra'n rhannu rhai o'i risgiau a'i gostau cynhenid gyda grŵp ehangach. Gallai hyn feithrin systemau bwyd mwy cynaliadwy a lleol, a gwella iechyd a lles pobl leol.

Wrth gwrs, nid yw manteision posibl cymunedau lleol yn cael eu cysylltu'n well â'u ffermwyr, eu ffermdir a'u systemau bwyd lleol, wedi'u cyfyngu i ystadau awdurdodau lleol, felly efallai y bydd cyfleoedd i roi cynnig ar ddulliau cydweithredol tebyg ar dir preifat, gyda'r gefnogaeth gywir yn ei lle. Er bod y ceisiadau am gyllid a'r gweithgarwch uchod wedi canolbwyntio ar berchnogaeth tir cymunedol, sylweddolwyd bod gwaith i'w wneud hefyd i ddogfennu opsiynau blaengar ar gyfer tirfeddianwyr preifat. Angen arall a ddaeth i'r amlwg o'r gwaith oedd adnabod opsiynau eraill ar gyfer cefnogi grwpiau cymunedol a gyflwynodd geisiadau aflwyddiannus; sut gall eu hamcanion ar gyfer manau tyfu sy'n eiddo i'r gymuned gael eu gwireddu?



## 8.2.1 AWDURDODAU LLEOL

Roedd cyfranogwyr o awdurdodau lleol oedd yn cymryd rhan yn y bartneriaeth ddysgu yn ei chael hi'n ddefnyddiol cysylltu ag awdurdodau lleol eraill ledled Cymru oedd yn gweithio tuag at yr un nod, mewn cyd-destunau gwahanol gyda rhanddeiliaid gwahanol, gan gynnwys swyddogion a Chynghorwyr. Roedden nhw'n gwerthfawrogi cael man agored lle gellid rhannu heriau a datrys problemau. I'r rhai gafodd eu cyfwrdd, roedd bod yn newydd i'w maes polisi yn gymhellant allweddol i ymuno â'r cyfarfodydd; adroddodd y ddau fod ganddyn nhw fwy o wybodaeth o ganlyniad. Dywedodd un cyfranogwr:

*"Mae wedi rhoi mwy o hyder i mi, yn yr hyn dwi'n ei wneud a gwybod bod cefnogaeth yno. Pe byddai gennych chi gwestiynau gan gynghorwyr neu gwestiynau mewnol gan swyddogion uwch, efallai na fyddai'r ateb gennych ar unwaith, [ond] mae gennych rwydwaith i fynd allan ato, ac efallai eu bod wedi profi'r mater hwnnw o'r blaen."*  
(Buddiolwr 1 FfW5, De Cymru)

O ganlyniad i'r gwaith hwn, roedd swyddogion awdurdodau lleol wedi gallu gwneud cysylltiadau â gwahanol ardaloedd yng Nghymru a Lloegr a dysgu ganddynt. Dywedodd un cyfranogwr:

*"Mae wedi helpu i ddeall sut y gall rhai swyddogion llywodraeth leol mwy profiadol weithio, a sut y gallwch chi ddod â phobl at ffyrdd newydd o weithio a meddwl am broblemau."*  
(Buddiolwr 2 FfW5, De Cymru)

O ran hyrwyddo mynediad cymunedol i dir, mae'r ffrwd waith wedi helpu awdurdodau lleol i symud ymlaen yn gyflymach nag y byddai hebddi. Er enghraifft, wrth ddatblygu canllawiau ynghylch tyfu cymunedol, dywedodd un cyfranogwr:

*"Fe wnaeth [y bartneriaeth] helpu i gyflymu'r broses a chael dealltwriaeth gwirioneddol gadarn o'r hyn y gallwn ac na allwn ei wneud o ran cynllunio gyda ffensys a strwythurau ar dir tyfu cymunedol posibl."*  
(Buddiolwr 1 FfW5, De Cymru)

Mewn achos arall, mae'r bartneriaeth wedi helpu un awdurdod lleol i ddysgu o gamgymeriad pobl eraill ac yna symud ymlaen gyda'u trosglwyddiad asedau cymunedol cyntaf o dir yn gyflymach. Yn yr un modd, mae rhannu dysgu wedi creu dull mwy cydgysylltiedig o fewn un awdurdod lleol:

*"Er enghraifft, mae [trosglwyddo asedau cymunedol] yn dibynnu ar y tîm ystadau corfforaethol, gan wneud y mwyaf o dderbyniadau, a chynyddu gwerth asedau. Er mai natur trosglwyddo tir yn y gymuned yn y cyd-destun penodol hwn yw treialu technegau ffermio arloesol na fyddan nhw'n gweithio o bosibl. Ac felly nid yw cael y derbynebaw uchaf wir yn ystyrlon. Felly [o fewn y bartneriaeth] roedden ni'n dysgu sut mae wedi cael ei wneud yn wahanol mewn ardaloedd eraill tra'n dal i gadw'r heddwch."*  
(Buddiolwr 2 FfW5, De Cymru)

## 8.2.2 CEISWYR TIR



Nid oedd y gwaith gyda cheiswyr tir yr hyn a ddisgwyliwyd ar y dechrau: roedd y tîm wedi rhagweld dod o hyd i bobl a oedd â sgiliau da, yn barod i gael mynediad i dir a dechrau tyfu. Er eu bod mewn cysylltiad â llawer o geiswyr tir gyda sgiliau tyfu, roedd llawer llai oedd hefyd yn gwybod sut i redeg busnes. Arweiniodd hyn at gwestiynau a oedd hyn yn ddiffyg yn eu gallu i ddsbarthu'r arolwg yn eang, neu'n adlewyrchu bod y set sgiliau ar goll mewn gwirionedd ymysg y rhai sydd â diddordeb mewn cael mynediad i dir ar gyfer garddwriaeth. Y dysgu allweddol o'r ffrwd waith yw bod sgiliau busnes a threfniadau llywodraethiant ar goll ymhlith y gymuned sy'n ceisio tir.

Nododd cyfranogwyr fu'n cymryd rhan mewn gweminarau a digwyddiadau hyfforddi well dealltwriaeth o'r rhwystrau a'r gefnogaeth sydd ar gael i gael mynediad i dir cyhoeddus yng Nghymru. Roedden nhw'n gwerthfawrogi dysgu gan eraill, darganfod pa gefnogaeth a chynghor ariannol sydd ar gael a sut mae modelau penodol o ariannu yn gweithio, fel Model Cyfranddaliadau Cymunedol. Mae enghreifftiau o'r hyn yr oedd pobl wedi'i gael yn fwyaf gwerthfawr yn cynnwys:

*"Clywed profiadau ceiswyr tir llwyddiannus neu aflwyddiannus yng Nghymru. Dysgu am y gefnogaeth sydd ar gael yng Nghymru. Trafod materion mynediad i'r tir."*  
(Ffurflen adborth cyfranogwyr)

*"Mae lefel y gefnogaeth y gall Cwmpas ei gynnig a hefyd bod gan Shared Assets gymaint o arbenigedd."*  
(Ffurflen adborth cyfranogwyr)



### 8.3 HERIAU

Awgrymodd cyfranogwyr yn y bartneriaeth ddysgu y gallai'r cyd-destun gwahanol y mae pob awdurdod lleol yn gweithredu o'i fewn, o ran tir, fod wedi rhwystro trosglwyddo dysgu. Er enghraifft, dywedodd un cyfranogwr:

*“Mae pob sir yn wahanol iawn, ac felly nid yw cael siaradwr a fyddai wedi gweddu i'n pwnc garddio marchnad ni, yn yr hyn rydyn ni'n mynd i'w wneud yn ystod y misoedd nesaf, ddim yr hyn sydd ei angen ar [enw awdurdod lleol] ac nid dyna mae [enw awdurdod lleol] yn ei wneud. Felly, fyddai hynny ddim wedi apelio atyn nhw, na fyddai?”*  
(Buddiolwr 3 FfW5, De Cymru)

Felly, ar gyfer holl gyfranogwyr awdurdodau lleol, roedd yr astudiaethau achos yn ddefnyddiol i ddeall pa wahanol ddulliau sy'n bodoli, ond gallan nhw fod yn anodd eu trosglwyddo i'w hardal gan fod y cyd-destunau a'r graddfeydd yn wahanol iawn.

O ystyried bod swyddogion awdurdodau lleol yn gweithio ar draws sawl maes polisi, roedd blaenoriaethu presenoldeb yn y bartneriaeth ddysgu weithiau'n anodd. Efallai bod hyn wedi cyfrannu at rai'n gadael cyn diwedd y rhaglen. Awgrymodd y cyfranogwyr fod hyn wedi arwain at berthynas waith agosach rhwng y rhai oedd yn weddill, ond roedd yn golygu bod cronfa lai o wybodaeth a phynciau wedi eu trafod. Roedd hi hefyd wedi bod yn anodd symud ymlaen o un cyfarfod i'r llall, gan fod pynciau tebyg yn cael eu haildrafnod ar gyfer mynychwyr newydd. Awgrymodd y cyfranogwyr fod cael strategaeth tyfu cymunedol leol yn ei le, neu brynu i mewn gan uwch gydweithiwr neu Gynghorydd wedi eu helpu i flaenoriaethu'r cyfarfodydd hyn.

Weithiau mae polisiâu a phrosiectau mewn cyfnod pan na all swyddogion rannu gwybodaeth yn ehangach, a all fod yn her wrth fynychu digwyddiadau. Hefyd, efallai mai dim ond am lwyddiannau y byddan nhw'n siarad, yn hytrach na brwydrau a methiannau, a fyddai hefyd yn cyflwyno dysgu defnyddiol.

Roedd yn arbennig o heriol cael y cysylltiadau cywir yn yr awdurdodau lleol lle mae prinder staff ac sy'n hynod brysur. Mewn rhai achosion, chafodd y cyswllt cychwynnol ddim ei wneud gyda'r bobl gywir; Roedd hi'n anodd gwybod gyda phwy i gysylltu oherwydd mai ychydig o fanylion cyswllt sydd ar gael i'r cyhoedd. Yn aml, roedd yn rhaid i'r tîm ddibynnu ar dafod leferydd i ddod o hyd i'r cyswllt cywir mewn awdurdod lleol.




### 8.4 GWERSI A GWADDOL I'R DYFODOL

Mae'r partneriaid yn bwriadu cyfathrebu allbynnau eu prosiectau mor eang ag y gallan nhw. Fe hoffan nhw barhau i gydweithio gyda phartneriaid, awdurdodau lleol a grwpiau cymunedol y maen nhw wedi cydweithio â nhw. Gyda dim ond 18 mis i gynnal gweithgareddau, maen nhw'n teimlo eu bod newydd ddechrau ac yn chwilio am gyfleoedd i adeiladu ar y gwaith hwn am nifer o flynyddoedd eto.

Er bod angen cyllid arnyn nhw i barhau gyda'r gwaith hwn, mae angen newid y cyd-destun cyllido a pholisi o ran yr hyn y mae pobl yn ei feddwl sy'n atebion i systemau bwyd ac argyfyngau amaethyddol. Mae deddfwriaeth yn yr Alban yn enghraifft dda o sut i lunio polisi i roi mynediad i dir i gymunedau. Mae yna hefyd offerynnau presennol y gellid eu defnyddio'n well i flaenoriaethu tyfu bwyd, er enghraifft trwy ddiogelu tir amaethyddol o safon uchel rhag datblygu tai.

Dangosodd yr arolwg o geiswyr tir i ba raddau y mae angen help arnyn nhw gyda sgiliau busnes. Nid yw cwmpas eu huchelgeisiau a'u dyheadau yn cael eu cefnogi gan sgiliau a gwybodaeth fusnes neu gyfreithiol. Maen nhw hefyd yn tueddu i fod heb ffynhonnell o gyllid busnes. Mae'r rhain yn faterion i'w hystyried ar gyfer darparu hyfforddiant dilynol.

Darganfu'r tîm fod cynnydd yn arafach na'r disgwyl, yn enwedig mewn perthynas â materion tir a chymhlethdodau seilwaith cynghorau. Nid yw data tir yn dryloyw ac mae'n anodd iawn cael gafael arno, ac yn aml nid yw awdurdodau lleol yn gallu ei rannu, ac efallai na fydd wedi ei lunio mewn un ffynhonnell.





## 9.0 SGILIAU

Fel cydweithrediad rhwng Lantra a Gweithwyr y Tir datblygodd a chyflwynodd y ffrwd waith becyn hyfforddi peilot yn ymdrin â'r sgiliau sydd eu hangen i redeg busnesau ffermio garddwriaethol. Comisiynodd ymchwil yn edrych ar y ddarpariaeth bresennol o hyfforddiant garddwriaeth yng Nghymru, gan fyfyrir ar ble mae anghenion hyfforddi'r sector ar hyn o bryd.

Bu prosiect ymchwil cysylltiedig gan Brifysgol Caerdydd yn gweithio gyda grwpiau o bobl ifanc, i ddeall eu canfyddiadau o gyfleoedd gyrfa, a sut mae'r rhain yn cael eu heffeithio gan gyswllt â hyfforddeion garddwriaethol.



## 9.1 GWEITHGAREDD AC ALLBYNNAU

Mae'r ffrwd waith wedi cyflawni:

Cwricwlwm wedi'i gyd-ddylunio yn cwmpasu sgiliau garddwriaethol amaetholegol i redeg fferm arddwriaethol fasnachol, wedi'i hachredu gan Agored Cymru

Dwy rownd o hyfforddeiaeth ar gyfer **12** a **15** o hyfforddeion, ar **8** fferm letyol

Roedd yr hyfforddiant yn cynnwys o leiaf **5** mis o brofiad ar y fferm (21+ awr yr wythnos), **5** gweminar theori wedi'u darparu gan hyfforddwyr a **4** ymweliad fferm

**5** gweithdy 'hyfforddi'r hyfforddwr'

Sesiynau hyfforddi arbenigol mewn gyrru tractorau a chymorth cyntaf

Cyhoeddi adroddiad ymchwil 'Mapio darpariaeth hyfforddiant garddwriaeth bresennol (a gofynion cyfredol y sector)'

**3** sesiwn gyda grwpiau o bobl ifanc i archwilio eu canfyddiadau o yrfaedd mewn tyfu bwyd, gyda phedwaredd wedi'i threfnu i ddigwydd ar ôl adrodd ar y gwerthuso

Ffilm yn codi ymwybyddiaeth am yrfaedd garddwriaethol wedi'u targedu at bobl ifanc wedi'i chreu a'i chylchredeg yn gyhoeddus





## 9.2 EFFEITHIAU A DEILLIANNAU

Mae crynodeb o gynnydd y llif gwaith yn erbyn deilliannau yn Nhabl 10.

DEILLIANT	CYNNYDD	TYSTIOLAETH
<p><b>O1</b> Gwell dealltwriaeth o ganfyddiadau pobl ifanc o arddwriaeth ac a yw dod i gysylltiad â gweithwyr yn y sector hwn yn effeithio arnynt.</p> <p>Cyngor a deunyddiau ar gyfer gwasanaethau gyrfaoedd ar sut i hyrwyddo cyfleoedd cynhyrchu bwyd i bobl ifanc, wedi'u teitwra i gwricwlwm Cymru</p>	<p>Ymchwil i'r ddarpariaeth hyfforddiant bresennol</p> <p>Creu fideo yn codi ymwybyddiaeth am yrfaedd garddwriaethol wedi'u targedu at bobl ifanc a'i gylchredeg yn gyhoeddus</p>	<p>Wedi'i gyhoeddi</p> <p>Wedi'i gyhoeddi</p>
<p><b>O2</b> Mae mwy o bobl yn cael eu hyfforddi mewn sgiliau arbenigol, gan eu galluogi i fod yn weithwyr gwerthfawr mewn garddwriaeth</p>	<p>Datblygwyd a threalwyd hyfforddeiaeth gyda 27 o hyfforddeion garddwriaeth newydd</p>	<p>Cyfweliadau ansoddol Grwpiau ffocws Holiaduron Data monitro</p>
<p><b>O3</b> Creu sector garddwriaeth gryfach sy'n gallu cynnig cyflogaeth fwy hirdymor. Hefyd i wneud sector garddwriaeth Cymru yn fwy apelgar i bobl ddewis gyrfa</p>	<p>Dywedodd y mwyafrif o hyfforddeion eu bod wedi magu hyder ac ysbrydoliaeth i weithio yn y sector</p> <p>Adroddodd yr holl hyfforddeion uchelgais hirdymor i aros yn y sector garddwriaethol; sicrhodd hanner ohonyn nhw swydd neu gyfle gwirfoddoli / dysgu yn gysylltiedig â garddwriaeth yn syth ar ôl yr hyfforddeiaeth.</p>	<p>Cyfweliadau ansoddol</p> <p>Holiaduron</p>
<p><b>O4</b> Bydd ffermydd sy'n cynnal hyfforddeion ar hyn o bryd yn cael eu huwchgilio o ran sut y maen nhw'n hyfforddi tra'u bod ar y fferm. Byddan nhw'n derbyn cwricwlwm i'w helpu i strwythuro hyfforddiant. Bydd ffermydd nad ydyn nhw'n cynnal hyfforddeion ar hyn o bryd, ond a hoffai wneud hynny, yn cael cwricwlwm i'w helpu i strwythuro hyfforddeiaeth.</p>	<p>Dywedodd hanner yr hyfforddwyr (n=3) eu bod wedi ennill sgiliau a/neu hyder wrth gyflwyno hyfforddiant</p> <p>Fe ddywedon nhw hefyd fod y rhaglen wedi dylanwadu ar y ffordd y maen nhw'n darparu hyfforddiant ar y fferm, er enghraifft gwneud iddyn nhw ganolbwyntio ar y sgiliau masnachol yn hytrach na sgiliau tyfu.</p>	<p>Cyfweliadau ansoddol</p> <p>Holiaduron</p>

TABL 10: Cynnydd FfW6 gyda deilliannau

### 9.2.1 MAE MWY O BOBL YN CAEL EU HYFFORDDI MEWN SGILIAU ARBENIGOL, GAN EU GALLUOGI I FOD YN WEITHWYR GWERTHFAWR MEWN GARDDWRIAETH

Roedd yr holl hyfforddeion yn cytuno neu'n cytuno'n gryf eu bod wedi ennill sgiliau a galluoedd mewn tyfu masnachol, ar raddfa cae ac yn teimlo eu bod wedi'u hysbrydoli i barhau i weithio yn y sector garddwriaethol. Roedd hyfforddeion wedi cael bod integreiddio gwahanol ddulliau dysgu yn arbennig o werthfawr. Ynghyd â chreu cymuned gref o bobl o'r un anian, arweiniodd hyn at fwy o hyder wrth ddilyn gyrfaoedd garddwriaethol. Roedd hyfforddeion yn gwerthfawrogi'r dysgu ychwanegol a ddaeth o fewn y rhwydwaith ei hun, sydd wedi helpu i'w paratoi ar gyfer gyrfa mewn garddwriaeth, gan gynnwys cyllid ar gyfer cyrsiau gyrru tractor neu bresenoldeb yn y Ffair Sgiliau Tir. Dywedodd hyfforddwyr fod darparu sgiliau amaetholegol a masnachol yn llenwi bwlch pwysig yn y farchnad arddwriaethol, a thrwy hynny ychwanegu gwerth i'r sector yng Nghymru.

Roedd yr hyfforddeiaeth yn integreiddio ffyrdd gwahanol unigryw o ddysgu (dysgu damcaniaethol ac ymarferol ar y fferm, gweminarau ar-lein ac ymweliadau fferm) a oedd gynt ar goll o hyfforddiant garddwriaethol:

*“Dwi ddim yn dda iawn am jyst edrych ar sgrin a dysgu felly. Felly roedd y mathau [gwahanol] o sesiynau a gawsom yn ddefnyddiol iawn oherwydd ei fod yn ychwanegol i'r tyfu fel yr hyfforddeiaeth arferol, byddai'r prif dyfwr yn gwneud sesiwn unwaith yr wythnos gydag ychydig mwy o theori. Achos byddai'n hoffi siarad amdano ac roedd gen i gyfeiriadau o'r hyn rydyn ni wedi bod yn ei gael ar y fferm. Roedd yn dda ei gael fel yna. Ac yna ar ben hynny, cawsom y gweminarau hefyd, a fyddai wedyn yn cadarnhau'r hyn yr oedden ni eisoes wedi'i ddysgu.”*  
(Buddiolwr 2 FfW6)

Canfu'r rhan fwyaf o'r cyfranogwyr mai ymweliadau â ffermydd oedd y rhan fwyaf gwerthfawr o'r hyfforddeiaeth, gan eu galluogi i weld amrywiaeth o dechnegau, dulliau a modelau busnes sy'n ymwneud â garddwriaeth amaetholegol. Roedd hwn yn gyfraniad allweddol, na fyddai'n bosibl ei gyflawni drwy brofiadau dysgu datgysylltiedig ar ffermydd unigol. Roedd yr ymweliadau fferm wedi chwarae rhan bwysig yn cryfhau'r rhwydwaith a chreu cymuned o bobl o'r un anian (hyfforddeion, tyfwyr, newydd-ddyfodiaid). Roedd hyfforddeion a thyfwyr yn gwerthfawrogi'r cyfle i ddysgu oddi wrth ei gilydd a'u profiadau amrywiol, gan gynnwys tryloywder a bod yn agored am lwyddiannau a methiannau, modelau busnes a chyllid. Mewn rhai achosion, roedd ymweliadau fferm yn gallu llenwi bylchau mewn gwybodaeth nad oedd ar gael ar eu fferm letyol (h.y. meddyginiaeth lysieuol). Roedden nhw hefyd yn werthfawr yn trosglwyddo'r wybodaeth rhwng ffermydd a helpu hyfforddeion i ddod yn dyfwyr mwy hyderus.



### 9.2.2 CREU SECTOR GARDDWRIAETH CRYFACH SY’N GALLU CYNNIG MWY O GYFLOGAETH HIRDY MOR

Roedd hyfforddeion yn gwerthfawrogi ennill sgiliau garddwriaeth fasnachol dros gyfnod hirach ac mewn gofodau mwy, gan ddatblygu sgiliau garddwriaethol sylfaenol o dyfu gartref neu mewn gardd gymunedol, i gae, ar raddfa gardd fasnachol. Roedd hyn yn cynnwys dysgu am dyfu ar raddfa cae, cylchdroi cnydau, cynllunio tymor hir, tyfu ar raddfa ac ar gyfer y farchnad. Fodd bynnag, aeth y sgiliau a ddysgwyd fel rhan o'r hyfforddeiaeth y tu hwnt i dyfu. Roedd hyfforddeion yn gwerthfawrogi'r hyfforddiant ychwanegol a ddaeth gyda'r rhwydwaith ei hun ac mae wedi helpu i'w paratoi ar gyfer gyrfa yn y sector garddwriaethol. Er bod mwyafrif yn cytuno eu bod wedi ennill sgiliau a galluoedd ar redeg busnes (75% yn Holiadur Carfan 1), dyma'r pwynt gwannaf o'i gymharu ag elfennau eraill yr hyfforddiant. Roedd hwn yn llinyn cyffredin yn y cyfweiliadau dilynol lle awgrymodd pobl y dylai hyfforddiant yn y dyfodol ganolbwyntio ar sgiliau cyfrifeg a busnes, ochr yn ochr â chyfluoedd a chyllid i ddysgu sgiliau eraill, fel gwaith saer neu ddefnyddio peiriannau. Roedd cael y sgiliau ychwanegol hyn yn cael ei ystyried yn bwysig i gael swydd fel cynorthwydd /prif dyfwr:

*“Mae'r cwrs hwn wedi gwneud i dyfu ymddangos fel rhywbeth mwy hygrych i mi lle roeddwn i'n meddwl efallai y byddai angen gradd neu brofiad teuluol arnoch chi cyn hynny i gael eich derbyn i'r proffesiwn. Byddwn yn bendant yn teimlo'n fwy hyderus i wneud cais am swyddi tyfwyr cynorthwyol ond nid i ddechrau busnes. Mae'r ffordd y mae LWA wedi gallu ein cysylltu â ffermydd eraill wedi bod yn hynod fuddiol, mae wedi gwneud i mi deimlo bod mynd i mewn i dyfu yn nod cyraeddadwy”*  
(cyfranogwr FfW6, Carfan 1, Holiadur 2)

Dywedodd hyfforddeion eu bod wedi magu hyder ac ysbrydoliaeth i weithio yn y sector, a deall sut i dyfu'n fasnachol. Fodd bynnag, allan o bum hyfforddai gafodd eu cyfwrdd o Garfan 2, dim ond un oedd yn teimlo'n hyderus i ddod yn brif dyfwr. Yn ôl Carfan 2, ar ddiwedd yr hyfforddeiaeth: cofrestrwyd tri hyfforddai ar gyrsiau hyfforddi eraill; roedd pedwar

eisiau parhau i wirfoddoli ar eu fferm letyol, ochr yn ochr â gwaith cyflogedig arall; doedd chwech ddim yn gwybod beth oedd y camau nesaf yn eu gyrfa. Gallai hyn fod oherwydd natur dymhorol swyddi mewn garddwriaeth. Llwyddodd y tri hyfforddai gafodd eu cyfwrdd o Garfan 1 i gael swyddi ar ôl gorffen eu hyfforddeiaeth, tra bod dau wedi sicrhau hyfforddeiaeth arall. Efallai y bydd elfen rhywedd i hyn hefyd, yn gysylltiedig ag anghydraddoldeb o ran rhyw ar draws amaethyddiaeth: dywedodd hyfforddeion benywaidd eu bod yn llai hyderus na hyfforddeion gwrywaidd wrth symud ymlaen i swyddi cynorthwydd neu brif dyfwr.

O ran dyheadau ar gyfer eu hyfforddeion, roedd y rhai a oedd yn cynnal Carfan 1 yn gobeithio y byddai hyfforddeion yn parhau i weithio mewn garddwriaeth, gydag un yn cymhwyso hyn drwy ddweud y gallai rhai hyfforddeion gael eu galluogi i sylweddoli a yw hynny'n addas iddyn nhw ai peidio. Roedd pawb yn cytuno bod hyn wedi cael ei fodloni 'llawer iawn' neu 'eithaf tipyn', gyda'r rhesymau canlynol:

*Roeddwn i'n meddwl bod yr hyfforddiant yn ardderchog am ennyn diddordeb hyfforddeion yn y sector garddwriaethol fel gyrfa, yn hytrach na swydd yn unig, trwy eu cysylltu ag eraill yn y diwydiant.”*

*“O'n 5 hyfforddai, mae un wedi ymuno â'n busnes ni, mae un ar hyn o bryd yn trefnu i rentu tir i ddechrau ei busnes ei hun y flwyddyn nesaf, mae gan un ddyheadau gwirioneddol, ond dim byd penodol, i gael swydd yn y sector, ac mae dau yn mynd yn ôl at waith arall (nid gwaith garddwriaethol) hyd y gellir ei ragweld.”*

Yn yr un modd, roedd mwyafrif yr hyfforddeion yn teimlo y byddai hyfforddeiaeth hirach yn meithrin mwy o sgiliau a hyder, yn enwedig mewn perthynas â chynllunio cnydau a chael mwy o gyfrifoldebau. Serch hynny, adroddodd yr holl hyfforddeion uchelgais hirdymor i aros yn y sector garddwriaethol a sicrhodd hanner ohonyn nhw swydd, lleoliad gwirfoddoli neu ddysgu yn gysylltiedig â garddwriaeth yn syth ar ôl yr hyfforddeiaeth.

### 9.2.3 BYDD FFERMYDD SY’N CYNNAL HYFFORDDEION AR HYN O BRYD YN CAEL EU HUWCHSGILIO O RAN SUT Y MAEN NHW’N HYFFORDDI TRA’U BOD AR Y FFERM

Mae'r holl westeion wnaeth lenwi holiaduron gwerthuso yn y ddwy garfan (n = 3 ac n = 3) wedi darparu hyfforddiant anffurfiol yn flaenorol i staff a gwirfoddolwyr, ac roedd y mwyafrif wedi rhoi lleoliad i hyfforddeion. Cafodd pawb eu hysgogi i gymryd rhan yn y rhaglen i gefnogi datblygu sgiliau yn y sector, ochr yn ochr â nodau eraill yn ymwneud â sgiliau a hyfforddiant. Roedd dau wedi ystyried cymryd rhan mewn rhaglen amgen - Rhwydwaith y Coleg Agored a Kickstarter - ond wedi dewis dilyn hwn oherwydd bod y cynnwys yn fwy perthnasol i dyfu amaetholegol ac oherwydd lefel yr hyblygrwydd a'r ymreolaeth iddyn nhw ddewis eu hyfforddeion a dylunio'r rhaglen tra'n gwella cyflogadwyedd hyfforddeion: Roedd adborth gan hyfforddwyr yn cytuno bod yr holl ddigwyddiadau a sesiynau hyfforddi wedi'u cynllunio a'u cynnal yn dda. Roedd llai o sicrwydd bod digwyddiadau a sesiynau hyfforddi yn addas i'w hanghenion gyda hanner yr ymatebwyr yn niwtral ar y mater hwn:

*“Ond o'n i'n teimlo fel bod dim cyfathrebu rhwng yr hyfforddwyr. Doedd gen i ddim dylanwad, a dim gwybodaeth wirioneddol o'r hyn oedd yn cael ei gyflwyno i fy hyfforddeion o rywle arall. Boed yn ymweliadau fferm neu weminarau, byddwn wedi hoffi cysylltu'r hyn yr oedden nhw'n cael eu dysgu mewn manau eraill gyda'r hyn yr oedden ni'n ei wneud yn ddyddiol.”*

(Hyfforddwr, Carfan 2, Cyfweiliad)

Dywedodd hanner y cyfranogwyr eu bod wedi ennill sgiliau a/neu hyder wrth ddarparu hyfforddiant, a bod y rhaglen wedi dylanwadu ar y ffordd y maen nhw'n darparu hyfforddiant ar y fferm, er enghraifft gwneud iddyn nhw ganolbwyntio ar y sgiliau masnachol yn hytrach na'r sgiliau tyfu. Cafodd y gweithdai 'hyfforddi'r hyfforddwr' yng Ngharfan 2 eu harwain gan ddarparwr gwahanol na rhai Carfan 1 ac roedd ganddo ffocws mwy addysgegol ar y cyfan. Wrth edrych yn ôl, mynegodd cyfranogwyr ddi-ddordeb mewn ffocws mwy amaetholegol.






### 9.2.4 EFFEITHIAU YCHWANEGOL

Ar gyfer hyfforddeion, roedd dod i adnabod cyfoedion a thyfwyr ledled Cymru yn cael ei ystyried yn gam cadarnhaol tuag at eu gyrfa yn y dyfodol, wrth i hyfforddeion rannu cysylltiadau, gwybodaeth am swyddi posibl a chyfleoedd eraill. Roedd dimensiwn cymdeithasol adeiladu cymunedol nid yn unig yn ffynhonnell ddysgu, ond hefyd o berthnasoedd cefnogol a llawn hwyl, gan eu galluogi i deimlo'n rhan o fudiad mwy sy'n gweithio tuag at nod cyffredin. Roedd hyn yn bwysig wrth ddelio â chwythu plwch neu ynysu. Amlygodd un hyfforddai fod cysylltu â phobl, naill ai hyfforddeion eraill neu fel rhan o rwydwaith ehangach yr LWA, yn darparu rhwyd ddiogelwch yn erbyn profiadau negyddol:



*“Roedd yn bendant yn teimlo fel bod rhwyd ddiogelwch yma. Os oes rhai ohonom ddim yn cael amser da, nid dim ond chi a'ch fferm sy'n bodoli, mae pobl eraill hefyd yn byw drwy'r un profiad. Efallai eu bod nhw'n mynd drwy frwydrau tebyg i chi, ond rydych chi'n teimlo eich bod yn cael eich cynnal. Dwi wedi siarad gyda ffrindiau sydd wedi gwneud hyfforddeiaethau rhyw wyth mlynedd yn ôl a doedden nhw ddim yn cael eu cynnal, doedd o ddim yn gweithio - doedden nhw ddim yn rhan o grŵp, doedden nhw ddim yn rhan o rwydwaith.”*  
(Cyfweliad Hyfforddai, Carfan 1)



### 9.3 HERIAU

Awgrymodd arweinydd prosiect y gallai swm y gwaith papur i'r ffermydd oedd yn croesawu hyfforddeion fod wedi bod yn rhwystr i ymgysylltu. Fe reolodd hi hyn drwy addasu'r llwyth gwaith mewn perthynas â'r flwyddyn amaethyddol, h.y. i wneud y rhan fwyaf ohono cyn y prif dymor tyfu. O ystyried ei gallu cyfyngedig (1 diwrnod yr wythnos), roedd amser cyfyngedig i gyfathrebu â ffermwyr a hyfforddeion a chafodd hyn ei ddatrys drwy ddefnydd hyblyg o wahanol sianeli.

Roedd capasiti cyfyngedig ffermwyr hefyd yn effeithio ar i ba raddau y gellid cydlynu'r hyfforddeiaeth a'r cwricwlwm ei hun. Er iddo gael ei gyd-ddylunio i ddechrau, roedd y tri hyfforddwr gafodd eu cyfweild yn teimlo bod cyfleoedd pellach i gryfhau cydlynu, yn enwedig cydlynu'r cynnwys, yn y dyfodol. Awgrymwyd y dylid cael mewnbwn gan yr holl hyfforddwyr i'r gwaith dylunio yn ogystal â meithrin cyfathrebu parhaus rhyngddyn nhw â'i gilydd. Hyd yn oed wrth i'r rhaglen adeiladu ar berthnasoedd oedd yn bodoli eisoes a thrafodaethau blaenorol, yn y diwedd efallai y bu llai o ymdeimlad o berchnogaeth gan y tyfwyr.



Mae'r hyfforddeiaeth wedi'i siapio gan amgylchedd sy'n gwneud cyfleoedd hyfforddi mewn garddwriaeth amaetholegol yn anhygyrch, naill ai trwy anallu rhai tyfwyr i dalu Cyflog Byw o ystyried yr amodau ariannol tynn y maen nhw'n gweithredu ynddynt, neu lai o gyfleoedd ar gyfer trafndiaeth a thai mewn ardaloedd gwledig yng Nghymru. I lawer o hyfforddeion, roedd y ffaith bod yr hyfforddeiaeth yn rhad ac am ddim felly yn gymhelliant pwysig i ymuno, yn wahanol i gyfleoedd eraill oedd ar gael. Roedden nhw hefyd yn gwerthfawrogi ariannu costau i fynychu digwyddiadau. Roedd gan bob un drefniadau ariannol gwahanol gyda'u fferm letyol, ond roedd cael cyflog teg am eu gwaith hefyd yn cael ei weld yn ffactor allweddol wrth wneud yr yrfa a'r hyfforddeiaeth yn hygyrch i fwy o bobl, yn hytrach na dim ond i'r rhai sy'n gallu ei fforddio:


*“Fe ges i fy nhalu. Felly roedd yn gynaliadwy i mi yn ariannol, oherwydd roeddwn i wedi edrych ar leoedd eraill, hyfforddeiaethau lle rydych chi'n mynd ac fel gwirfoddolwr, ond dwi'n eithaf cynnar yn fy ngyrfa ac mae costau byw yn ddrud. Felly roedd hynny'n rhan o'r penderfyniad - roedd yn ffordd fwy cynaliadwy yn ariannol o ddysgu hefyd. Dwi wedi ystyried mynd i wirfoddoli ar fferm ond dwi hefyd wedi bod yn poeni braidd am fod ychydig yn ynysig. Felly roedd gallu bod yn rhan o'r rhwydwaith a pharhau i fyw lle dwi'n byw hefyd yn eithaf apelgar”*  
(cyfranogwr WS4, Carfan 2, Cyfweliad)

Her arall sy'n gysylltiedig â hygyrchedd yw bod angen darpariaeth gofal plant ar rai hyfforddeion i allu cymryd rhan. Ymatebodd y ffrwd waith ar gyfer yr ail rownd o hyfforddiant drwy gynnig bwrsari ar gyfer darpariaeth gofal plant (hyd at £100 y penwythnos hyfforddi) neu ganiatáu i blant/plant a gwarchodwyr plant fynychu'r hyfforddiant gyda threuliau wedi eu talu gan y prosiect.

## 9.4 GWERSI A GWADDOL I'R DYFODOL

Fel gwaddol pwysig, canmolodd arweinwyr y prosiect gydweithrediad effeithiol rhwng y partneriaid nad oedden nhw'n gweithio gyda'i gilydd yn y gorffennol. Mae'r partneriaid yn adeiladu'r dysgu o'r peilot hwn i fod yn rhan o waith eu sefydliadau. Sicrhodd Prifysgol Caerdydd gyllid ar gyfer gweithgarwch dilynol gan brofi canlyniadau'r gwerthusiad gyda chylch ehangach o hyfforddeion a thyfwr oedd ddim yn rhan o'r peilot. Mae LWA yn parhau â'i waith yn creu cwricwlwm cyffredin ar gyfer gwaith amaetholegol yn ogystal â safonau gofynnol ar gyfer cyflogi hyfforddeion. Mae hefyd yn cydlynu rhwydwaith sy'n ceisio darparu rhagor o hyfforddiant a chefnogaeth ar draws y DU. Mae Lantra, dan ei waith Cyswllt Ffermio, yn bwrw ymlaen â'r ffoecs ar hyfforddi'r hyfforddwyr trwy fentoriaeth ac ymweliadau fferm. Mae'n dilyn blaenoriaethau a nodwyd gan Ymchwil Miller, mewn cydweithrediad â Chynghrair Garddwriaeth Cymru.

Serch hynny, mae cyllid sylweddol yn hanfodol i ymgorffori ac ehangu'r arfer gorau o ran hyfforddiant mewn mentrau garddwriaethol ledled Cymru. Dylai'r cyllid hwn oresgyn yr heriau hygrychedd a thegwch, gan sicrhau bod tyfwyr yn cael eu had-dalu am eu sgiliau hyfforddi a bod hyfforddeion yn cael cyflog teg am eu gwaith.



## 10.0 CYFLAWNIADAU AR DRAWS Y PROSIECT

### 10.1 EFFEITHIAU A DEILLIANNAU

O ran adeiladu partneriaeth eang yn seiliedig ar ymddiriedaeth a chydweithio, mae RGS wedi bod yn llwyddiannus iawn. Mae SFG wedi rheoli partneriaeth eithaf mawr, yr oedd Llywodraeth Cymru yn awyddus i'w chefnogi. Mae'r prosiect wedi cael

effaith eang ac mae'n eithaf adnabyddus, gan baratoi'r ffordd ar gyfer camau dilynol mewn meysydd eraill. Mae mwy o gydnabyddiaeth yn ymestyn i bartneriaid prosiect, gan eu rhoi mewn sefyllfa i drosoli arweinyddiaeth ar draws y sector.

Crynoir cynnydd yn erbyn y deilliannau a sefydlwyd ar gyfer y rhaglen gyfan yn Nhabl 11.

DEILLIANT	CYNNYDD	FFRYDIAU GWAITH
<b>O1</b> Mae manau gwyrdd lleol yn cael eu rhwydweithio gyda sefydliadau cymunedol tebyg mewn rhannau eraill o'r wlad ac yn cael eu chefnogi ganddyn nhw	Sefydlu rhwydweithiau cenedlaethol ar gyfer rheolwyr rhandiroedd a pherllannau, hyfforddeion a hyfforddwyr ar ffermydd, a pherchnogion tir cyhoeddus Cymryd rhan mewn rhwydweithiau ar gyfer rheoli coridorau mwy gwyrdd	1, 3, 5, 6  4
<b>O2</b> Mwy o fuddsoddiad mewn cynhyrchu bwyd dan arweiniad y gymuned sydd o fudd i bobl ac i'r blaned.	Canolfannau bwyd yn ehangu ac yn chefnogi cadwyni cyflenwi lleol  Perllannau cymunedol wedi'u sefydlu gyda'r potensial ar gyfer tyfu a phrosesu bwyd yn y dyfodol  Cefnogaeth gan gymunedau i brynu tir	2  3  5
<b>O3</b> Gwella perthnasoedd o ymddiriedaeth a chyd-weithio rhwng sefydliadau sy'n aelodau.	Sefydlodd yr holl bartneriaid gydweithrediad da a ffurfio partneriaethau newydd	Pob un
<b>O4</b> Mae gan gymunedau gefnogaeth sydd wedi'i theilwra i weddu i'w gofynion, yn hytrach na bodloni gofynion y cyllid sydd ar gael. Arweinwyr yn arbenigwyr mewn gwahanol feysydd ond yn gallu cyfeirio'n effeithiol.	Cefnogaeth arbenigol yn cael ei ddarparu i fuddiolwyr cymunedol	1, 2, 3, 4

TABL 11: Cynnydd y Prosiect Cyfan gyda deilliannau



Yn ogystal â'r canlyniadau a nodwyd yn ystod dyluniad y prosiect, gwnaeth partneriaid sylwadau ar yr hyn yr oedden nhw'n teimlo oedd canlyniadau cyfunol ei gweithgaredd. Mae'r rhain yn cael eu crynhoi yn Nhabl 12.

## EFFAITH AR Y CYD

Partneriaeth gadarn gydag ymddiriedaeth.

Cymunedau'n cael eu cefnogi gan ffrydiau gwaith niferus: gweithio cydgysylltiedig.

Mwy o ymwybyddiaeth o sefydliadau a phrosiectau systemau bwyd yng Nghymru ymhlith cymunedau ac awdurdodau lleol.

Mwy o dir mewn defnydd cymunedol.

Mwy o bobl yn gweithio ar sefydlu rhwydweithiau bwyd lleol.

Gwell mynediad i dir.

Cynnydd mewn mynediad i gadwyni cyflenwi bwyd lleol.

Cynnydd mewn cyfranogiad mewn tyfu bwyd cymunedol.

Gwell gwydnwch cymunedol drwy adeiladu gwybodaeth, rhwydweithiau, capasiti ac asedau.

Rhwydwaith newydd gyda blaenoriaethau cytûn.

Ymwybyddiaeth ehangach o sgiliau ac arbenigedd sefydliadau.

### TABL 12: Effeithiau ar y cyd a nodwyd gan bartneriaid prosiect

Croesawodd FfW1 gylch gwaith y prosiect sy'n cynnwys Cymru gyfan gan ei fod yn golygu bod "cyfle cyfartal" i gymunedau ledled y wlad, a does dim angen gwrthod grwpiau â diddordeb fel sy'n digwydd mewn rhaglenni sydd wedi'u targedu'n rhanbarthol.

O ran eu deilliant allweddol o fwy o gyfranogiad cymunedol mewn mynediad i dir rheolaeth ohono,

mae'r rhaglen gyffredinol wedi cefnogi gwytnwch grwpiau cymunedol yn sylweddol, nid yn unig trwy gyllid a chynghor gan greu asedau cymunedol diriaethol gyda gwaddol, ond hefyd yn rhyngpersonol. Roedd buddiolwyr ar draws ffrydiau gwaith - yn enwedig o fentrau llai - yn teimlo'n falch bod rhywun wedi buddsoddi ynddyn nhw.

Dywedodd rhai rhanddeiliaid fod y cyllid a'r gefnogaeth wedi helpu i ddod â'u grwpiau at ei gilydd a chanolbwyntio eu hegini:

*"Y gefnogaeth gyntaf gawson ni ganddi hi [staff y rhaglen] oedd ambell i fag o hadau blodau gwyllt. Roedd hynny'n hynod gyffrous, oherwydd mae'n weithred wych y gallwn ei wneud ar unwaith. Does dim angen unrhyw arian. Dydyn ni ddim wedi agor cyfrif banc eto, ond roedd hyn yn ein galluogi i ddechrau ar unwaith."*

(Buddiolwr 4 FfW4)

*"Mae wedi rhoi hyb i ysbryd a chodi hyder. Mae wedi annog pawb i feddwl bod rhywun yn gwerthfawrogi'r hyn rydyn ni'n ei wneud digon i roi miloedd o bunnoedd tuag ato, ac mae hynny wedi helpu llawer iawn. Dwi'n credu ei bod hi'n anodd mesur hynny. Ond fedra i ddim canmol ddigon yr effaith y mae hynny wedi'i gael. A'r ymdeimlad o falchder hefyd, mewn grŵp gwirfoddol."*

(Buddiolwr 7 FfW3)

Mae cyrhaeddiad y rhaglen wedi'i helaethu trwy gynigion o arian cyfatebol neu gymorth mewn nwyddau pan welodd eraill fod menter yn cael ei chefnogi gan y rhaglen:

*"Rydyn ni'n lwcus iawn, mae ein cymuned leol yn wych ac mae gennym lawer o gontractwyr ac asiantaethau sy'n rhoi llwyth o gyfraniadau i ni, boed yn gwmnïau adeiladu lleol neu bethau felly. Felly, pan gawsom y cyfraniad hwn gan Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol, gwelsom ei bod yn annog pobl eraill i ddod i roi mwy a helpu mwy, chi'n gwybod, yr holl bethau fel hyn, mae'n naturiol, on'd ydy?"*

(Buddiolwr 4 FfW4)

Yn yr un modd, mae'r rhaglen wedi cefnogi cydlyniant cymunedol ehangach drwy godi diddordeb preswylwyr yn y ffordd y mae eu manau gwyrdd lleol yn cael eu rheoli a sut y gallan nhw gymryd rhan, gan gyrraedd grwpiau nad ydyn nhw efallai wedi bod yn gysylltiedig o'r blaen (fel ffoaduriaid neu ffermwyr), a chreu asedau cyhoeddus newydd mewn lleoedd gyda seilweithiau cymunedol cyfyngedig:

*"Dwi ddim yn meddwl bod 'na unrhyw beth sy'n uno'r gymuned [ar wahân i ni], a dwi'n meddwl bod bwyd a thyfu yn torri ar draws grwpiau oedran a rhywedd ac incwm aelwydydd, gyda'r gefnogaeth gywir. Ar wahân i glybiau [chwaraeon], does dim digwyddiadau cymunedol mewn gwirionedd."*

(Buddiolwr 1 FfW1)

Ar ben hynny, mae rhywfaint o dystiolaeth bod gwaith a gefnogir gan y prosiect mewn manau cyhoeddus wedi ysbrydoli pobl i wneud pethau'n wahanol yn eu gerddi preifat, gan gynyddu ei effaith torfol:

*"Dwi wedi cael 5 neu 6 o bobl yn ymuno mewn un pentref ac erbyn y drydedd sesiwn roedd pobl yn dod â stwff o'u gerddi, gan ddweud, o, dwi wedi bod yn clirio pethau allan yn fy ngardd, ac mae gen i'r pethau yma, a dwi'n meddwl y gallwn ni ei rannu. Bydd yn gallu llenwi'r bylchau yn y planwyr, a byddai hynny'n braf. Ac yna maen nhw'n gwneud mwy o waith yn eu gerddi eu hunain yn hytrach na dim ond ei adael."*

(Buddiolwr 3 FfW4)

# 11.0 MECANWEITHIAU AR GYFER NEWID

Ar draws y prosiect, roedd ffrydiau gwaith yn defnyddio gwahanol ysgogiadau a allai sicrhau newid mewn perthynas â systemau bwyd a manau gwyrdd. Amlygir y dulliau allweddol a ddefnyddiwyd ar draws y ffrydiau gwaith yn nhabl 13. Roedd partneriaid yn myfyrio ar eu

heffeithiolrwydd cymharol er mwyn deall pa dulliau o newid y gellid eu defnyddio yn y modd mwyaf defnyddiol yn y dyfodol. Amlygodd hyn fod yr ysgogiadau'n tueddu i weithio gyda'i gilydd, gyda dull amlochrog yn fuddiol.

	CYLLID	RHWYDWEITHIAU	HYFFORDDIANT	CYNGOR	CYFEIRIO	TECHNOLEG	YMCHWIL	MAPIO	EIRIOLAETH POLISI A CHYFATHREBU
FfW1	X	X	X	X	X	X		X	X
FfW2	X	X	X	X	X	X	X	X	X
FfW3	X	X	X	X				X	X
FfW4	X		X	X	X				X
FfW5	X	X		X	X	X	X		X
FfW6	X	X	X		X		X		X

TABL 13: Trosolwg o feganweithiau a gymhwyswyd i sicrhau newid



## CYLLID

Roedd cymorth ariannol yn fwyaf effeithiol lle galluogodd weithgaredd na fyddai wedi digwydd fel arall, er enghraifft yr hybiau bwyd newydd a gefnogwyd gan FfW2 neu waith paratoi tir hanfodol a ariannwyd gan FfW1. Roedd dosbarthu arian i sefydliadau cymunedol yn ffordd dda o sbarduno gweithredu, a chreu llwyfan ar gyfer gweithgarwch parhaus, yn enwedig pan gaiff ei ddefnyddio i sefydlu asedau ffisegol a fydd yn parhau fel rhandiroedd a pherllannau newydd. Nododd partneriaid fod y prosiect yn eithaf unigryw ar gyfer cefnogi costau gweinyddol grwpiau (e.e. cyflogau) a chyfalaf/seilwaith.

Manteision ychwanegol y dull hwn oedd galluogi grwpiau i fentro ac arbrofi, a denu sefydliadau eraill, nad oedd partneriaid yn ymwybodol ohonyn nhw o'r blaen. Nododd dwy ffrwd waith fod ymgeiswyr oedd heb dderbyn arian yn y pen draw wedi mynd yn eu blaenau i dderbyn cefnogaeth arall, felly roedd y broses ymgeisio wedi bod yn strategaeth ymgysylltu ddefnyddiol. Cafodd dyrannu cefnogaeth ariannol ei nodi fel gweithred arbennig o bwysig ar gyfer gwella hygrychedd, er enghraifft drwy alluogi pobl na fyddai fel arall ag adnoddau i'w buddsoddi i brynu tir. Amlygodd derbynwyr ei bod hefyd yn bwysig bod y sefydliadau oedd yn cynnig cyllid iddyn nhw yn wybodus ac yn deall eu hanghenion:

*“Mae'r gefnogaeth wedi bod mor wych, ond mae hefyd wedi caniatáu i barhau gyda'r darnau yr oedden ni'n gymwys ac yn hapus yn eu gwneud... doedd o ddim fel petai rhywun yn sefyll uwch ein pennau'n dweud, 'Ti'n gwneud hynny'n anghywir'. Felly roedd yn braf iawn ac roedd yn ymddangos yn hyblyg iawn i'r hyn oedd ei angen arnon ni ac roedden nhw'n deall ein hanghenion ni'n iawn.”*  
(Buddiolwr 4 FfW4)

Mae hyn yn amlygu gwerth y sefydliadau sy'n deall yr heriau o ran gweithio gyda chymunedau a natur, ac yn ymgorffori cymorth ariannol o fewn cymorth ehangach.

Fodd bynnag, nododd partneriaid bod angen i unrhyw gefnogaeth ariannol ddod gyda chymorth, ac y dylen nhw osgoi mynd yn ddibynnol ar gyllid. Gall hyn fod yn arbennig o broblemus mewn perthynas â gweithgareddau tyfu bwyd sydd angen cefnogaeth barhaus. I'r rhan fwyaf o fuddiolwyr, y cyfuniad unigryw o gyllid a chymorth parhaus trwy gyngor oedd yn eu galluogi i wneud gwahaniaeth yn eu cymunedau. Nodwyd hefyd bod llawer o waith gweinyddol a biwrocratiaeth ynghlwm wrth ddyrannu arian, yn rhannol yn gysylltiedig â gofynion Llywodraeth Cymru.

Wrth edrych yn ôl, nododd rhai partneriaid y gallen nhw fod wedi blaenoriaethu dyrannu cyllid yn wahanol, er enghraifft cyllido prosiectau cymdeithasol sy'n mynd i'r afael â thlodi bwyd yn ystod yr argyfwng costau byw (FfW2). Nododd rhai ei bod hi'n anodd cydbwysu blaenoriaethau ar gyfer dyfarnu cyllid, er enghraifft potensial i weithgareddau ddod yn hunangynhaliol tra hefyd yn darparu gwerth cymdeithasol uchel. Amlygodd FfW6 y byddai wedi bod yn fuddiol talu hyfforddeion oedd yn cymryd rhan yn y rhaglen. Y cyfyngiad mwyaf o gyllid fel ysgogiad yw ei fod yn rhwym i amser, pan fydd angen buddsoddiad parhaus ar lawer o weithgareddau'r derbynnyddion.



## RHWYDWEITHIAU

Roedd ffrydiau gwaith a sefydlodd rwydweithiau newydd yn eu cael yn fuddiol ar gyfer dysgu gan gymheiriaid, ac yn cyfnewid arfer da, gyda buddiolwyr yn gweithredu i gefnogi ei gilydd. Creodd FfW5 bartneriaeth ddysgu ar gyfer tîrfeddianwyr cyhoeddus a helpodd i ddeall rhwystrau a chyfleoedd i wella mynediad cymunedol i dir. Nododd FfW3 y gallai fod wedi bod yn fuddiol sefydlu rhwydwaith perllannau cryf, ond nid oedd gan y tîm y capasiti i ganolbwyntio ar hyn. Canfu partneriaid fod y rhain yn ffyrdd cymharol gost-effeithiol o ddarparu cefnogaeth, oedd yn ychwanegu momentwm at weithgarwch arall. Amlygodd y rhai sy'n ymwneud â rhwydweithiau fod angen ymdrech, yn enwedig ar gyfer hwyluso ac arweinyddiaeth, ac nid yw bob amser yn wir y bydd y rhai sy'n cymryd rhan yn arwain neu'n cyfrannu eu hegri. Roedd rhai ffrydiau gwaith yn ei chael hi'n heriol cynnal cysondeb o ran cyfranogiad, gan ei gwneud hi'n anoddach i rwydwaith ennill momentwm. Roedd barn gymysg hefyd ar ba mor effeithiol oedd cyfarfodydd ar-lein, gyda'r fantais o gydlynu a chyfranogiad cyffyrddiad ysgafn, ond anfanteision o ran meithrin perthnasoedd a sicrhau cyfranogiad teg mewn trafodaethau. Nid yw hi'n glir y bydd y rhwydweithiau i gyd yn parhau yn annibynnol y tu hwnt i'r prosiect, gan y teimlwyd bod angen rhywfaint o gefnogaeth a chydlynu ar y rhan fwyaf ohonynt. Roedd ymdeimlad os bydd cyfranogwyr yn gweld rhwydwaith yn werthfawr y byddan nhw'n parhau i gymryd rhan ynddo.

O fewn a thu hwnt i rwydweithiau swyddogol, roedd y ffrydiau gwaith yn caniatáu i fuddiolwyr greu perthnasoedd un i un sydd hefyd yn waddol i'r rhaglen hon:

*“Fel rhan o ymweliad astudio, fe wnaethon ni gwrdd â rhywun arall oedd yn gweithio mewn ardal leol a doedden ni ddim yn sylweddoli ein bod ni'n gwneud cais am y coed a'u bod nhw'n gwneud cais am yr offer gwasgu. Felly rydyn ni'n gobeithio, pan fydd ein perllan yn dod yn gynhyrchiol, y byddwn ni'n mynd i'w gweld nhw. Felly mae'n braf iawn cael y profiad rhwydweithio cydgysylltiedig hwnnw.”*

(Buddiolwr 3 FfW3)



## GWYBODAETH, HYFFORDDIANT A CHYNGOR

Roedd ffrydiau gwaith yn cynnal gwahanol fathau o weithgaredd hyfforddi, gan gwmpasu ystod o garfannau a phynciau arbenigol. Cefnogodd FfW1 grwpiau cymunedol i ddatblygu eu cynlluniau, gan gynnwys cysylltu â gwasanaethau arbenigol fel CLAS. Roedd FfW6 yn canolbwyntio ar ddarparu hyfforddiant, ac roedd hefyd yn ariannu cyrsiau hyfforddi ychwanegol a arweiniodd at gymhwyster ffurfiol (e.e. trwydded yrru tractor) a oedd yn gwella sgiliau a chyflogadwyedd hyfforddeion. Darparodd FfW3 nifer o sesiynau hyfforddi ar reoli perllannau, gyda galw mawr am sgiliau tocio. Roedd eraill yn darparu cyngor ad hoc, adnoddau gwybodaeth, a mentora uniongyrchol, tra hefyd yn cyfeirio grwpiau cymunedol at ffynonellau cefnogaeth eraill.

Amlygodd sawl partner mai mantais o'r prosiect oedd dod i adnabod sefydliadau sydd ag amrywiaeth o arbenigedd, fel y gallan nhw gysylltu pobl yn well â'r cyngor sydd ei angen arnyn nhw. Amlygodd mwyafrif y buddiolwyr bwysigrwydd rhoi'r cyngor yn sensitif a gydag arbenigedd. Er enghraifft, fe wnaethon nhw bwysleisio'r cyfathrebu a'r gefnogaeth barhaus a ddarperir yn anffurfiol trwy e-byst neu alwadau ffôn sy'n ymateb i'w hanghenion penodol fel cyfraniad unigryw i'w llwyddiant. Roedden nhw'n gwerthfawrogi arbenigedd y sefydliadau partner nad ydyn nhw ar gael o bosib gan sefydliadau eraill.

Anfanteision y gweithgaredd hwn oedd y gall fod yn anodd cynnal hyfforddiant hygyrch, o ran lleoliad daearyddol a ffactorau eraill a chyrraedd pawb sydd angen hyfforddiant neu a fyddai'n elwa o hyfforddiant. Amlygodd FfW5 nad oedd ganddyn nhw'r amser na'r capasiti i ymdrin â'r holl faterion y byddai buddiolwyr yn croesawu hyfforddiant arnynt. Dywedodd FfW3, er eu bod yn darparu nifer o sesiynau hyfforddi ym maes rheoli perllannau, bod llawer mwy o bobl yn dal i fod eisiau cael mynediad i sesiynau hyfforddi.





## MAPIO

Mae'r data gafodd ei gasglu a'i fapio ar draws y prosiect yn cael ei lunio ar Land Explorer, fel ffynhonnell mynediad agored i bartneriaid ac eraill. Mae hyn wedi'i hyrwyddo yng Nghynhadledd Gwir Fwyd a Ffermio Cymru i arddangos potensial Land Explorer a'r data sydd ar gael o'r prosiect. Mae partneriaid y prosiect hefyd wedi rhannu eu profiad o'r broses mapio a'i botensial gyda grwpiau eraill yng Nghymru. Mae SFG, ynghyd â thimau o FfW3 a FfW5 wedi cymryd rhan mewn trafodaethau ehangach ynghylch mapio gan gynnwys cyflwyno mewn gweminar Consortiwm Amaethyddiaeth Drefol a chyfarfodydd rheolaidd gyda thimau Pobl a Lleoedd o Gyfoeth Naturiol Cymru i gydlynu ffynonellau data.

Yn ystod y gweithgaredd hwn mae'r tîm wedi dod i werthfawrogi graddfa'r gwaith sy'n gysylltiedig â mapio, yn enwedig ar draws partneriaeth a phrosiect mor fawr. Mae cyfleoedd iddo gyfathrebu ystod o wybodaeth: rhyngweithio rhwng safleoedd/sefydliadau, ardaloedd ar gyfer gweithgarwch posibl, a pherchnogaeth/defnydd o dir. Manteision datblygu data sydd wedi'i fapio yw gallu ei rannu â sefydliadau eraill, amlygu patrymau gweithgarwch gofodol, a galluogi dadansoddi wrth ryngweithio â data arall. Gellir gwireddu'r potensial ar gyfer hyn ymhellach y tu hwnt i'r prosiect.

Nid yw potensial llawn mapio wedi'i harneisio eto, yn bennaf oherwydd diffyg capasiti. Profodd yn heriol i bob ffrwd waith fewnbynnu eu data eu hunain. Mae yna gyfyngiadau hefyd gyda'r platform, yn enwedig gan ei fod yn cael ei ddatblygu felly mae peth nodweddion ar goll. Mae mapio hefyd yn sgil technegol iawn, sy'n golygu y dylai rhywun sydd â mewnwelediadau addas arwain gwaith cysylltiedig.

## EIRIOLAETH POLISI A CHYFATHREBU

Dyweddodd sawl partner nad oedden nhw eto wedi canolbwyntio ar gyfathrebu ehangach am eu gweithgaredd na'u heffeithiau, ac y bydd hyn yn ffocws ymdrech y tu hwnt i'r amser pan gafodd y data gwerthuso ei gasglu. Creodd sawl ffrwd waith ffilmiau i ledaenu dysgu a hyrwyddo effeithiau prosiect. Gwnaeth eraill sylwadau ar werth capasiti'r prosiect i alluogi a chydlynu gweithgaredd cyfathrebu. Roedd un ffrwd waith wedi targedu llunwyr polisi, gan ymgysylltu ag

ymgyngoriad gan y Senedd a chysylltu â llywodraeth leol. Roedd partneriaid yn gwerthfawrogi potensial y math hwn o weithgaredd i geisio newid ehangach a dyfnach ac i estyn y tu hwnt i gymunedau sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r prosiect. Nododd partneriaid nad oes gan bob un ohonyn nhw sgiliau mewn eiriolaeth, ac y gall fod yn anodd blaenoriaethu gwaith o'r fath, yn enwedig pan mae'n anodd gwerthuso ei effaith.

## 11.1 CYFYNGIADAU

Gofynnwyd i bartneriaid nodi a oedden nhw'n teimlo y gallai prosiectau fod wedi defnyddio mecanweithiau eraill, a beth oedd yn cyfyngu neu'n atal eu defnydd. Ymhlith yr awgrymiadau roedd: ymestyn a gwella'r mapio ar-lein, gan gynnwys ychwanegu tir cyhoeddus; mwy o ddefnydd o deithio i ymweld â safleoedd lle mae arfer da; a mwy o gyfarfodydd wyneb yn wyneb ar draws y tîm, yn enwedig ar ddechrau'r prosiect. Ond nododd partneriaid nad oedd ganddyn nhw'r capasiti i gwmpasu'r holl weithgareddau posibl, ac felly roedden nhw'n tueddu i ganolbwyntio ar y rhai â photensial da neu roedden nhw wedi canfod fod gan eraill yr egni i gefnogi cynnydd. Roedd hyn yn arbennig o bwysig o ystyried y cyfoeth o fentrau eraill oedd yn digwydd ar y pryd, weithiau'n cystadlu am sylw cymunedau a buddiolwyr neu gefnogwyr posibl. Amlygodd rhai eu bod wedi gosod cynlluniau uchelgeisiol, a oedd yn heriol yn ymarferol, weithiau mewn ffyrdd na ellid fod wedi'u rhagweld. Nododd eraill, wrth i'r prosiect ddirwyn i ben, eu bod yn teimlo mai dim ond newydd ddechrau yr oedden nhw, gan olygu eu bod yn gweld y prosiect yn gosod y sylfaen ar gyfer y gwaith yn y dyfodol.

Ar draws y dulliau a gymerwyd, cyfyngiad allweddol oedd natur tymor byr unrhyw weithgaredd yn seiliedig ar brosiect ac nid yw hyn yn ffafriol i geisio newid parhaus. Amlygodd partneriaid hefyd nad yw'n bosibl pennu na mesur effeithiau mewn llawer o achosion. Roedd rhai yn awgrymu bod y ddarpariaeth yn sicr wedi methu â chyrraedd rhai buddiolwyr posibl, gyda rhai gweithgareddau'n debygol o ymgysylltu â'r rhai sydd eisoes yn gysylltiedig â'r mater yn hytrach na chyrraedd cynulleidfaoedd newydd.

O safbwynt y rhaglen, myfyriodd cydlynnydd SFG ar ddiffyg capasiti i allu cefnogi ffyrddau gwaith i gysylltu a datblygu synergeddau yn well. Roedd ambell ddigwyddiad traws-ffrwd yn cael eu cydlynu, ond digwyddodd hyn oherwydd bod cydlynnydd SFG neu eraill yn SFG yn arwain ar y gweithgaredd. Yn aml, nid oedd hyn yn bosibl oherwydd capasiti cyfyngedig iawn ar draws yr holl brosiect.





## 11.2 SYNERGEDDAU

Ar draws y ffrydiau gwaith, nododd partneriaid sut roedd gweithgaredd wedi elwa o fod yn rhan o'r prosiect a'r bartneriaeth ehangach. Manteisiodd cyfranogwyr partneriaeth ddysgu FfW5 o gysylltiadau newydd a gafwyd trwy LWA a Shared Assets yn Lloegr. Nododd FfW2 fod y dull partneriaeth yn rhoi mynediad i'r tîm at bobl ag arbenigeddau amrywiol, sy'n golygu y gallen nhw gael mynediad i'r gefnogaeth gywir ar gyfer hybiau bwyd. Roedd yn ddefnyddiol bod yn rhan o'r prosiect gan y gallai hybiau bwyd gael eu cysylltu â'r partneriaid eraill a'r gefnogaeth y maen nhw'n ei gynnig. Gan fod amser staff wedi'i gefnogi gan y prosiect, roedden nhw'n gwybod bod modd galw ar bartneriaid i ymgysylltu â hybiau i rannu eu harbenigedd. Yn ogystal â gallu cael gafael ar arbenigedd ar draws y bartneriaeth, gallai arweinwyr ffrwd waith hefyd gael mynediad i rwydweithiau ehangach pob un o'r partneriaid ar gyfer lledaenu arolygon, gwybodaeth am ddigwyddiadau ac allbynnau. Yn yr un modd, roedd buddiolwyr mewn gwahanol ffrydiau gwaith yn gyffredinol yn ymwybodol o'r lleill, hyd yn oed os nad oedden nhw'n ymwneud yn uniongyrchol oherwydd eu hamgylchiadau penodol. Mae hyn yn bwysig gan y gallan nhw ddefnyddio adnoddau a grëwyd trwy'r rhaglen yn ddiweddarach, gan gynyddu ei heffaith.

Roedd cydweithio uniongyrchol rhwng FfW4 a FfW3 gyda dau grŵp cymunedol yn derbyn coed ac yn cael eu cefnogi ar reoli dolydd. Roedd manteision bioamrywiaeth i'r cysylltiad hwn ac roedd hefyd yn ei gwneud hi'n haws i grwpiau reoli eu safleoedd:

*"Gall perllan fod yn eithaf mawr ac mae ei thorri yn anodd iawn!"*

(Arweinydd FfW4)

Sefydlodd FfW1 a FfW5 gydweithrediad i ganolbwyntio ar ymgysylltu â thirfeddianwyr. Fodd bynnag, roedd hyn yn araf i symud ymlaen oherwydd y gwaith i ddatblygu'r dull mwyaf effeithiol. Gweithiodd y dull a ddewiswyd yn y pen draw yn dda, sef arddangosiad a fideo cysylltiedig, ac mae'n golygu bod gwaddol o'r prosiect y gellir ei ddefnyddio i gyfathrebu yn y dyfodol.

Cafodd un o'r hybiau bwyd a gefnogwyd gan FfW2 ei gyflwyno i FfW1 a FfW2 i'w helpu i sefydlu tyfu bwyd cymunedol yn e ardal. Roedd disgwyliadau y gallai mwy o gysylltiadau o'r fath fod yn bosibl, ond roedd amseriad gwahanol fentrau yn rhwystro hyn. Er enghraifft, ni fydd perllannau a sefydlwyd trwy FfW3 yn cynhyrchu nwyddau y gellir eu gwerthu am beth amser - nwyddau a allai gefnogi hybiau bwyd FfW2. Gallai perllannau cymunedol FfW3 a mynediad tir FfW5 fod wedi gweithio mwy gyda hyfforddiant sgiliau FfW6, ond roedd ffocws FfW6 yn gadarn o'r dechrau ac roedd yn gallu dechrau yn gynharach na gweddiill y ffrydiau gwaith. Gan fod y prosiect yn gweithredu ledled Cymru nid oedd hi bob amser yn wir fod cynhyrchu bwyd cymunedol wedi'i gefnogi gan ffrydiau gwaith eraill yn agos at yr hybiau a allai werthu eu cynnyrch.


Ar y dechrau roedd disgwyl y byddai cyfleoedd i FfW1 a FfW2 gydweithio o ystyried y tebygrwydd y materion a'r grwpiau targed. Mewn gwirionedd, yr unig bryd y digwyddodd hyn oedd pan oedd personél yn gweithio ar draws gweithgareddau ac yn gwneud y cysylltiad rhwng y cyfleoedd.



Dywedodd partneriaid oedd yn rhan o'r prosiect eu bod yn ei chael hi'n fuddiol datblygu perthnasoedd gyda sefydliadau, ac i weithio gyda nhw ar weithredu arfer da. Amlygodd un arall fantais y prosiect yn ymyrryd *"ar nifer o bwyntiau rhyng-gysylltiedig yn y system fwyd"* a allai dros amser *"adeiladu system fwyd fwy gwydn ar draws Cymru"*.

Nododd sawl partner fod potensial i fod wedi adeiladu mwy o gysylltiadau rhwng ffrydiau gwaith er mwyn elwa o'r synergeddau a gyflwynwyd gan y prosiect. Ond roedd y llinell amser gywasgedig ar gyfer cyflawni yn golygu na ddaeth hyn yn ffocws tan yn agos at ddiwedd y prosiect. Roedd llai o gapasiti hefyd i fyfrio ar gyfleoedd o'r fath, yn hytrach na chanolbwyntio ar gyflenwi adweithiol. Amlygodd rhai, er bod cysylltiadau da wedi ffurfio rhwng partneriaid y prosiect a'i gilydd, nad oedd ymdrech wedi bod i feithrin synergeddau potensial rhwng buddiolwyr llif gwaith.

Roedd gan y rhan fwyaf o weithgarwch y prosiect gylch gwaith ledled Cymru a agorodd gyfleoedd i gynifer o gymunedau â phosibl, a gwell hygyrchedd. Roedd hefyd yn cyflwyno potensial i drosglwyddo gweithgarwch a dysgu o un ardal i rannau eraill o Gymru. Fodd bynnag, nododd partneriaid fod amrywiaeth yn y ffordd y mae awdurdodau lleol yn gweithio ac yn eu blaenoriaethau, sy'n golygu efallai na fydd darpariaeth yn trosi'n uniongyrchol i leoliadau eraill. Roedd hefyd yn ei gwneud hi'n heriol sicrhau bod cyfranogwyr o wahanol ranbarthau daearyddol Cymru yn mynychu digwyddiadau wyneb yn wyneb.



## 11.3 GWERTH YCHWANEGOL PARTNERIAETH Y PROSIECT

Gofynnwyd i bartneriaid y prosiect fyfrio ar y gwerth ychwanegol a gafwyd gan brosiect gyda nifer o lynnau gweithgaredd, a phartneriaeth fawr. Cafodd nifer o fuddion ac effeithiau gweithio fel hyn eu nodi ganddyn nhw ac mae crynodeb yn Nhabl 14. Nododd yr OFN nad oedden nhw wedi ymgysylltu llawer yng Nghymru cyn y prosiect

hwn, felly roedd y bartneriaeth o fudd i'w proffil a'u presenoldeb yma. Fel rhan o'r prosiect maen nhw wedi darganfod cyfleoedd newydd, megis cymryd rhan yng Nghynhadledd Gwir Fwyd a Ffermio Cymru, lle roedden nhw'n gallu rhannu arbenigedd ac ehangu eu rhwydweithiau.

### BETH FYDDAI WEDI BOD YN WAHANOL HEB Y BARTNERIAETH?

Dyblygu gwaith sefydliadau sy'n arwain at rwystredigaeth.

Llai o effaith – llai o gyrhaeddiad i fuddiolwyr a rhanddeiliaid.

Llai o berthnasod newydd a chryf rhwng sefydliadau.

Diffyg mynediad i gysylltiadau ac arbenigedd.

Mwy o ddefnydd o ymgynghorwyr ar gyfer cyflwyno.

Llai o gyfnewid dysgu.

Gweithio seilo a diffyg cysylltiadau rhwng prosiectau ar lefel gymunedol.

Llai o gyfeirio at gefnogaeth a chynghor arall, sy'n golygu cynghor o ansawdd gwaeth i fuddiolwyr.

Llai o ymdeimlad o fomentwm.

Llai o arloesi.

Llwyfan gwannach ar gyfer gweithredu yn y dyfodol.

**TABL 14:** Gwerth ychwanegol dull partneriaeth a nodwyd gan bartneriaid

Teimlai FfW3 fod y bartneriaeth wedi blodeuo ar ôl y gwerthusiad canol tymor, lle roedd partneriaid y prosiect yn gallu eistedd gyda'i gilydd i ddatblygu'r ddelwedd gysyniadol o sut yr oedden nhw i gyd yn gweithio gyda'i gilydd. Gallen nhw weld sut y byddai perllannau cymunedol yn bwydo i'r system fwyd gymunedol; roedden nhw'n gallu gweld y darlun mawr. Roedden nhw'n gwerthfawrogi dod i adnabod partneriaid eraill, a oedd yn gwneud pethau anhygoel, yn gyflym iawn ac yn uniongyrchol iawn. Roedd diweddariadau partneriaeth ar-lein yn golygu eu bod yn gallu clywed am lwyddiannau a heriau prosiectau eraill.

Roedd FfW5 hefyd yn gwerthfawrogi'r rhwydwaith ehangach o bobl i gymryd rhan mewn gweithgareddau. Canfuwyd bod arbenigedd y rhwydwaith ehangach yn ddefnyddiol iawn i ofyn am gyngor ar bynciau yr oedden nhw'n gweithio gyda nhw. O ganlyniad, roedden nhw bob amser yn teimlo eu bod yn gweithredu mewn ffordd wybodus oherwydd y ffynonellau eraill hyn o arbenigedd. Roedd hyn hefyd yn berthnasol i wybod am weithgareddau eraill sy'n digwydd o fewn yr un gofod, yn enwedig gan fod un o'r cyd-arweinwyr wedi'i leoli'n gorfforol y tu allan i Gymru. Roedd cyfnewid arbenigedd a chysylltiadau o'r fath hefyd yn ymestyn y tu hwnt i'r partneriaid, gyda nifer o bobl yn sôn sut y bu iddyn nhw elwa o gael eu cyflwyno i sefydliadau eraill a allai eu helpu:

*“Y peth gwych arall oedd bod X wedyn yn ein cyflwyno i Cadwch Gymru'n Daclus, felly drwy hynny roedden ni'n gallu cael rhai adnoddau ychwanegol. Ond oherwydd eu bod yn gallu gweithio gyda'i gilydd roedd yn golygu ein bod wedi gallu ategu a pharhau i gael rhagor o goed ffrwythau a gosod pethau fel cwt potiau. Felly mae'r ddau beth hyn gyda'i gilydd wir wedi plethu, roedd yn bwerus iawn.”*

(Buddiolwr 4 FfW3)

Amlygodd arweinwyr ffrydiau gwaith y budd o ymgysylltu â thîm cyfan y prosiect, yn enwedig yn y cyfarfodydd wyneb yn wyneb. Roedd y rhain yn rhoi “amser i feddwl, gan ddod â phobl at ei gilydd ac i fyfrio”, gan gynnwys sgysiau personol; *“dysgu beth mae pobl eraill yn ei wneud - ac yn hynny o beth mae'r bartneriaeth wedi bod yn gyfoethog iawn”* (arweinydd FfW1). Teimlwyd bod hyn yn cefnogi DPP a dysgu a oedd yn arbennig o werthfawr ar ôl y pandemig gan fod cyfleoedd o'r fath wedi bod yn brin ers peth amser. Awgrymodd partneriaid eraill fod cyfarfodydd prosiect a chyfathrebu hefyd wedi helpu i gynnal momentwm o fewn y ffrwd waith, gan arwain at “gynnal egni'r prosiect” (arweinydd FfW2). Roedden nhw'n ei chael hi'n werthfawr clywed am brofiadau partneriaid eraill - da a drwg.

Fodd bynnag, nododd partneriaid y gallai rhai agweddau fod wedi bod yn haws pe bai gweithgaredd wedi digwydd y tu allan i brosiect partneriaeth o'r fath. Roedden nhw'n disgwyl y gallai prosesau gweinyddol fod wedi bod yn haws, gan leihau'r baich hwn. Awgrymodd un partner y gallai pethau fod wedi digwydd yn gynt pe bai pob sefydliad yn gweithio ar eu pen eu hunain, ond na fyddai hyn wedi bod mor effeithiol wrth gyflawni effaith a synergeddau ar y cyd. Fodd bynnag, roedd partneriaid eraill oedd yn gwerthfawrogi cael tîm cydlynol canolog i ddelio â chyllid prosiectau, cyfathrebu a rheoli.





## 11.4 CYFLEOEDD GAFODD EU COLLI

Gofynnwyd i bartneriaid fyfrio ar ble roedd potensial i'r prosiect gyflawni neu gyflwyno mwy, ac ar ba weithgareddau fyddai wedi bod yn fuddiol ond na chawsan nhw eu cyflawni (Tabl 15). Nododd nifer o ffrydiau gwaith, oherwydd yr oedi yn cychwyn, eu bod wedi colli amser i gyflawni sy'n arbennig o broblemus ar gyfer gweithgareddau sy'n dibynnu ar gylchoedd tymhorol. Dim ond am un tymor tyfu llawn y gallodd FfW4 a FfW3 ymgysylltu â grwpiau a chafodd FfW3 eu rhuthro i ddarparu eu cylch cyntaf o rannu cyllid ar gyfer plannu perllannau, gan arwain at blannu dim ond 100 o'r targed o1000 o goed yn y cyntaf o ddau gylch ariannu.

Wrth edrych yn ôl cafodd cyfleoedd eraill eu nodi wrth i bartneriaid fyfrio ar sut y gallen nhw fod wedi gwella'r prosiect. Awgrymodd FfW6 y bydden nhw, yn ddelfrydol, wedi datblygu rhaglen 'hyfforddi'r hyfforddwr' bwrpasol ar gyfer tyfwyr, ond yn hytrach fe ddaethon nhw i gyswllt â'r ddarpariaeth bresennol. Awgrymodd FfW2 y byddai rheolwyr canolfannau wedi elwa o gysylltiadau â phrosiectau llwyddiannus eraill, neu arianwyr posibl. Yn ddelfrydol, bydden nhw wedi dod o hyd i fecanweithiau priodol i'r hybiau newydd eu dysgu gan hybiau eraill yn y DU. Awgrymodd partneriaid y byddai wedi bod yn well sefydlu'r gronfa tir gwerth £100k fel cronfa fenthyciadau gylchol i alluogi cymunedau i brynu tir, ond roedd gofynion Llywodraeth Cymru yn gwahardd hyn. Nid oes gan yr opsiwn a ddatblygwyd fel dewis arall yr un gwaddol o fuddsoddiad parhaus mewn tir.

Er i rai partneriaid dynnu sylw at y ffaith bod dull Cymru gyfan yn gadarnhaol o ran cynnig mynediad at gymorth prosiect yn genedlaethol, nododd rhai y gallai dulliau amgen fod wedi bod yn fwy effeithiol. Er enghraifft, gallai canolbwyntio cefnogaeth ar lai o safleoedd fod wedi galluogi mwy o effaith a newid mwy cynaliadwy gan y byddai wedi bod yn haws i dimau dargedu eu cefnogaeth ac ymgysylltu â chymunedau.



### CYFLEOEDD GAFODD EU COLLI

Mwy o waith ar y cyd ar draws ffrydiau gwaith.

Cyfathrebu mwy cydlynol yn adrodd hanes gweledigaeth y prosiect.

Arddangos natur/sero net drwy gydol y prosiect.

Cynhadledd/digwyddiad am systemau bwyd cynaliadwy i bob buddiolwr.

Cefnogi cymunedau am fwy na 18 mis.

Amseru'r gwaith fesul cam i ledaenu gweithgarwch ac adeiladu ar gamau blaenorol.

Canolbwyntio ar gyrraedd pobl sy'n anoddach i ymgysylltu â nhw.

Cysylltu y tu hwnt i Gymru a Lloegr e.e. yr UE, gweddill y DU.

Meddwl am newid gwirioneddol, nid dim ond enillion cyflym.

Ystyriaeth bellach ar 'beth nesaf'.

Cefnogaeth Llywodraeth Cymru e.e. mynediad at ddata, cyflwyniadau i awdurdodau lleol.

Canolbwyntio cyfiawnder cymdeithasol fel blaenoriaeth ar gyfer dewis buddiolwyr.

**TABL 15:** Cyfleoedd gafodd eu colli a nodwyd gan bartneriaid

Collwyd cyfleoedd ar lefel rhaglen yn bennaf oherwydd diffyg capasiti cyffredinol o fewn y tîm SF&G. Mae'r rhan fwyaf o'r tîm yn gweithio'n rhan-amser. Byddai cynyddu capasiti wedi eu galluogi i ffocysu'n well. Roedd gan brosiect arall a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru berson cyllid 4 diwrnod yr wythnos, oedd yn rhyddhau amser i'r cydlynnydd wneud mwy o gydlynw. Yn SF&G, roedd cydlynnydd y rhaglen hefyd yn gyfrifol am reoli cyllid y rhaglen, a oedd yn lleihau'r capasiti ar gyfer cydgysylltu yn ddifrifol. Yn gyffredinol, wnaeth y tîm ddim sylweddoli faint o gapasiti

oedd ei angen i reoli tîm prosiect mor fawr sy'n cynnwys Cymru gyfan. Roedd hyn hefyd o ganlyniad i'r awydd i beidio ymddangos bod canran rhy uchel o gostau'r prosiect yn cael ei ddefnyddio ar gydgysylltu. Roedd gweithgarwch ynghylch datblygu a rhannu data wedi'i fapio yn fwy cymhleth ac yn cymryd llawer o amser na'r disgwyl, oedd yn golygu nad oedd yr adnodd Land Explorer wedi'i ddatblygu'n llawn erbyn diwedd y prosiect. Mae'r gwaith gafodd ei wneud hyd yn hyn yn rhoi sylfaen i adeiladu arno yn y dyfodol.

## 11.5 CYDLYNU A CHYFLWYNO

Nododd arweinwyr ffrydiau gwaith ei bod yn arwyddocaol bod gan bartneriaid arbenigedd a rhwydweithiau presennol yn gysylltiedig â ffocws eu darpariaeth. Er enghraifft, roedd gan aelod staff yr SFG oedd yn canolbwyntio ar FfW4 gysylltiadau lleol eisoes felly gallai ymgysylltu â grwpiau cymunedol priodol, ac adeiladu ar gefnogaeth a ddarparwyd eisoes i gymunedau ar fentrau cysylltiedig.

Mae'n hynod bod llawer o bartneriaid y prosiect heb weithio gyda'i gilydd o'r blaen, sy'n golygu nad oedd ganddyn nhw berthynas â'i gilydd na ffyrdd wedi'u sefydlu o gydweithio. Er enghraifft, roedd SFG wedi gweithio gyda chyngror Sir Gwynedd o'r blaen, ond roedd hynny gydag unigolion penodol yn hytrach na pherthynas sefydliadol: "Mae gennych chi berthynas gyda'r unigolion hynny, a'r adrannau hynny, nid gyda'r cyngror ei hun." Rhan o adeiladu ffrydiau gwaith llwyddiannus felly oedd datblygu perthynas waith dda gyda phartneriaid newydd, rhywbeth a amlygodd pawb fel canlyniad cadarnhaol i'r prosiect.

Hyd yn oed ar lefel cydgysylltu, roedd nifer o bartneriaid prosiect yn newydd i dîm cydlynu SFG. Roedd ymdeimlad bod sefydliadau partner yn llawer mwy cysylltiedig ar ddiwedd cyfnod y prosiect; mae partneriaid yn gwybod gyda phwy i siarad ac yn ymwybodol o ddiddordeb, arbenigedd a gwybodaeth pobl. Fel tîm, mae SFG hefyd yn fwy hyderus i siarad â'r gwahanol sefydliadau. Yn flaenorol, bydden nhw wedi ysgrifennu ceisiadau am gyllid ar eu pen eu hunain o fewn tîm SFG, ond bellach maen nhw'n fwy parod i fabwysiadu dull ar y cyd, gan fod ganddyn nhw ymddiriedaeth mewn eraill a'r hyn y maen nhw'n ei wneud. Creodd cymysgedd heriol o ffrydiau gwaith gymhlethdodau i'r tîm cydlynu, yr oedd disgwyl iddyn nhw gael golwg drosfwaol ar bopeth. Roedd yn heriol olrhain holl weithgareddau'r prosiect gyda llawer o ddata i'w reoli ynghyd â chyfrifoldeb i fonitro targedau, allbynnau a chyflwyno adroddiadau. Roedd hyn yn heriol, yn enwedig gan mai dyma'r tro cyntaf i SFG gydlynu prosiect Cymru gyfan, ond nid oedd yn amhosibl.

Nododd partneriaid fod cael tîm SFG yn gyfrifol am reolaeth gyffredinol y prosiect yn amhrisiadwy - roedd y gefnogaeth cyfathrebu, cyllid a rheoli prosiectau a ddarparwyd yn bwysig i sefydliadau llai a heb gymaint o brofiad oedd heb y capasiti i ddarparu hyn.

Nododd partneriaid fod amser mewn cyfarfodydd ar-lein bob amser yn gyfyngedig, ac yn aml bod llawer o fanylion i'w trafod. Gadawodd hyn amser cyfyngedig i archwilio syniadau a photensial ar gyfer cysylltu ffrydiau gwaith, sy'n golygu mai dim yn ystod gweithdy mis Mai y datblygwyd ymdeimlad o sut y gellid meithrin synergeddau lle roedd mwy o le ar gyfer dysgu a chyfnewid agored:

*"Roedd dod at ein gilydd wyneb yn wyneb yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol; roedden nhw'n helpu i adeiladu cysylltiad, dealltwriaeth ac ymddiriedaeth."*  
(Partner FfW2)

Roedd capasiti ac arbenigedd cyfyngedig i ddatblygu'r gweithgaredd mapio yn llawn, ac ni chafodd hyn ei ymgorffori'n llawn ar draws y prosiect o'r cychwyn cyntaf. Mae potensial i fynd y tu hwnt i'r mewnbwn data sylfaenol hyd yn hyn, a'i wneud yn fwy rhanadwy. Mae cael mewnwediad cyfyngedig i natur GIS ar ddylunio'r prosiect yn golygu y gallai SFG fod wedi creu gweithgaredd mapio mwy priodol.



## 12.0 HERIAU A CHYFYNGIADAU

Mewn trafodaethau gyda phartneriaid y prosiect a'r tîm cydlynu, y neges glir oedd bod y ddarpariaeth wedi cael ei effeithio'n fawr gan y penderfyniad gohiriedig i ddyfarnu cyllid, yn enwedig gan na ddaeth hyn gydag unrhyw estyniad i'r amserlen ar gyfer cyflawni. Fel y dywedodd un partner yn y gweithdy gwerthuso: "Roedd y prosiect cyfan yn llai cryf oherwydd yr oedi i ariannu felly fe wnaethon ni gollu rhyw bedwar mis o waith." Roedd ffrydiau gwaith wedi dioddef oherwydd cyfnodau byrrach i gyflawni'r un lefel o uchelgais a chreodd hyn bwysau ar staff a lleihau eu gallu i gymryd amser i ystyried arloesi neu ddimensiynau y tu hwnt i'r blaenoriaethau uniongyrchol ar gyfer gweithredu. Ar ben hynny, roedd gweithio gyda natur yn gefndir cymhleth y mae angen ei hystyried yn barhaus wrth ddarparu cyllid a chydbwysio blaenoriaethau gwahanol. Canfu aelodau'r tîm nad oedd ganddyn nhw le i feddwl yn greadigol nac i ddatblygu dull mwy cysylltiedig.

I dimau ffrydiau gwaith, un her allweddol o fod yn rhan o brosiect mwy oedd diffyg capasiti a'r ffaith bod aelodau'r tîm yn brysur iawn, yn enwedig os oedden nhw'n gweithio ar draws mwy nag un ffrwd waith. Roedd buddiolwyr ar draws ffrydiau gwaith hefyd wedi sylwi ar y diffyg capasiti hwn a arweiniodd at gyfathrebu arafach ond ni chafodd ei ystyried yn niweidiol i'w llwyddiant. Nodwyd bod hyn wedi rhoi staff rhan-amser dan straen neilltuol a gafodd ei ddwysáu gan y llinell amser dosbarthu gywasgedig o ganlyniad i'r oedi cyn cadarnhau cyllid y prosiect. Rhoddwyd pwysau penodol ar dîm SFG fel y sefydliad oedd wedi ymrwymo fwyaf i arweinyddiaeth ffrydiau gwaith, yn ogystal â chydlynu cyffredinol. Roedd unigolion oedd yn ymroddedig i sawl ffrwd waith yn ei chael hi'n arbennig o heriol, gyda phwysau yn gwaethygu gan drosiant personél a cholli capasiti cysylltiedig.

Efallai bod y ddwy her gyntaf hyn wedi cael eu dwysáu gan raddfa'r dyheadau a bennwyd ar gyfer y prosiect, gyda rhai targedau eithaf uchelgeisiol a disgwyliadau o lefelau uchel o effaith. Byddai'r targedau hyn yn fwy posibl pe bai'r prosiect wedi'i gyflawni ar draws ei amserlen wreiddiol. Ond gallai cynllun y prosiect hefyd fod wedi elwa o fwy o fyfyrion ar ddichonoldeb ei dargedau, a chwmpas mwy cymedrol o ran mewnbynnau. Gallai hyn fod wedi caniatáu mwy o gyfle i gael synergeddau rhwng ffrydiau gwaith.

Nododd partneriaid y gallai synergeddau a chysylltiadau pellach fod wedi bod rhwng ffrydiau gwaith, ond cafodd hynny ei gyfyngu gan amser. Nodwyd hefyd bod partneriaid wedi cael gwell ymwybyddiaeth o'r potensial ar gyfer y cysylltiadau hyn yn ystod y gweithdy wyneb yn wyneb ym mis Mai 2022, oedd yn golygu bod y gwaith o ddarparu eisoes ar y gweill, gyda dim ond ychydig o amser yn weddill i adeiladu arny'n nhw. Nododd un arweinydd llif gwaith nad oedd hierarchaeth glir ymhlith partneriaid oedd yn gweithio arno, oedd yn golygu ei bod yn cymryd peth amser i sefydlu'r ffordd orau o gydweithredu a rheoli'r ddarpariaeth. Roedd hyn hefyd yn cael ei rwystro gan bartneriaid nad oedd ganddyn nhw bob amser y capasiti i'w roi i'r prosiect ar adegau allweddol i bartneriaid eraill neu'r buddiolwyr.

Roedd gan rai ffrydiau gwaith uchelgeisiau i ymgysylltu â chymunedau mewn ardaloedd trefol ac ardaloedd o gwmpas trefi oedd yn cael eu hystyried yn rhai heriol ganddynt. Roedd angen ymgysylltu â thirfeddianwyr ar nifer hefyd, grŵp targed nad oedd gan lawer o bartneriaid arbenigedd blaenorol ag ef. Roedden nhw'n ei chael hi'n anodd denu diddordeb, a gwelson nhw bod angen dealltwriaeth newydd arny'n nhw o'r ffordd orau i apelio at y gynulleidfa hon er mwyn sicrhau cefnogaeth.



Fel y nodwyd uchod, her i bob prosiect oedd bod gweithgarwch a chefnogaeth gysylltiedig ynghlwm wrth gyfnod penodol o gyllido. Nododd rhai partneriaid fod hyn yn arwain at ymyl dibyn posibil i fuddiolwyr, sy'n wynebu tynnu cefnogaeth yn ôl yn haf 2023:

*“Yr unig beth bach y byddwn i'n ei deimlo'n arbennig fel rhywun newydd i'r prosiect hwn, nad oedd wedi cael cefnogaeth gan [SFG] o'r blaen, byddwn yn poeni y byddai'r gefnogaeth yn dod i ben pan fydd y prosiect wedi gorffen. Oherwydd bod sefydlu dól yn beth tymor hir sy'n cael ei wella flwyddyn ar ôl blwyddyn, ac rydyn ni'n dysgu gyda phob cylch o'r blynyddoedd, felly hoffwn wybod y gallaf gael gafael ar gyngor mewn blynyddoedd i ddod i barhau a gwella'r ddôl. Ond rydw i'n gwybod y galla i lawr y ffordd a siarad gyda [SFG] unrhyw bryd.”*  
(Buddiolwr 3 FfW4)

Roedd partneriaid yn gallu sefydlu rhai mecanweithiau i fynd i'r afael ag effaith hyn, a bydd rhywfaint o weithgaredd yn parhau. Ond dim ond trwy gymorth ariannol pellach y gellir ailadrodd neu ymestyn peth o'r gweithgarwch gafodd ei sefydlu gan y prosiect.

Roedd y prosiect hefyd yn wynebu heriau sy'n gysylltiedig â natur bywyd yng Nghymru heddiw, oedd yn effeithio ar yr hyn y gellid ei gyflawni, ond nad yw'n hawdd mynd i'r afael ag ef. Er enghraifft, roedd hybiau bwyd yn ei chael hi'n anoddach ennill cwsmeriaid yn ystod argyfwng costau byw, pan ddaeth pris yn flaenoriaeth uchel ar gyfer prynu bwyd. Roedd hyfforddeion oedd yn rhan o FfW6 yn dod ar draws anhawster byw fforddiadwy mewn ardaloedd gwledig, tra'n gweithio mewn sector lle mae cyflogau'n gallu bod yn isel. Roedd rhai partneriaid yn teimlo y byddai wedi bod yn ddymunol blaenoriaethu gweithredu i fynd i'r afael â'r bobl sy'n cael eu heffeithio fwyaf gan dlodi ac allgau cymdeithasol, ond byddai hyn wedi golygu

newid mewn ffocws, ac efallai y byddai wedi bod yn anodd ei gyflawni trwy brosiect o'r math hwn.

Fel y nodwyd yn flaenorol, roedd RGS wedi cymryd baich gweinyddol trymach nag a gynlluniwyd yn wreiddiol. Cafodd yr her hon ei gwaethgu oherwydd y cychwyn hwyr, gan i hynny olygu bod y prosiect wedi mynd o fod yn brosiect 27 mis i brosiect 18 mis. Erbyn i recriwtio gael ei gwblhau, dim ond 15 mis oedd ar ôl, ac roedd hyn hefyd yn heriol o safbwynt recriwtio. Un adlewyrchiad oedd y byddai wedi bod yn ddefnyddiol cael mwy o arweiniad gan Lywodraeth Cymru ynghylch faint o amser craidd y byddai ei angen ar staff i gydlynu'r prosiect (mewn perthynas â gofynion adrodd LIC, a oedd yn feichus ac yn cymryd llawer o amser i'w bodloni). Gyda phopeth yn cael ei dalu mewn ôl-daliadau a swm y dystiolaeth oedd ei hangen ar ei gyfer (a'r amser oedd ei angen i gasglu'r dystiolaeth honno), roedd llai o amser ar gael i'w dreulio ar weithgareddau cydlynu eraill. Roedd talu partneriaid mewn ôl-daliadau hefyd yn creu straen, gan ei fod yn golygu bod sawl mis, yn enwedig ar ddechrau'r prosiect, pan nad oedd partneriaid yn cael eu talu am eu gwaith ar y prosiect.



Wrth i'r prosiect esblygu, daeth yn amlwg y byddai cyfathrebu ei weithredoedd a'i gyflawniadau yn fecanwaith pwysig ar gyfer ysgogi newid ehangach. Fodd bynnag, roedd capasiti ac arbenigedd cysylltiedig pob partner yn gyfyngedig, yn ogystal â'r gallu o fewn SFG i arwain ar gyfathrebu. Pe bai'r rhain wedi bod yn nodweddion cryfach yn nyluniad gwreiddiol y prosiect, efallai y byddai'r potensial hwn wedi cael ei wireddu. Dylai mapio fod yn ehangach na phrosiect yn unig

## 12.1 GWERSI A GWADDOL I'R DYFODOL

Un o nodau'r gwerthusiad oedd deall sut y gellid ymestyn y buddion a gyflawnwyd drwy'r prosiect dros amser a gofod. Bwriad rhai ffrydiau gwaith oedd treialu dulliau y gellid eu cyflwyno ledled Cymru neu rywle arall. Roedd consensws bod llwyddiannau'r prosiect yn haeddu cyllid dilynol i ganiatáu parhad ac ehangu ei weithgaredd. Nododd eraill ffyrdd y gellid cynyddu gweithgaredd, neu, mewn ffyrdd eraill, ei ymestyn y tu hwnt i gyfnod y prosiect. Mae rhai partneriaid yn disgwyl ailadrodd y gweithgaredd gafodd ei brofi yn ystod y prosiect:

*“Rwy'n gobeithio'n fawr y byddwn mewn sefyllfa i barhau ac efelychu llawer o'r syniadau a'r themâu sydd wedi'u hamlygu a'u hyrwyddo dros gyfnod ein partneriaeth.”*  
(Partner FfW4)

Mae'n debygol y bydd hyn yn fwy syml i gyrff fel awdurdodau lleol, sy'n derbyn cyllid parhaus ar gyfer cyfrifoldebau statudol. Er enghraifft, nododd Cyngor Sir Gwynedd bod eu dyletswyddau a'u

er mwyn darparu gwaddol a chyfleoedd defnydd ehangach felly mae cydweithio â phrosiectau eraill ar lefel Cymru gyfan ac yn ehangach yn ddefnyddiol iawn. Mae rhwydweithiau'n bodoli eisoes a dylai'r rhain gael eu gwella a'u cefnogi. Un pwynt trafod mawr parhaus yw sut y caiff cynnwys ei ychwanegu - ydyn ni'n caniatáu mynediad golygu cyhoeddus neu ydyn ni'n cyfyngu - mae gan y ddau bwyntiau positif a negyddol.

blaenoriaethau argyfwng hinsawdd yn cefnogi parhad y gwaith o wyrddu'r ystâd gyhoeddus. Fodd bynnag, maen nhw'n ymwybodol nad yw gweithgarwch o'r fath wedi cael ei flaenoriaethu yn ystod cyfyngiadau ariannol yn y gorffennol. Nid yw partneriaid eraill mewn sefyllfa i barhau i gyflawni oni bai eu bod yn derbyn cyllid penodol i staffio gweithgareddau. Gwnaeth partneriaid FfW2 gais am gyllid i efelychu'r model ar gyfer cefnogi hybiau bwyd yn Lloegr, ond dydyn nhw ddim wedi sicrhau cyllid eto. Nododd y rhan fwyaf o bartneriaid mai gwaddol allweddol o'r prosiect fydd y dysgu y maen nhw wedi'i ennill, a bydd yn berthnasol yn y dyfodol. Roedd hyn yn cynnwys mewnwelediadau sy'n seiliedig ar faterion, a sgiliau mwy cyffredinol fel datblygu prosiectau yn effeithiol. Er enghraifft, mae cyngor SFG fel arfer wedi canolbwyntio ar dyfu bwyd, ond trwy FfW4 maen nhw wedi datblygu gwybodaeth am reoli peillwyr. Maen nhw'n gobeithio rhannu hyn ar draws staff *“Er mwyn i ni allu helpu pobl i reoli mannau gwyrdd ar gyfer natur yn ogystal ag ar gyfer tyfu bwyd yn fwy effeithiol”* (Arweinydd FfW4).

Amlygodd partneriaid botensial i barhau i gydweithio, gan ddisgwyl gwneud hynny yn y dyfodol. Bydd y rhwydweithiau a'r perthnasoedd a sefydlwyd trwy'r prosiect, yn enwedig rhwng partneriaid, yn parhau ac yn gweithredu fel ffynhonnell wybodaeth, syniadau a chydweithio. Nododd staff SFG y budd o fod bellach yn fwy ymwybodol o'r hyn y mae sefydliadau eraill yn ei wneud, o'u diddordebau. Maen nhw eisoes yn cynllunio cydweithrediad pellach gyda DTA, ac yn archwilio gyda Shared Assets sut i efelychu'r gwasanaeth CLAS mewn rhannau eraill o'r DU. Nododd y tîm fod cydweithrediadau o'r fath yn cael eu hwyluso trwy gael gwell dealltwriaeth o wahanol gryfderau pob partner, sydd hefyd yn lleihau'r risg o gystadlu am gyfleoedd tebyg. Bydd SF&G yn ceisio parhau i gefnogi sgiliau a hyfforddiant garddwriaethol, a chydweithio â sefydliadau eraill yn y maes hwn, ond hefyd i gamu'n ôl lle mae partneriaid eraill eisoes wedi ei gynnwys.

Awgrymodd tîm OFN fanteision tebyg, ac mae'n disgwyl parhau i fod mewn cysylltiad â phartneriaid eraill. Mae potensial i adeiladu ar berthnasoedd gafodd eu sefydlu drwy'r prosiect: "Mae bod yn ystyriol ac yn ymwybodol o'r hyn y mae pawb yn ei wneud" yn golygu eu bod yn gwybod sut y gallen nhw ymateb i gyfleoedd a chydweithio yn y dyfodol. "Rydyn ni'n gwybod y gallwn ni weithio gyda nhw ac mae'n gweithio'n dda." (Arweinydd FfW2)

Fodd bynnag, mae cydweithredu parhaus yn golygu cyfyngiadau ymarferol:

*"Yr un peth y gallaf ei ragweld ar hyn o bryd yw'r diffyg amser ar baratoi ceisiadau am gyllid: fel arfer mae'r amserlen ar gyfer cyflwyno cais yn dynn iawn a gall cyfranogiad priodol nifer o bartneriaid fod yn anodd. Fodd bynnag, os ydych chi'n adnabod ac yn ymddiried mewn partneriaid (ar y ddwy ochr) yn aml gellir datrys hyn yn nes ymlaen."*  
(Partner FfW2)

Dywedodd un partner fod sail ar gyfer prosiectau partneriaeth pellach sy'n adeiladu ar hwn, ond nododd fod hyn ond yn realistig os caiff ei yrru gan nod penodol.

Amlygodd partneriaid rai ffactorau oedd yn cyfyngu ar y potensial i hyrwyddo buddion prosiectau, neu i adeiladu ar ei waddol. Er enghraifft, ni fydd y pryniannau tir gafodd eu hariannu yn eu lle tan yn agos at ddiwedd y prosiect, sy'n golygu potensial cyfyngedig i'w cefnogi y tu hwnt i'r pwynt caffael; yn ddefnyddol bydden nhw'n darparu mentora parhaus.

Roedd amryw o ffyrdd i bartneriaid deimlo bod modd ymestyn canlyniadau'r prosiectau, ar yr amod bod cymorth addas ar gael. Byddai buddsoddiad tymor hwy yn galluogi mwy o ffocws ar dargedu unigolion neu gymunedau sydd ddim ar daith 'bwyd lleol', er enghraifft. Gallai hefyd alluogi dyblygu ac ehangu gweithgarwch a ddarparwyd ar raddfa fach, er enghraifft prynu tir cymunedol. Mae potensial i barhau i wella a defnyddio mapio a rennir yn seiliedig ar yr adnodd gafodd ei sefydlu gan y prosiect. Fodd bynnag, bydd hyn yn ei golygu bod angen i bartneriaid fod â'r capasiti ar gyfer rhannu data, a'r ddealltwriaeth angenrheidiol o sut i ddefnyddio'r mapio. Bydd hefyd yn gofyn am benderfyniad ynghylch a yw'r map yn dod yn fynediad cwbl agored, neu'n parhau i fod yn agored i ddata gan y partneriaid yn unig.

Amlygodd trafodaethau fod dull partneriaeth o'r fath yn gymharol anarferol. Ar ôl dangos ei botensial, awgrymodd partneriaid y byddai'n fanteisiol i Lywodraeth Cymru wahodd sefydliadau i ffurfio partneriaethau i fynd i'r afael â phroblemau penodol, ac yna eu hwyluso i gydweithio ar gynnig. Byddai hyn yn galluogi sefydliadau sydd â chapasiti cyfyngedig i fod yn rhan o ddatblygu cynigion, a gallai fod yn ffordd fwy effeithlon o ddyrannu arian cyhoeddus.

Er mwyn datblygu gwaddol o'r prosiect, mae'r partneriaid yn disgwyl parhau â'u gwaith ar y cyd. Maen nhw'n bwriadu nodi cyfleoedd ar gyfer partneriaethau a chydweithrediadau penodol gan adeiladu ar y perthnasoedd gafodd eu sefydlu trwy'r prosiect. Mae hyn yn debygol o gynnwys ceisiadau am gyllid ar y cyd. Mae partneriaid hefyd yn disgwyl parhau i gymryd rhan mewn gweithgareddau rhwydweithio, fel gweminarau a chyfeirio gwybodaeth a chyfleoedd at ei gilydd. Mae cydweithredu pellach yn cael ei gynnig, fydd yn gwella gwaddol y prosiect, gan gynnwys gweithgaredd cyfathrebu a hyrwyddo. Disgrifiodd un partner waddol y prosiect yn nhermau ffrwythau sy'n troi'n hadau - modelau pob ffrwd waith - gyda'r bartneriaeth yn cefnogi eraill i ganiatáu iddyn nhw ffynnu.

Ymhlith y ffactorau eraill gafodd eu hawgrymu ar gyfer hyrwyddo cynnydd y prosiect a chynyddu cefnogaeth roedd:

- Newidiadau ym mholisi'r DU a Chymru i gefnogi garddwriaeth
- Gwneud llywodraethau lleol a chenedlaethol yn ymwybodol o ddeilliannau'r prosiect
- Defnyddio tystiolaeth o'r prosiect hwn i gefnogi ceisiadau am gyllid
- Cyllid gan Lywodraeth Cymru i ffafrio partneriaethau cyfunol dros gystadleuaeth rhwng sefydliadau
- Llywodraeth Cymru yn cysylltu prosiectau wedi'u hariannu gan ENRAW i rannu dysgu ac adeiladu synergeddau
- Estyn allan at rwydweithiau eraill yn y Deyrnas Unedig, a
- Datblygu ymyriadau i fynd i'r afael â bylchau mewn gweithgarwch a amlygwyd gan y prosiect





## 13.0 CASGLIADAU AC ARGYMHELLION

Mae'r prosiect Mannau Gwyrdd Gwydn wedi cyflawni manteision eang i gymunedau ac amgylcheddau ledled Cymru, gan wella systemau bwyd gyda phwyslais ar gynhyrchu lleol a ffermio amaeth-ecolegol. Mae amrywiaeth y gweithgareddau a'r dulliau gweithredu wedi galluogi effeithiau eang, gan ddangos gwerth mecanweithiau lluosog ar gyfer ymgysylltu cymunedau â mannau gwyrdd. Mae cymunedau sydd wedi ymgysylltu â'r ffrydiau gwaith wedi datblygu hyder a sgiliau sydd eu hangen i'w galluogi i gychwyn newid yn y dyfodol. Mae gan lawer o'r rhain botensial clir i gael eu gweithredu'n ehangach, ledled Cymru a thu hwnt. Mae'r partneriaid sy'n cymryd rhan wedi ennill arbenigedd a mewnwleidiadau newydd a fydd yn gwella eu gwaith yn y dyfodol, ac yn darparu sylfaen gref ar gyfer adeiladu ar waddol y prosiect hwn.

Roedd graddfa ac uchelgais y prosiect yn herio'r rhai a oedd yn rhan ohono, ac efallai eu bod wedi ymestyn rhywfaint y tu hwnt i'r hyn oedd yn gysurus yn ymarferol ar gyfer prosiect o'r math hwn, a lefel y cyllid. Cafodd hyn ei wneud yn fwy heriol oherwydd oedi i gychwyn y prosiect gafodd ei achosi gan brosesau y tu hwnt i reolaeth y partneriaid. Arweiniodd graddfa'r cydweithrediad at swm o gydlynw a gweinyddiaeth a oedd yn fwy na'r disgwyl, gafodd ei waethygu weithiau gan drosiant staff naturiol. Roedd gofynion y cyllidwyr ar gyfer adroddiadau manwl a phrosesau ariannol penodol iawn hefyd wedi defnyddio cryn gapasiti, ac wedi creu peth rhwystredigaeth.

Fe wnaeth uchelgais y prosiect ddarparu momentwm, ac fe alluogodd cysylltiadau rhwng llinynnau gweithgaredd a rhanddeiliaid oedd wedi eu datgysylltu'n flaenorol. Fel cydweithrediad rhwng sefydliadau sydd â diddordebau cydnaws ac agenda cyffredin, cyflwynodd y bartneriaeth lawer o nodweddion y gwyddom eu bod yn gwella rhagolygon effaith ar y cyd. Bu SFG, fel cydlynnydd

prosiect, yn gweithredu fel sefydliad asgwrn cefn yn annog cyfathrebu parhaus; datblygodd cynllunio gwerthuso ar draws y ddarpariaeth fframwaith mesur cyffredin. Roedd y ffrydiau gwaith yn darparu gweithgareddau atgyfnerthu ei gilydd, gyda'r bartneriaeth yn cydnabod sut y gallan nhw gyfuno i siapio systemau bwyd cymunedol.

Lle digwyddodd synergeddau, cynyddodd effaith gyffredinol y prosiect ar y cyd, yn enwedig i gymunedau a gafodd gefnogaeth amlochrog. Roedd yr amserlen ar gyfer gweithredu yn gymharol fyr wrth geisio newid materion cymhleth fel systemau bwyd, ond mae'r prosiect wedi sefydlu sylfeini y gellir adeiladu arny'n nhw i hyrwyddo ei effaith ar y cyd. Bydd manteisio ar y llu o ganlyniadau posibl a fyddai'n cyfrannu at newid o'r fath ddim ond yn bosibl trwy gefnogaeth barhaus i swyddogaethau allweddol a chydlynw, ac i rannu dysgu'n ehangach.

Wrth edrych yn ôl, gall partneriaid nodi sut y dylai cynlluniau fod wedi cael eu newid i wella dichonoldeb a synergeddau, ond nid oedd hyn yn hysbys yn ystod dyluniad y prosiect. Roedd enghreifftiau hefyd o nodau a dulliau yn cael eu haddasu mewn ymateb i amgylchiadau newidiol neu anghenion ddaeth i'r amlwg, er enghraifft newid y broses ar gyfer prynu tir, gan ddangos lefel o ymatebolrwydd ac ystwythder.

Roedd manteision ac anfanteision gweithio ledled Cymru o fewn ffrydiau gwaith, ac fel partneriaeth. Efallai y gallai peth canolbwyntio daearyddol ar gyflenwi fod wedi meithrin synergeddau pellach, gan ganiatáu i gymunedau gysylltu gweithredu ar sawl rhan o'r system fwyd neu fathau o fannau gwyrdd. Fodd bynnag, roedd cynnig cefnogaeth yn genedlaethol yn fwy cynhwysol. Mae trefniadau logistaidd ar gyfer gweithio mewn partneriaeth yn

dod yn haws pan fydd sefydliadau wedi eu lleoli'n agos at ei gilydd, ond roedd cwmpas ledled y DU yn cofleidio ystod ehangach o arbenigedd.

Mae sawl ffrwd waith wedi sefydlu asedau diriaethol fydd yn gweithredu fel gwaddol parhaus, yn enwedig lle buddsoddodd y prosiect mewn asedau cyfalaf fel tir, coed, datrysiadau digidol ac offer. Yn yr un modd, mae'r prosiect wedi galluogi llawer o asedau anniriaethol, megis gwneud grwpiau cymunedol yn fwy gwydn a chreu perthnasoedd rhwng gwahanol rhanddeiliaid a allai alluogi dysgu a chefnogaeth yn y dyfodol. Mae disgwyl y bydd llawer o'r grwpiau cymunedol gafodd eu galluogi i reoli mannau gwyrdd yn parhau i wneud hynny y tu hwnt i ddiwedd y prosiect. Bydd nifer o'r sefydliadau partner yn darparu cefnogaeth barhaus i gamau o'r fath drwy eu gweithrediadau craidd, neu drwy rannu adnoddau a grëwyd gan y prosiect. Ond mae'n annhebygol y gall yr holl weithgarwch gafodd ei gychwyn gyda chefnogaeth prosiect barhau, er enghraifft rhwydweithiau na fydd yn gweithredu, o bosibl, heb hwyluso ac arweinyddiaeth. Mae nodau fel newid trefn torri gwair awdurdodau lleol wedi cael eu cyflawni, felly nid oes angen gweithgarwch parhaus.



Y cyfyngiad amlycaf ar y prosiect yw ei fod wedi'i ariannu am gyfnod penodol, gan gefnogi gweithgaredd sy'n gaeth i amser. Nododd partneriaid, oherwydd yr oedi cychwynnol, bod y prosiect yn dechrau dirwyn i ben yn union fel yr oedd eu gweithgaredd yn ennill momentwm mewn gwirionedd. Mewn rhai achosion, roedd yn bosibl addasu cynlluniau mewn ymateb i'r amserlen newidiol, ond nid oedd hyn bob amser yn bosibl, yn enwedig ar gyfer gweithgareddau fel plannu coed sy'n ddibynnol ar dymhorau.



Mae dysgu o'r prosiect hwn yn debygol o fod o ddiddordeb i amrywiaeth o randdeiliaid, grwpiau cymunedol a phenderfynwyr. Mae teilyngdod amlwg i'r partneriaid barhau i gyfathrebu'n eang yr hyn y mae'r prosiect wedi'i gyflawni, sut y gwnaeth hynny, a sut y gellir ailadrodd llwyddiannau. Mae'r prosiect wedi treialu amrywiaeth o ddulliau sy'n addas ar gyfer gweithredu a chefnogaeth polisi ehangach. Mae partneriaid eisoes wedi bod yn gweithio i nodi amodau allanol fel datblygu polisi sy'n cyd-fynd â nodau'r prosiect, gan gyflwyno cyfleoedd i ddatblygu gweithgarwch yn seiliedig ar ddysgu o'r ffrydiau gwaith.

Yn seiliedig ar y mewnwelediadau a gyflwynir yma, a'r gwerthusiad ar draws y prosiect, byddai'r tîm gwerthuso yn tynnu sylw at wersi i'r partneriaid prosiect eu hystyried mewn perthynas â gweithgaredd a datblygiad prosiect yn y dyfodol:



**1** Manteisio ar ddysgu o bob rhan o'r prosiect fel tystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio, ac o sut y gellid addasu'r gweithgareddau a dreialwyd i ymateb i anghenion sy'n dod i'r amlwg.

**2** Parhau i ddarparu dull 'pecyn cyfan' o weithio gyda chymunedau, gan gynnwys cyllid, gwybodaeth a chynghor, gan gynnig cymorth hyblyg wedi'i deilwra i anghenion buddiolwyr.

**3** Gwneud amcangyfrifon hael yn hytrach na rhai ceidwadol o'r capasiti staff sy'n angenrheidiol i gyflawni prosiectau uchelgeisiol, cymhleth ac i weinyddu partneriaethau mawr.

**4** Neilltuo amser a chapasiti o fewn prosiectau partneriaeth ar gyfer gweithgaredd i feithrin perthnasoedd rhwng partneriaid, ac iddyn nhw gyfnewid dysgu.

**5** Ar gyfer partneriaethau mawr, cynllunio ar gyfer cyfarfodydd wyneb yn wyneb gyda lle i siarad, yn enwedig ar gyfer sefydliadau sy'n gweithio gyda'i gilydd am y tro cyntaf.

**6** Cynllun gweithredu sy'n canolbwyntio ar sicrhau tir i berchnogaeth gymunedol fod yn araf ac i fuddiolwyr fod angen cefnogaeth barhaus.

**7** Ystyried sut i gydbwysu hygyrchedd dull gweithredu ledled Cymru, gyda'r potensial am synergeddau a gweithio mwy effeithlon drwy ganolbwyntio ar ardaloedd daearyddol penodol.

Mae'r gwerthusiad hefyd yn awgrymu sut y gallai Llywodraeth Cymru, fel y corff a ddyfarnodd ac a weinyddodd y grant i'r prosiect hwn, wella rhaglenni tebyg yn y dyfodol:

**1** Ystyried potensial i gefnogi dyblygu a pharhad gweithgareddau ffrwd waith a ddangosir i fod yn effeithiol ar draws y prosiect hwn.

**2** Hwyluso penderfyniadau ariannu yn gyflym; caniatáu amser ychwanegol ar gyfer cyflwyno yn dilyn penderfyniadau'n cael eu hoedi.

**3** Symleiddio prosesau hawliadau a darparu un pwynt cyswllt ar gyfer prosiectau a ariennir.

**4** Cefnogi gweithgaredd i ledaenu gwybodaeth am yr hyn a weithiodd yn y gweithgareddau peilot, a sut y gellir eu haddasu i leoedd eraill.

**5** Cynghori ymgeiswyr ar gydbwysedd priodol rhwng uchelgais, risg a dichonoldeb, yn enwedig yng ngoleuni'r cydgysylltiad sy'n ofynnol ar gyfer prosiectau partneriaeth cymhleth.

**6** Meithrin dulliau cydweithredol lle mae gan sefydliadau botensial i gydweithredu ar broblemau cymhleth ac atebion cysylltiedig; galluogi ceisiadau cydweithredol yn hytrach na cheisiadau cystadleuol am arian cyhoeddus.

